

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Ymchwil gymdeithasol
Social research

Number: 07/2010



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

GWERTHUSIAD O'R CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI I FUSNESAU BACH YNG NGHYMRU

GWERTHUSIAD O'R CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI I FUSNESAU BACH YNG NGHYMRU

Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru

2010

**Prof Frank Peck
Dr Gail Mulvey
Keith Jackson
Dr Ignazio Cabras
Dr Simon Parry
Jacqui Jackson**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhannu'r farn honno o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Jamie Smith
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cathays Parc
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 02920 82 6850
Ebst: Jamie.smith@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010

© Hawlfraint y Goron 2010

Tabl Cynnwys

Tabl Cynnwys	2
Crynodeb Gweithredol	5
1 Rhagarweiniad	13
2 Methodoleg	13
2.1 Cam 1 - Adolygiad o'r Llenyddiaeth a Chynlluniau Cenedlaethol Cymharol	15
2.1.1 Adolygiad o'r Llenyddiaeth Bresennol.....	15
2.1.2 Cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol.....	16
2.2 Cam 2 – Asesu effaith y cynllun – yr ymchwil sylfaenol	16
2.2.1 Y boblogaeth darged o fusnesau – sampl gwota.....	16
2.2.2 Yr Holiadur.....	17
2.2.3 Dadansoddiad o ddata'r arolwg.....	17
2.2.4 Casglu data ansoddol o'r cyfweiliadau	17
2.3 Cam 3 – Arolwg ffôn dilynol o berchnogion busnes	18
2.4 Cam 4 – Gwerthuso gweithrediad y Cynllun	18
3 Adolygiad o'r Llenyddiaeth.....	20
3.1 Rhyddhad ardrethi mewn cyd-destun	20
3.1.1 Yr Angen am Gymorth i'r sector Busnesau Bach a Chanolig gan y Sector Cyhoeddus	20
3.1.2 Rhyddhad ardrethi i fusnesau bach	22
3.2 Cynlluniau rhyddhad ardrethi annomestig.....	24
3.2.1 Cymhwyso cynlluniau rhyddhad ardrethi annomestig ar draws y DU.....	24
3.2.2 Y cynllun rhyddhad ardrethi yng Nghymru	27
3.3 Effaith y rhyddhad ardrethi.....	28
3.4 Tegwch a thargeddu Cynlluniau Rhyddhad Ardrethi.....	31
3.5 Rhwystrau i fynediad a chostau cudd y cynlluniau rhyddhad ardrethi.....	32
3.6 Cysylltiadau gyda thalu rhent: Pwy sy'n elwa?.....	34
3.7 Pwyntiau crynodeb o adolygu'r llenyddiaeth	35
4.1 Ymwybyddiaeth gyffredinol o'r gwahanol gynlluniau ar draws y DU	39
4.2 Y prif wahaniaethau mewn gweithrediad	40
4.2.1 Effaith busnesau'n gorfod ymgeisio am ryddhad ardrethi.....	40
4.2.2 Rhyddhad wedi'i dargedu at sectorau penodol	41
4.3 Yr argraff sydd gan fusnesau o fudd Cynlluniau Rhyddhad Ardrethi.....	43
4.4 Effaith rhyddhad ardrethi busnes ar fusnesau.....	44
4.5 Effaith rhyddhad ardrethi ar yr economi leol.....	44
4.6 Argraffiadau o degwch y Cynlluniau Rhyddhad Ardrethi	45
4.7 Cymharu'r cynllun Cymreig â chynlluniau eraill yn y DU.....	46
4.8 Crynodeb o'r cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid.....	48
5.1 Y mathau o fusnes a ymatebodd i'r arolwg	58
5.2 Ymwybyddiaeth o'r cynllun rhyddhad ardrethi.....	60
5.3 Pwysigrwydd ardrethi yng nghyswllt trosiant a chostau busnes.....	62
5.4 Effaith Rhyddhad Ardrethi ar Fusnesau yn y 12 mis diwethaf.....	66
5.5 Barn am Ryddhad Ardrethi.....	72
5.6 Faint o ryddhad ardrethi sy'n cael ei lyncu gan gynnydd mewn rhent ----	75
6.1 Cyfweiliadau gyda Busnesau Bach.....	76
6.2 Swyddfeydd Post sydd hefyd yn darparu gwasanaeth gofalu.....	76
6.3 Busnes sy'n darparu profiad gwaith gwerthfawr.....	79

6.4 Busnesau Stryd Fawr mewn Ardaloedd Gwledig	80
6.5 Mae costau busnes uchel yn ei gwneud yn anodd i fusnesau bach ehangu	86
6.6 Busnesau hamdden yn gweld rhyddhad ardrethi fel achubiaeth.....	89
6.7 Pe bai'r rhyddhad yn cael ei leihau, ni fyddai'r gwaith gwirfoddol yn dioddef ond byddai'n rhaid torri'n ôl ar hyfforddiant	90
6.8 Pe bai'r busnes yn cau, byddai busnesau lleol eraill yn colli masnach	92
• roedd yn cynnig cyfleusterau rhynggrwyd	96
• yn lle pasio drwy'r dref neu eistedd ar eu pen eu hunain yn eu ceir, roedd llawer o bobl fasnach yn galw heibio'r caffi.....	96
• roedd yn cynnig 'clust' yn ddyddiol i'r bobl a oedd yn galw heibio.....	96
• gallai pobl adael pethau gyda hi i eraill eu casglu	96
• gallai grwpiau ac elusennau adael eu taflenni ac arddangos posteri yn y caffi.	96
Byddai budd y pethau hyn yn cael ei golli pe na bai ei busnes yn goroesi.....	96
6.10 Rhyddhad ardrethi'n cael ei neilltuo ar gyfer gwaith trwsio, cynnal a chadw a gwella	96
6.10.1 Cafodd berchennog tafarn ar gyrion ardal o harddwch eithriadol yng nghanolbarth-de Cymru ei gyfweld. Roedd hefyd wedi rhoi amser i ysgrifennu llythyr hir wrth ymateb i'n holiadur. Roedd y cwpl wedi prynu'r dafarn 18fed ganrif yn 2005 ac wedi cyflogi dau staff llawn amser a phump rhan amser. ..	96
6.10.2 Dywedodd y ddau fod derbyn y rhyddhad ardrethi wedi bod yn bwysig iddynt yn y 12 mis diwethaf oherwydd ei fod wedi golygu eu bod wedi gallu gwneud gwelliannau.	96
'mae'r rhyddhad wedi cael ei neilltuo ar gyfer trwsio'r to. Mae'r cwpl yn helpu oherwydd mae'n helpu'r busnes i wella, mae'n gwneud iddo edrych yn llawer taclusach, yn enwedig i dwristiaid sy'n dod yma. Mae £2,000 yn llawer iawn o arian os gallwch ei fuddsoddi'n ôl yn yr adeilad a gwneud y gwaith eich hun.'	96
6.10.3 Dywedodd pe na bai'r rhyddhad ar gael y byddai'r ochr cynnal a chadw a gwelliannau'n mynd yn syth ac y byddai'n rhaid iddo ystyried cau oherwydd y byddai'r lle'n anniogel heb y gwelliannau a wnaeth i'r dafarn fel peiriannydd trydanol ac adeiladwr. Ychwanegodd pe bai'r rhyddhad yn cael ei dorri y 'byddai'n effeithio ar nifer y staff a gyflogwn a'r hyn a gynigiwn o ran adloniant.' Ar ôl i'r TAW o 20% gael ei gyflwyno, nid yw'n si• r a fydd yn gallu aros mewn busnes.....	96
6.10.4 O ran helpu'r gymuned, meddai:.....	97
'rydym wedi helpu'r ysbyty lleol, drwy godi arian raffl ar gyfer canser. Pob wythnos, mae gennym botyn ar gyfer rhoddion sydd yna'n cael ei wagu.'.....	97
Y llynedd, llwyddwyd i godi £1,000 ar gyfer yr ysbyty cymunedol lleol, i dalu am deledu sgrîn fawr a ffaniau trydan.....	97
6.11 Crynodeb o'r cyfweiliadau busnes	97
7.1 Y rhai a fynychodd y gr• p ffocws.....	99
7.2 Pa ddefnydd oedd busnesau yn ei wneud o'r rhyddhad ardrethi	102
7.3 Ymwybyddiaeth o'r lefelau rhyddhad a dderbynnir	103
7.4 Targedu yn ôl math	105
7.5 Targedu busnesau yn ôl maint.....	106
7.6 Hawl Awtomatig	107
7.7 Materion Eraill a Godwyd	108
7.7.1 Beth y mae busnesau yn ei gael am eu hardrethi?	108

7.7.2 Yr economi a thresmas busnesau cadwyn mawr ar y Farchnad yng Nghymru	108
7.7.3 Sylwadau eraill ar ryddhad ardrethi	109
8 Casgliad	111
Dogfennau cyfeiriol	114
Atodiad 1: Y Rhaglen Cyfweld Rhanddeiliaid.....	119
Atodiad 2: Holiadur Post (fersiwn Saesneg) -----	122
Atodiad 3: Y Rhaglen Cyfweld Rhanddeiliaid-----	126

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar yr ymchwil sylfaenol a wnaed gan y Ganolfan dros Ddatblygu Economaidd Rhanbarthol (CRED) i werthuso'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yng Nghymru.
2. Yn benodol, bydd yn cofnodi barn busnesau bach a chanolig a gefnogir gan y Cynllun am ei effaith ar eu busnes ac ar y sector busnes yn gyffredinol.
3. Mae'r adroddiad yn dod i gasgliadau terfynol ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad eu hystyried.

Y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach

4. Cafodd y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach (y Cynllun) ei roi ar waith gan ddau-ddeg dau o awdurdodau lleol ledled Cymru gyda'r nod o ysgafnu'r pwysau ariannol ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

Ffynonellau data a dulliau

5. Dechreuwyd yr ymchwil drwy wneud adolygiad o'r llenyddiaeth ar effaith y rhyddhad ardrethi ar fusnesau bach. Cefnogwyd hyn gan gyfweiliadau dros y ffôn gyda rhanddeiliaid cenedlaethol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat sy'n ymwneud ag amrywiol gynlluniau Rhyddhad Ardrethi Annomestig ar draws y DU. Ychwanegwyd at y cyfweiliadau cychwynnol gan gyfweiliadau ffôn gyda rhanddeiliaid yn y sector preifat sy'n cefnogi busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Mewn cydweithrediad â Llywodraeth y Cynulliad a'r awdurdodau lleol yng Nghymru, dyfeisiwyd ac anfonwyd arolwg yn y post at dros 3,000 o fusnesau bach a chanolig cyn dadansoddi'r 403 o ymatebion a dderbyniwyd. I gael darlun mwy manwl o effaith y Cynllun, cafodd 15 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg post eu cyfweld dros y ffôn. I gadarnhau bod yr ymchwil yn rhoi darlun gwirioneddol o bersbectif presennol busnesau, cyflwynwyd canlyniadau'r ymchwil i grŵp ffocws o'r rhanddeiliaid sector preifat a holwyd i ddechrau.

Dadansoddiad o'r dogfennau a'r adroddiadau cefndir

6. Roedd yr adolygiad o'r dogfennau a'r adroddiadau yn awgrymu mai cymharol ychydig o ymchwil sydd wedi'i wneud i effaith Cynlluniau Rhyddhad Ardrethi. Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n awgrymu bod yn rhaid ystyried unrhyw ymyriad treth fel rhan o gyd-destun ehangach cymorth i fusnesau. Y prif bwyntiau yw:

7. Bod ymyriadau treth yn fwy goddefol na chyfarwyddol o ran canlyniadau polisi.

8. Gall cyflwyno trothwyon gael canlyniadau anfwriadol.

9. Gallai'r wasgfa economaidd bresennol gynyddu olygu bod rhyddhad ardrethi yn bwysicach fyth i ddyfodol nifer fawr o fusnesau.

10. I'r cynllun rhyddhad ardrethi weithio, mae yna gostau cudd i'r awdurdodau o ran casglu data a chynnal a chadw.

11. Byddai'r llenyddiaeth yn awgrymu bod yn rhaid i bob cynllun cymorth busnes, gan gynnwys rhyddhad ardrethi, fod yn deg, ymarferol a hygyrch. Felly, mae casglu data cywir a thargedu'r rhyddhad yn agweddau pwysig i'w hystyried.

12. Byddai ymchwil flaenorol a wnaed yn Llundain yn awgrymu mai bach iawn o ddylanwad y mae'r symiau ariannol cymharol fach drwy'r cynlluniau Rhyddhad Ardrethi yn ei gael ar ymddygiad busnesau bach a chanolig; mae ymchwil a wnaed o sampl fach o fusnesau bach a chanolig yn yr Alban yn ymwrthod â hyn ac yn awgrymu bod gan y cymorth fanteision nad ydynt yn cyfateb i lefel y cymorth ariannol a roddir.

13. Mae nodweddion y Cynlluniau Rhyddhad Ardrethi sy'n rhedeg ar draws y DU yn amrywio o ran a) y bandiau gwerth ardrethol y cymhwysir yr amrywiol

ryddhad iddynt; b) bod angen i fusnesau 'gofrestru' i dderbyn rhyddhad ardrethi; a c) a oes rhyddhad ardrethi ar gael i eiddo lluosog mewn un busnes.

Dadansoddiad o'r cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol o'r sectorau preifat a chyhoeddus

14. Mae'r amrywiol gynlluniau cenedlaethol ar gyfer rhyddhad ardrethi wedi eu dyfeisio i gynnig y fantais fwyaf bosibl i fusnesau bach a chanolig yn gyffredinol ond mae ganddynt i gyd drefniadau fymryn yn wahanol oherwydd iddynt gael eu sefydlu ar wahanol adegau i gwrdd â gwahanol amodau busnes.

Dadansoddiad o'r cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid o'r sector preifat yng Nghymru

15. Ar y cyfan, mae cefnogaeth i'r cynllun presennol yng Nghymru. Mae'r wasgfa economaidd bresennol yn golygu bod rhyddhad ardrethi yn bwysicach fyth i fusnesau.

16. Gellir dehongli rhyddhad ardrethi fel dull o roi cymorth i fusnesau ymylol neu i fusnesau mewn ardaloedd ymylol.

17. Gall rhyddhad ardrethi arwain at ganlyniadau anfwriadol oherwydd eu bod yn bennaf seiliedig ar y math o eiddo yn hytrach na nodweddion y busnes.

18. Mae angen gwneud mwy i wneud buddiolwyr y Cynllun yn ymwybodol o'r fantais a roddir iddynt drwy'r rhyddhad ardrethi.

Dadansoddiad o'r arolwg post

19. Mae trideg y cant o'r ymatebwyr yn ansicr ynghylch faint o ryddhad ardrethi a roddir iddynt a sut y maent yn gweithio. Mae'r categorïau busnes llai (sy'n cyflogi pump neu lai o bobl) yn fwy ymwybodol o sut y mae'n gweithio. Mae lefel yr ymwybyddiaeth hefyd yn amrywio ar draws sectorau gyda swyddfeydd post, siopau a'r sector llety yn fwyaf ymwybodol.

20. Mae ardrethi busnes yn cael yr effaith ariannol fwyaf ar y busnesau lleiaf felly y rhain sy'n gwerthfawrogi'r rhyddhad fwyaf.

21. Roedd dros hanner y busnesau'n teimlo bod rhyddhad ardrethi wedi cael peth effaith ar eu penderfyniadau busnes, gyda mwy nag un o bob pump o'r rhai a holwyd yn dweud bod eu rhyddhad ardrethi yn ffactor bwysig dros iddynt aros mewn busnes.

22. Mae'r mathau o weithgareddau busnes a gefnogir gan y rhyddhad ardrethi'n cynnwys costau staffio; cynnal a chadw adeiladau a chyfarpar; buddsoddi mewn TG a marchnata a chefnogi busnes newydd.

23. Cytunodd y rhai a holwyd fod y Cynllun wedi cefnogi eu sector ond roedd gwahaniaeth barn ynghylch a oedd yr arian a dderbyniwyd yn ddigonol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol busnesau bach a chanolig. Mae hyn yn awgrymu, i rai busnesau bach o dan yr amgylchiadau presennol, bod rhyddhad ardrethi yn gwneud gwahaniaeth hanfodol yn ariannol. I eraill, roeddent efallai'n croesawu rhyddhad ardrethi am ei gyfraniad ariannol ond roeddent hefyd yn ei weld fel arwydd o lefel yr ymrwymiad gan Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi'r sector busnesau bach a chanolig.

24. Dim ond cyfran fach iawn (8 y cant) o'r rhai a holwyd a deimlai fod y Cynllun yn wastraff o arian cyhoeddus.

25. Nid yw'r rhan fwyaf o fusnesau bach a chanolig (66 y cant) gydag eiddo rhent yn credu bod eu landlordiaid yn codi mwy o rent oherwydd y Cynllun, ond credai 12 y cant fod landlordiaid yn cymryd y rhan fwyaf neu'r cyfan o'r Rhyddhad Ardrethi mewn taliadau rhent ychwanegol.

Dadansoddiad o'r cyfweiliadau busnes

26. Roedd y cyfweiliadau'n cadarnhau bod masnachu ar hyn o bryd yn anodd gyda'r mwyafrif o fusnesau naill ai'n gwneud dim elw neu'n gweithredu ar golled yn y tymor byr. Mae rhai wedi ystyried cau ar ddiwedd y flwyddyn.

27. Mae rhai o'r busnesau a holwyd yn parhau i gyflogi staff lle medrant ac yn dadlau mai aros ar agor yw eu cyfraniad mwyaf i'r gymuned (mae rhai yn gweithio 70-90 awr yr wythnos erbyn hyn). Mae'r ymatebion yn awgrymu bod llawer o berchnogion busnes yn gweld anghenion y gymuned fel rhan annatod o amcanion eu busnes.

28. Yn eu barn nhw, fe ddylai Llywodraeth y Cynulliad gefnogi busnesau bach a chanolig a byddai torri'r rhyddhad yn cael ei ystyried i fod yn annheg.

Canlyniadau'r gr• p ffocws

29. Derbyniodd y gr• p fod busnesau bach a chanolig yn gweld rhyddhad ardrethi fel rhan werthfawr o ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i'r sector hwn.

30. Roedd yr ymrwymiad hwn yn bwysig oherwydd teimlai'r gr• p fod effaith y wasgfa economaidd wedi ychwanegu at y pwysau masnachol sydd eisoes yn bodoli wrth i nifer gynyddol o fusnesau cadwyn mawr o sawl sector sefydlu yng Nghymru (siopau, llety twristiaeth). Felly, mae rhyddhad ardrethi'n cael ei weld fel dull o amddiffyn busnesau sydd yn nwylo pobl leol.

31. Cafodd y drafferth oedd rhai busnesau bach a chanolig yn ei chael i weld manteision y Cynllun ei briodoli i'r ffordd y mae perchnogion busnes yn ystyried derbyn y rhyddhad (naill ai fel lleihad misol mewn costau neu grant blynyddol fel y gellir buddsoddi mwy y flwyddyn ganlynol).

32. Roedd ymwybyddiaeth isel o faint o arian yr oeddent yn ei dderbyn a sut oedd y Cynllun yn gweithio yn broblemau sydd angen eu datrys. Mae cyrff masnach a phroffesiynol yn ymddangos i fod yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i gyfleu'r neges hon i'r sector, byddai hyn yn helpu delwedd y cyrff hyn ac efallai'n helpu Llywodraeth y Cynulliad i egluro sut a pham allai'r system newid yn y dyfodol.

33. Roedd y grŵp yn cydnabod bod swyddfeydd post yn achos arbennig mae'n debyg a bod y Cynllun presennol yng Nghymru hefyd yn helpu sectorau busnesau bach a chanolig eraill sydd fwyaf mewn angen.

34. Roedd y grŵp hefyd yn cydnabod bod y system bresennol yn rhoi cymorth teg i fusnesau bach a chanolig o wahanol faint yng Nghymru drwy ddefnyddio'r dull mwyaf ymarferol a hygyrch sydd ar gael. Mae'n debyg bod y bandiau presennol ar gyfer rhyddhad ardrethi yn o lew o gywir, cyn ailbrisio.

35. Ar y cyfan, dywedodd y grŵp fod busnesau bach a chanolig yn ddiolchgar am gymorth parhaus Llywodraeth y Cynulliad a bod y grwpiau cymorth busnes am weithio ochr yn ochr â Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu a chyfathrebu'r cymorth hwn yn y dyfodol.

Casgliadau

36. Ar y cyfan, mae pawb yn gytûn bod y cynllun yng Nghymru yn briodol o ran y cydbwysedd rhwng cymhlethdod, tegwch ac ymarferoldeb.

37. Mae rhai agweddau ar y Cynllun yng Nghymru'n cael eu hefelychu gan wledydd eraill yn y DU a byddai hyn yn awgrymu, ar hyn o bryd, bod y system yma yng Nghymru wedi taro'r cydbwysedd gorau rhwng tegwch, ymarferoldeb a hygyrchedd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad oes unrhyw bwysau mawr i newid trefniadau'r Cynllun yng Nghymru yn helaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni ddylid diystyru newidiadau yn y tymor canolig os bydd yr economi yng Nghymru yn newid.

38. Fel buddiolwyr y manteision, mae busnesau bach a chanolig yn amlwg o blaid y Cynllun ond maent hefyd yn ei weld fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i'r sector yn gyffredinol sy'n cael ei ystyried i fod yn hanfodol i'r rhan o economi Cymru sydd yn nwylo pobl leol.

39. Mae nifer o fusnesau bach a chanolig yn ymddangos i fod yn anymwybodol o sut yn union y mae'r Cynllun yn gweithio a rhai'n ymddangos i

fod yn anwybodus o ran yr union fanteision. Fodd bynnag, mae'r ailbrizio diweddar wedi cynyddu ymwybyddiaeth o ardrethi'n gyffredinol.

40. Mae'n anodd i fusnesau bach a chanolig ddeall yn union sut ddefnyddir budd ariannol y Cynllun i helpu eu busnes. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod rhai busnesau bach a chanolig yn ei weld fel lleihad bychan misol yn eu costau tra bod eraill yn ei weld fel grant blynyddol mwy i'w fuddsoddi yn y busnes.

41. Mae'r wasgfa economaidd bresennol a nifer y busnesau cadwyn sy'n sefydlu yng Nghymru wedi gwneud masnach i fusnesau bach a chanolig yn anodd yn y flwyddyn ddiwethaf a byddai effaith unrhyw leihad yn y cymorth drwy ryddhad ardrethi yn llawer gwaeth o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

42. Mae'r ateb 'awtomatig' ar gyfer y Cynllun a ddefnyddir gan Lywodraeth y Cynulliad yn ymddangos i fod yn dderbyniol i fusnesau bach a chanolig.

43. Teimlwyd y byddai cynyddu ecwiti'r cynllun drwy gyflwyno trothwy amlhaen yn ychwanegu at gymhlethdod a chost y gweinyddu. Gallai hyn leihau'r budd cyffredinol i fusnesau bach a chanolig ac arwain efallai at golli cefnogaeth mwyafrif y sector hwn.

44. Mae eisiau llai o drethi a mwy o gefnogaeth ar bob sector busnes a bydd eu cyrff masnach yn dadlau'n anochel dros eu hachosion unigol. Fodd bynnag, ymddengys bod yna gonsensws cyffredinol (ond nid cytundeb 100 y cant) bod swyddfeydd post, ar y funud, yn amlwg yn achos arbennig.

Argymhellion

45. Derbyn bod y cymorth ariannol a roddir i fusnesau bach a chanolig drwy'r Cynllun yn eu helpu i fod yn economaidd gynaliadwy yn yr hinsawdd economaidd bresennol yng Nghymru. Mae hyn yn gyfiawnhad dros barhau i gefnogi busnesau bach a chanolig drwy'r Cynllun.

46. Cynyddu ymwybyddiaeth o ddulliau a manteision y Cynllun, efallai drwy gydweithredu gyda'r cyrff / cymdeithasau masnach perthnasol

47. Cadw dull 'awtomatig' y Cynllun presennol yng Nghymru.

48. Bod Llywodraeth y Cynulliad yn diweddararu'r sector yn gyson ac yn ei gynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ar unrhyw Gynllun newydd.

49. Dylai'r Cynulliad wirio unrhyw newidiadau i'r Cynllun presennol yn ofalus i sicrhau na fyddent yn creu unrhyw amgylchiadau annisgwyl neu ganlyniadau anfwriadol sy'n andwyol i fusnesau trydydd parti.

1 Rhagarweiniad

1.1 Y ddogfen hon yw'r Adroddiad Terfynol ar yr astudiaeth ymchwil 'Gwerthusiad o'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yng Nghymru' a gomisiynwyd i'w gyflawni gan y Ganolfan dros Ddatblygu Economaidd Rhanbarthol ym Mhrifysgol Cumbria ar ran Llywodraeth y Cynulliad.

1.2 Prif amcanion yr ymchwil yw:

- Asesu pa effaith y mae'r rhyddhad wedi'i gael ar fusnesau bach, o ran eu gallu i oroesi, ac o ran annog busnesau newydd i sefydlu.
- Gwneud argymhellion ar ddarparu'r Cynllun yn y dyfodol.

1.3 Y pedwar maes y mae Llywodraeth y Cynulliad am weld tystiolaeth arnynt yw:


- Effaith rhyddhad ardrethi busnes ar fusnesau.
- Effaith ehangach y rhyddhad ar yr economi leol.
- Llenyddiaeth ar gynlluniau rhyddhad tebyg o gwmpas y DU.
- Ymddygiad busnesau bach yng nghyswllt penderfyniadau busnes a chyfansoddiad costau.

2 Methodoleg

2.1 Yn dilyn trafodaethau gydag ymchwilwyr cymdeithasol ac arweinwyr polisi yn Llywodraeth y Cynulliad, mae'r fethodoleg yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o amrywiol ffynonellau, gan gynnwys arolygon, cyfweiliadau, ymgynghori a grŵp ffocws gyda gwneuthurwyr polisi perthnasol a chyrrff cymorth i fusnesau bach. Mae'r rhain wedi cynhyrchu data ansoddol a meintiol (gweler Ffigur 1) gan roi darlun clir i Lywodraeth y Cynulliad o effaith y cynllun rhyddhad ardrethi ar fusnesau.

2.2 Nod y dulliau casglu data hyn, dyluniad yr holiadur yn enwedig, oedd ceisio nodi agweddau ar *ychwanegedd yn y Cynllun presennol a pha sefyllfaoedd gwrthffeithiol* allai fodoli o dan *senarios* polisi eraill (LGFDR, 2005). Rydym wedi targedu detholiad o fusnesau o restrï wedi eu darparu gan y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Gwnaed hyn mewn cydweithrediad agos â'r Awdurdodau Lleol ar ôl cynnal cyfarfod cychwynnol o'r Gweithgor Trethi Lleol yn y Drenewydd ar 16 Ebrill 2010. Roedd y dull hwn hefyd yn cynnwys cyfweiliadau gydag amrywiol randdeiliaid a chynrychiolwyr busnes.

Ffigur 1: Fframwaith Dadansoddi



2.1 Cam 1 - Adolygiad o'r Llenyddiaeth a Chynlluniau Cenedlaethol Cymharol

2.1.1 Adolygiad o'r Llenyddiaeth Bresennol

2.1.1.2 Rydym wedi adolygu'r llenyddiaeth bresennol ar effaith rhyddhad ardrethi ar fusnesau bach. Drwy chwilio i ddechrau drwy amrywiol gronfeydd data o gylchgronau academiaidd, daethpwyd o hyd i tua 25 o erthyglau ar ystod o themâu perthnasol gan gynnwys materion busnesau bach a threth ynghyd â materion eiddo, twf ac elw i fusnesau bach yng Nghymru. Roedd y llenyddiaeth hefyd yn cynnwys sylwadau gan y cyfryngau masnach, mewn cyhoeddiadau busnes ac yn y wasg boblogaidd.

2.1.1.3 Mae'r adolygiad o'r llenyddiaeth yn dangos rhai o gymhlethdodau'r system rhyddhad ardrethi ac ansicrwydd ynghylch effaith gwahanol senarios ar gyfraddau goroesi ar gyfer busnesau bach a busnesau newydd sefydlu yng Nghymru. Ar y naill law, mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn dangos pa mor bwysig yw cadw costau busnes yn isel lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mae goblygiadau codi ardrethi busnes fel cyfraniad at leihau ardrethi i fusnesau llai bellach yn destun trafodaeth gyhoeddus (Walesonline, 2009a). Mae ffynonellau anecdotaidd hefyd yn awgrymu bod yr hinsawdd economaidd bresennol yn rhoi mwy o bwysau ar y bwriad i leihau'r lluosydd a ddefnyddir i gyfrifo gwerth ardrethol yng Nghymru nes ymlaen eleni (Walesonline, 2009b)

2.1.1.4 Mae'r pwyntiau a godir uchod yn ymwneud â 'gwerth am arian' ac 'effeithiolrwydd' ac effeithlonrwydd y cynllun rhyddhad ardrethi yn gyffredinol, ynghyd â'i effaith ar fusnesau preifat ar y cyfan. Ar lefel arall, fodd bynnag, mae amcanion penodol y prosiect fel a nodir yn y brîff, yn canolbwyntio ar effaith y cynllun rhyddhad ardrethi presennol ar *busnesau bach unigol* a'u gallu i oroesi. Mae methodoleg y prosiect yn ystyried y berthynas rhwng effeithiolrwydd y cynllun yn gyffredinol, ac yn enwedig ei fanteision i fusnesau bach unigol. Yn hyn o beth, mae angen harneisio'r dystiolaeth a'r dadleuon i gyfiawnhau unrhyw gynllun rhyddhad ardrethi i fod yn '*darparu economi well a chryfach ac ansawdd byw gwell.*' (LGFDR, 2005b)

2.1.2 Cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol

2.1.2.1 Ategir yr adolygiad o'r llenyddiaeth gan **gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol** o'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Darparwyd y manylion cyswllt ar gyfer y rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus gan Lywodraeth y Cynulliad sydd, ynghyd â phersonél allweddol, yn gyfrifol am ddarparu'r cynllun rhyddhad ardrethi yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gwnaethom hefyd gysylltu gyda rhanddeiliaid o'r sector preifat gan gynnwys amrywiol gyrff masnach gydag aelodau sydd wedi derbyn rhyddhad ardrethi yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon (Ffederasiwn Groseriaid yr Alban (SGF), Cymdeithas Masnach Adwerthu Gogledd Iwerddon (NIRTA) a'r Gymdeithas Siopau Hwylus (ACS). Defnyddiwyd y cyfweiliadau hyn i gasglu barn am yr egwyddor o roi rhyddhad ardrethi i fusnesau bach ac am weithrediad y cynlluniau yn y gwahanol gyd-destunau cenedlaethol (gweler Atodiad 1 am yr atodlen). I ennill rhywfaint o bersbectif gan y rhai sy'n gyfrifol am y system ardrethi, gwnaethom hefyd gyfweld cynrychiolydd o'r Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw (IRRV).

2.2 Cam 2 – Asesu effaith y cynllun – yr ymchwil sylfaenol

2.2.1 Y boblogaeth darged o fusnesau – sampl gwota

2.2.1.2 Roedd ein dull o ddethol busnesau ar gyfer yr arolwg yn seiliedig ar sampl gwota – dewiswyd hapsampl i sicrhau bod y nodweddion ar y cyfan yn adlewyrchu'r boblogaeth gyffredinol o fusnesau bach yng Nghymru sy'n derbyn rhyddhad ardrethi, yn nhermau sector, maint a dosbarthiad daearyddol. Penderfynwyd y byddai ymatebion gan y sampl o tua 400 holiadur yn rhoi digon o gywirdeb at bwrpas y gwerthusiad (gweler paragraffau 5.9 a 5.10).

2.2.1.3 I greu sampl briodol o gyfeiriadau busnes, cawsom gymorth y cynrychiolwyr Awdurdod Lleol yn y Gweithgor Trethi Lleol ar 16 Ebrill 2010. Cytunodd bob awdurdod lleol i gyflenwi rhestr o'r holl enwau a chyfeiriadau busnes oedd yn derbyn rhyddhad ardrethi yn eu gwahanol ardaloedd awdurdod lleol. Anfonwyd 2,400 o holiaduron yn y post yn yr wythnos yn

dechrau ar 17 Mai gyda 770 arall yn yr wythnos yn dechrau ar 24 Mai 2010. Anfonwyd trydydd llwyth at sampl ddethol o 398 o fusnesau nad oedd wedi ymateb i'r ddau holiadur cyntaf yn yr wythnos yn dechrau ar 1 Mehefin 2010.

2.2.2 Yr Holiadur

2.2.2.1 Drwy weithio'n agos gyda'r personél o Lywodraeth y Cynulliad, cynhyrchodd y tîm ymchwil CRED holiadur wedi'i ddyfeisio i gasglu tystiolaeth o effaith y rhyddhad ardrethi ar amrywiol agwedd ar ar fusnes ynghyd ag agweddau perchnogion busnes tuag at dderbyn rhyddhad o'r fath (ar gyfer y fersiwn Saesneg gweler Atodiad 2).

2.2.2.2 Yn ogystal, roedd yr holiadur yn gofyn a fyddai'r busnesau'n barod i gymryd rhan mewn arolwg ffôn i ddilyn a chytunodd canran dda o'r ymatebwyr i wneud hyn.

2.2.3 Dadansoddiad o ddata'r arolwg

2.2.3.1 Yn amodol i gyfyngiadau'r holiadur, roeddem yn rhagweld y byddai'n bosibl gwneud cymhariaeth rhwng busnesau bach mewn gwahanol sectorau, rhai mewn gwahanol leoedd a rhai o wahanol faint, yn ôl nifer y gweithwyr. Dylai ymatebion gan 400 o fusnesau fod yn ddigon i wneud cymariaethau o'r fath yn ystadegol hyfyw. (gweler paragraffau 5.9 a 5.10).

2.2.4 Casglu data ansoddol o'r cyfweiliadau

2.2.4.1 I gasglu barn am fanteision a chostau'r cynllun rhyddhad ardrethi yng Nghymru a chynlluniau tebyg, aeth y tîm ymchwil ati hefyd i gynnal cyfweiliadau lled-ffurfiol dros y ffôn gyda rhanddeiliaid allweddol (gweler Atodiad 3 am atodlen y cyfweiliadau). Roedd unigolion a gytunodd i gael eu cyfweled yn cynnwys cynrychiolwyr o:

- a) Association of British Credit Unions Ltd (ABCU)
- b) Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA)
- c) Cymdeithas y Siopau Hwylus (ACS)
- d) Cymdeithas Gwrw a Thafarndai Prydain (BBPA)

- e) Siambr Fasnach Prydain
- f) Cymdeithas Lletygarwch Prydain (BHA)
- g) Sefydliad Tai Tafarn Prydain (BII)
- h) CBI
- i) Y Fforwm Busnesau Preifat (FPB)
- j) Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB)
- k) Sefydliad y Cyfarwyddwyr (IOD)
- l) Cymdeithas Genedlaethol y Meistr Bobyddion (NAMB)
- m) Ffederasiwn Genedlaethol Y Ffriwyr Pysgod (NFFF)
- n) Ffederasiwn Genedlaethol Newyddion Adwerthu (NFRN)
- o) Ffederasiwn Genedlaethol yr Is-Bostfeistri (NFSP)
- p) Cynghair y Siopau Gwledig (RSA)
- q) Cynghair Twristiaeth Cymru

2.2.4.2 I ennill dealltwriaeth gychwynnol o effaith y Cynllun yng Nghymru, rydym hefyd wedi cynnal cyfres o gyfweiliadau gyda thri chyfrifydd lleol yng Nghymru ac wedi sgwrsio gyda chynrychiolwyr o ddetholiad o grwpiau adwerthu bychain yng Nghymru.

2.3 Cam 3 – Arolwg ffôn dilynol o berchnogion busnes

2.3.1 I ddirnad yn well beth yw effaith y Cynllun ar fusnesau unigol, rydym hefyd wedi cynnal cyfres o 15 o gyfweiliadau ffôn dilynol gyda pherchnogion busnesau bach a chanolig a ymatebodd i'r holiadur post.

2.4 Cam 4 – Gwerthuso gweithrediad y Cynllun

2.4.1 Defnyddiwyd y darganfyddiadau interim yn sail ar gyfer cyflwyniad i'r grŵp ffocws yn adeiladau Llywodraeth y Cynulliad yng Nghaerdydd ar 21 Gorffennaf. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o randdeiliaid cenedlaethol allweddol a ddewiswyd yng Ngham 2. Cyflwynasom ddarganfyddiadau rhagarweiniol ein hymchwil a defnyddio'r deunydd hwn i wahodd ymatebion gan gyfranogwyr gwybodus. Defnyddiwyd y digwyddiad i gadarnhau ac addasu ein dehongliad o'r dystiolaeth gan hefyd gynhyrchu cwestiynau a syniadau pellach oedd angen inni eu hystyried yn yr adroddiad

terfynol. Defnyddiwyd y grŵp ffocws hefyd i brofi ymateb ein rhanddeiliaid i newidiadau posibl neu welliannau i'r cynllun rhyddhad ardrethi presennol.

2.4.2 Ar sail yr adborth i'r adroddiad cynnydd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r trafodaethau yn y grŵp ffocws, aethom ati i edrych eto ar y data sylfaenol ac eilaidd a gasglwyd gan baratoi adroddiad terfynol sy'n asesu pa effaith y mae'r rhyddhad yn ei gael ar fusnesau bach tra'n gwneud argymhellion ynghylch sut i ddarparu'r cynllun yn y dyfodol.

3 Adolygiad o'r Llenyddiaeth

3.1 Mae'r adolygiad o'r llenyddiaeth hwn yn ceisio gosod y rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng nghyd-destun ehangach y cymorth ariannol a roddir i fusnesau bach. Mae'r adolygiad yn nodi'r prif faterion a themâu sy'n bwysig i werthuso effaith rhyddhad ardrethi ar fusnesau bach. Mae'n edrych ar y dystiolaeth ar gymhlethdodau yn y system ac ansicrwydd ynghylch effaith gwahanol fathau o gymorth ar fusnesau bach ac ar y gymuned fusnes ehangach.

3.2 Rhennir yr adolygiad yn ddwy brif ran. Mae'r adran gyntaf yn edrych ar gynlluniau rhyddhad ardrethi yng nghyd-destun ehangach y cymorth a roddir gan y sector cyhoeddus i Fusnesau Bach a Chanolig; mae'n gofyn pa wersi allwn ni eu dysgu o fathau eraill o gymorth ariannol. Mae adran 2 yn edrych yn benodol ac yn fwy manwl ar y cynllun rhyddhad ardrethi annomestig. Mae'r cynllun yng Nghymru'n cael ei gymharu gyda chynlluniau eraill ar draws y DU ac edrychir ar ymchwil flaenorol i faint a sut fath o effaith y mae'r cynllun yn ei gael ar fusnesau.

3.1 Rhyddhad ardrethi mewn cyd-destun

3.1.1 Yr Angen am Gymorth i'r sector Busnesau Bach a Chanolig gan y Sector Cyhoeddus

3.1.1.1 Ychydig fyddai'n cwestiynu bod ymgysylltu â'r sector busnes yn rhan bwysig o bolisi'r llywodraeth (Llywodraeth EM, 2010). Mae'r ymgysylltu hwn yn digwydd ar ffurf cymorth gweithredol drwy ddatblygu polisi ac ymyrraeth, a thrwy ymgynghori a chynnwys busnesau a sefydliadau busnes yn yr agenda bolisi. Mae'r adolygiad a'r gwerthusiad hwn o'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru yn dangos y broses hon wrth i Lywodraeth y Cynulliad holi barn busnesau am un math arbennig o ymyriad.

3.1.1.2 Mae'r cymorth a roddir yn benodol i'r sector busnesau bach a chanolig yn deillio o bwysigrwydd cydnabyddedig busnesau bach, o ran eu nifer, i'r

economi ar draws y DU gyfan. Mae'r ffigurau diweddaraf yn awgrymu, er enghraifft, bod 99.9 y cant o'r holl fusnesau yn y DU yn rhai bach a chanolig (BERR, 2008). Edrychwyd ar sawl ffynhonnell o ystadegau economaidd wrth gyflawni'r astudiaeth hon ac er bod rhai mân amrywiadau oherwydd gwahaniaethau yn amseriad neu ffocws yr astudiaethau, ar y cyfan cytunir bod y sector yn cyfrif am tua dwy ran o dair o gyflogaeth y wlad, bod gan y DU tua 3.7 miliwn o fusnesau bach a chanolig sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrif am tua 40 y cant o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) y DU a bod ganddynt drosiant blyneddol o £1 triliwn. (cyf. SBS 2001). Nid yn unig y mae busnesau bach a chanolig yn bwysig i'r economi o ran cyflogaeth a chyfraniad at CMC, maent hefyd yn chwarae rôl hanfodol yn yr economi o ran darparu syniadau, cynhyrchion a gwasanaethau newydd (Parry, 2006).

3.1.1.3 Yr arwyddocâd economaidd a chymdeithasol yma sy'n golygu bod y sector cyhoeddus dan orfod i ddarparu cymorth. Yn hanesyddol, mae hyn wedi cynnwys nifer o fesurau ymyrraeth yn amrywio o liniaru gofynion adrodd ariannol (y FRSSE er enghraifft), trothwyon TAW a gofynion archwilio, a mesurau ariannol fel credydau treth Ymchwil a Datblygu, i gymorth ariannol a thechnegol. Gellir deall pob ymyrraeth o'r fath yn nhermau dymuno cyflawni rhyw fath o newid yn y busnes bach, fel arfer mwy o fuddsoddi, datblygu a mwy o gyflogaeth (Parry, 2007). Ar adeg o anhawster economaidd, gall ymyrraeth o'r fath hefyd fod yn fater o oroesi i'r busnes bach.

3.1.1.4 Er bod pawb bron yn cydnabod bod angen cefnogi'r sector busnesau bach a chanolig, mae llawer iawn o ansicrwydd o hyd ynghylch sut orau i wneud hyn. Yn anffodus, mae'n faes o lunio polisi lle nad oes dal ddigon o ymchwil wedi'i wneud iddo. Y benbleth i'r sector cyhoeddus yw sicrhau bod unrhyw gymorth a roddir ganddo yn deg, ymarferol a hygyrch. Yr her i wneuthurwyr polisi yw dyfeisio ymyriadau sy'n cael yr effaith a ddymunir o ran helpu busnesau targed tra'n osgoi unrhyw ganlyniadau negyddol anfwriadol. Felly, mae deall sut y mae'r cynlluniau hyn yn effeithio ar wahanol fathau o fusnesau ac ardaloedd yn bwysig. Er enghraifft, awgrymodd gwerthusiad a wnaed yn ddiweddar gan BIS (2010) o'r cynllun Gwarantu Benthyciadau i Gwmnïau Bach fod effaith y cynllun hwn yn wahanol yn ôl oed a lleoliad y

busnesau dan sylw. Mae'n debygol y bydd amrywiadau tebyg o ran effaith cynlluniau rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, a thrafodir hyn yn fwy manwl isod.

3.1.2 Rhyddhad ardrethi i fusnesau bach

3.1.2.1 Mae llywodraethau o bob math yn gweld dulliau treth fel ffordd effeithiol o gefnogi busnesau. Mae ymchwil ar lefel ryngwladol yn ymddangos i fod yn dangos, a bwrw bod popeth arall yn gyfartal, fod y gwledydd hynny sydd heb ormod o reolau a rheoliadau ac sy'n cynnig cymhellion treth ac ariannol eraill yn tueddu i berfformio'n well o ran datblygu busnesau newydd. Dangosodd yr astudiaethau hyn hefyd fod gor-drethu'n gallu bod yn rhwystr i entrepreneuriaeth (Fogel, 2001).

3.1.2.2 Mae'r llenyddiaeth yn tueddu i gefnogi'r farn bod dulliau cymorth ariannol amrywiol efallai'n angenrheidiol ond nad ydynt yn ddigonol i roi cymorth effeithiol i fusnesau. Rhaid gweld ymyrraeth ariannol, yn enwedig drwy ddulliau treth, o fewn y cyd-destun cymorth i fusnesau ehangach. Nid mater o lwyddiant ariannol yn unig yw twf a dyfodol sicr y busnes bach. Mae angen strwythurau cymorth ategol os yw cymhellion ariannol o'r fath i gael eu hecsbloetio'n llawn (McGreal, Berry, Lloyd a McCarthy, 2002). Mae hefyd angen rhoi sylw i broblemau rheoli a phrinder sgiliau drwy bolisiau a chymorth effeithiol (Doern, 2009).

3.1.2.3 Fodd bynnag, o safbwynt perchnogion busnesau bach, mae treth yn amlwg yn flaenoriaeth ac yn bwnc emosiynol. Er enghraifft, yn ôl arolwg o 3,530 o berchnogion busnesau bach yn America yn 2008, materion treth gan gynnwys treth ar eiddo oedd y pethau mwyaf a oedd yn poeni'r perchnogion (Ffederasiwn Genedlaethol y Busnesau Annibynnol, 2008).

3.1.2.4 Mae'r llenyddiaeth fusnes hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gwahanol fathau o gymorth ariannol yn gallu cael effeithiau gwahanol ar fusnesau. Felly, er bod ysgafnu'r baich treth efallai'n cael ei weld fel rhywbeth dymunol ynddo'i hun, mae'n bosibl colli'r cyfle i gael dylanwad llesol ar sut y mae busnesau'n

gweithredu os oes diffyg eglurder ynghylch beth y mae'r ymyriad yn ceisio ei gyflawni. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, sbarduno buddsoddiad, cynyddu cyflogaeth, cynyddu lefel y gweithgarwch entrepreneuriaidd neu ddim ond gwella cyfraddau goroesi. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod gwahanol ddulliau o ysgafnu'r baich treth yn gallu cael gwahanol effeithiau (cyf. Laramie a Mair, 1993; Potter a Moore, 2000; Rodrigo a Felipe, 2010).

3.1.2.5 Gellir dangos sut y gall gwahanol fathau o ymyrraeth ariannol effeithio ar ganlyniadau drwy gyfeirio at ymchwil ddiweddar i gymhellion ariannol a ddyfeisiwyd i sbarduno ymchwil a datblygu a lefelau sefydlu busnes newydd. Yn ôl astudiaeth ddiweddar o fusnesau yn Quebec, roedd credydau treth yn cael mwy o effaith na chymhellion treth o ran ysgogi busnesau i wario ar ymchwil a datblygu (Baghana a Mohnen, 2009). Edrychwyd hefyd ar effaith cymhellion treth ar lefelau gweithgarwch entrepreneuriaidd. Mewn astudiaeth yn America yn 2006, dangoswyd fod amrywiol gymhellion treth (roedd yr astudiaeth yn cwmpasu treth incwm, treth ar enillion cyfalaf, treth gorfforaethol a threthi'r wladwriaeth) yn ymddangos i gael effaith sylweddol ar hunan-gyflogaeth ond roeddent yn aneffeithiol ar gyfer cael effaith ystyrlon ar weithgarwch entrepreneuriaidd (Donald a Mohsin, 2006).

3.1.2.6 Drwy gymhwyso'r rhesymeg yma i ryddhad ardrethi, y ddadl dros gynlluniau o'r fath yw eu bod efallai o fudd i fusnesau bach drwy esmwytho'r llif arian. Os derbyniwn mai hyn yw'r pwrpas, yna efallai mai nid lleihad digyfnewid mewn ardrethi yw'r dull mwyaf effeithiol. Mae Llywodraethau hefyd wedi ceisio ysgafnu'r baich llif arian ar fusnesau bach drwy ymestyn y cyfnod a roddir iddynt dalu ardrethi busnes. Yn 2009 er enghraifft, cyflwynodd Lywodraeth y DU ddeddfwriaeth fel y gallai cwmnïau dalu eu hardrethi busnes dros dair blynedd; meddai Canghellor y Trysorlys "mae'r llywodraeth yn cydnabod bod angen i fusnesau esmwytho eu llif arian ar adeg pan fo arian yn dynn iawn". Bydd y mesur hwn yn helpu busnesau i esmwytho eu taliadau ardrethi dros y tair blynedd nesaf." (Cunningham, 2009).

3.1.2.7 Mae'r llenyddiaeth hefyd yn rhoi tystiolaeth bod lefelau trothwy mewn ymyriadau ariannol yn aml yn arwain at ganlyniadau negyddol anfwriadol.

Mae hyn yn debygol o fod yn broblem gyda chynlluniau rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, gan eu bod yn seiliedig ar drothwyon. Gellir gweld hyn mewn astudiaethau diweddar o effeithiau trothwyon TAW sy'n awgrymu bod cwmnïau'n rhagweithiol gyda rheoli eu gweithgareddau i aros o dan y trothwyon. Mae strategaethau sy'n ceisio cyflawni hyn yn cynnwys yr ymarfer o ymgorffori segmentau busnes ar wahân (lle gellid dadlau bod cwmnïau mwy yn cymryd arnynt fod yn nifer o gwmnïau bach (Onji, 2009)). Mae hefyd yn digwydd bod perchnogion busnes yn fwriadol yn llesteirio twf y busnes er mwyn aros o dan y trothwy (Parry, 2010). Gellid disgwyl y byddai hyn hefyd yn digwydd gyda chynlluniau rhyddhad ardrethi sy'n seiliedig ar drothwyon. Mae deall strategaethau ystrywgar fel y rhain yn bwysig i ddatblygu'r polisi ymhellach.

3.2 Cynlluniau rhyddhad ardrethi annomestig

3.2.1 Cymhwyso cynlluniau rhyddhad ardrethi annomestig ar draws y DU.

3.2.1.1 Mae yna gynlluniau rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn eu lle ym mhob un o'r pedair gwlad ar hyn o bryd. Cyfiawnheir y cynlluniau hyn yn gyffredinol o ran eu bod yn cynnig rhywfaint o gymorth ariannol i fusnesau bach, yn enwedig yn y cyfnod diweddar o gyni economaidd. Mae ffocws y cynlluniau hyn hefyd wedi amrywio dros amser a gwnaed ymdrechion ar wahanol adegau i dargedu'r rhyddhad uchaf at fathau arbennig o fusnes (e.e. swyddfeydd post) a manau penodol (fel ardaloedd gwledig, cymunedau difreintiedig). Fodd bynnag, mae'r cyni economaidd o ganlyniad i'r dirwasgiad diweddar wedi arwain at ymestyn y cynlluniau i gynnwys ystod eang o fusnesau bach, lle bynnag y maent. Arweiniodd hyn at gyhoeddiad gan y cyn Ganghellor Llafur yn ei ddatganiad cyllideb diwethaf ym Mawrth 2010 na fyddai busnesau gyda Gwerth Ardrethol o lai na £6,000 yn talu unrhyw ardrethi yn Lloegr (Trysorlys EM, 2010) ac y bydd y rhyddhad hwn yn cael ei fabwysiadu yng Nghymru gan Lywodraeth y Cynulliad am flwyddyn.

3.2.1.2 Er bod elfennau tebyg rhwng y Cynlluniau Rhyddhad Ardrethi yn y pedair gwlad, mae yna hefyd amrywiadau pwysig sy'n adlewyrchu'r gwahanol

ffyrdd y mae'r polisïau hyn wedi esblygu, amrywiadau ym mlaenoriaethau'r polisïau a gwahaniaeth rhwng y gwledydd o ran y mathau o fusnes a'r marchnadoedd eiddo masnachol.

3.2.1.3 Fel a ddangosir yn Nhabl 1, mae yna wahaniaethau pwysig mewn amryw o nodweddion y Cynlluniau hyn.

- mae yna wahaniaethau yn y diffiniadau o drothwyon Gwerth Ardrethol, bandiau Gwerth Ardrethol, lefelau lleihau a'r defnydd a wneir o raddfeydd llithro.
- mae'r cynlluniau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yn cael eu cymhwyso'n awtomatig tra bod angen i fusnesau yn Lloegr a'r Alban gofrestru i dderbyn y rhyddhad.
- mae yna wahaniaethau o ran sut y cymhwysir y rhyddhad i fusnesau sy'n gweithredu o fwy nag un eiddo.
- mae'r Cynllun Cymreig hefyd yn wahanol i'r lleill o ran ei fod yn ceisio targedu mathau arbennig o fusnesau am resymau cymdeithasol (Undebau Credyd, Gofal Plant).

3.2.1.4 O'r 1 Ebrill 2009, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban gynllun rhyddhad ardrethi 100% i bob busnes gyda Gwerth Ardrethol o lai na £8,000. Cafodd y penderfyniad hwn ei ddathlu gan Ffederasiwn y Busnesau Bach (Ffederasiwn y Busnesau Bach, 2009). Yn yr Alban, rhaid i fusnesau ymgeisio am y rhyddhad, sy'n gallu bod yn 10% neu'n fwy o gost yr ardrethi. Mae rhyddhad ar gael i adeiladau busnes sydd â gwerth trethadwy cronus o £25,000. Yn Lloegr, rhaid i fusnesau hefyd ymgeisio am y rhyddhad. I gymhwyso, caniateir ond un eiddo gyda gwerth ardrethol o hyd at £11,999 i bob busnes. Fodd bynnag, caniateir un eiddo ychwanegol iddynt gyda gwerth ardrethol hyd at £2,600.

Tabl 1: Cymhariaeth o'r pedwar Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach

	Yr Alban 2010-11	Lloegr (cyn cyllideb 2010)	Gog. Iwerddon (2010)	Cymru (cyn cyllideb 2010)
Band Gwerth Ardrethol Isaf a'r lleihad	Hyd at £10,000 Lleihad o 100%	O dan £6,000 Lleihad o 50% (Rhwyng 1.10.10-30.9.11 lleihad o 100%)	Prisiad Blynnyddol Net (NAV)* o £2,000 neu lai Lleihad o 50%	O dan £2,400 Lleihad o 50% (Rhwyng 1.10.10- 30.9.11 0 - £6,000 lleihad o 100%)
Band Gwerth Ardrethol Canol a'r lleihad	£10,001 hyd at £12,000 Lleihad o 50%	£6,000-£11,999 Sliding scale moving down from reduction for lowest band	NAV rhwng £2,000 - £5,000 Lleihad o 25%	£2,401-£7,800 25% reduction (Between 1.10.10-30.9.11 £6,001-£12,000 tapered relief to 0%)
Y Band Gwerth Ardrethol Uchaf a'r lleihad	£10,000-£15,000 25% reduction	£12,000-£17,999 (£12,000-£25,499 yn Llundain) Defnyddio lluosydd busnesau bach	NAV Swyddfa Bost** £9,000 neu lai Lleihad o 100% NAV Swyddfa Bost rhwng £9,000 a £12,000 Lleihad o 50%	Gwerth Ardrethol Swyddfa Bost o £9,000 neu lai Lleihad o 100% Gwerth Ardrethol Swyddfa Bost rhwng £9,001-£12,000 Lleihad o 50% A hyd at Fawrth 2012: £7,801-£11,000 Retail Premises 25% reduction. Undebau Credyd hyd at £9,000 Lleihad o 50% Gofal Plant hyd at £12,000 Lleihad o 50%
Angen i'r busnes gofrestru ar gyfer rhyddhad ardrethi?	O Ebrill 2010 ymlaen os yw'r busnes yn derbyn y Cynllun Bonws i Fusnesau Bach, <i>nid oes</i> angen ail-ymgeisio	O fis Ebrill 2010 ymlaen nid oes angen ail-ymgeisio am Ryddhad Ardrethi i Fusnesau Bach ar ddechrau pob cyfnod prisio.	Na 'mae'n cael ei gymhwyso'n awtomatig'	Na mae'n cael ei gymhwyso'n awtomatig (unwaith y mae'r busnes yn llofnodi'r datganiad cychwynnol)
Cymhwyso i fwy nag un eiddo busnes?	IE o 1.04.10 ymlaen, mae eiddo mewn cadwyni bychain gyda gwerth cronrus o £25,000 neu lai yn gymwys i dderbyn 25% am bob eiddo gyda Gwerth Ardrethol o lai na £18,000.	I gymhwyso, fel arfer caniateir ond un eiddo gyda Gwerth Ardrethol o hyd at £11,999 i bob busnes, ond caniateir eiddo arall gyda GA o hyd at £2,600 iddynt hefyd.	IE	IE Mae'r rhyddhad yn cael ei roi i'r eiddo ac nid i'r busnes. OND NID ar gyfer eiddo adwerthu lle mae'r lleihad o 25% ond yn gymwys i un eiddo.

3.2.1.5 Mae Gogledd Iwerddon newydd gyflwyno cynllun yn 2010. Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar yr un yng Nghymru ond mae'n gynllun symlach lle mae'r rhyddhad ardrethi sector-benodol yn cael ei dargedu'n bennaf at Swyddfeydd Post. Mae rhyddhad ar gael hyd at werth blynyddol net (NAV) o £5,000 i'r rhan fwyaf o fusnesau, ond hyd at £12,000 i swyddfeydd post. Mae'r rhyddhad yn cael ei gymhwyso'n awtomatig. Mae'r cynllun yng Nghymru, sef prif ffocws yr astudiaeth hon, yn seiliedig ar werth ardrethol a'r math o eiddo. Mae'r rhyddhad yn cael ei gymhwyso'n awtomatig. Byddwn yn trafod y cynllun yn fwy manwl yn yr adran nesaf.

3.2.2 Y cynllun rhyddhad ardrethi yng Nghymru

3.2.2.1 Penderfynodd Lywodraeth y Cynulliad gyflwyno'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach o ganlyniad i'w hymrwymiad yn y cytundeb Cymru'n Un i 'wella'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, o fewn cyd-destun darparu cymorth mwy effeithiol i fusnesau.'

3.2.2.2 I ddechrau, roedd y cynllun Rhyddhad Ardrethi yn ariannu 37,000 o fusnesau, a byddai adroddiadau'n awgrymu ei fod wedi ehangu i ariannu dros 45,000 o fusnesau (Labour Matters, 2009). Mae ehangu'r cynllun hwn yn ymhellach yn cael ei gydnabod gan Carl Sargeant, y Gweinidog dros Lywodraeth Leol (Morning Advertiser, 2009) i fod yn bwysig i'r sector busnesau bach a chanolig yng Nghymru.

'Rwyf wedi gwrandao ar bryderon Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) a Chynghrair Twristiaeth Cymru. Maen nhw wedi dweud wrthyf y byddent yn croesawu cynyddu'r trothwyon uchaf ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach.'

3.2.2.3 Mae'r cynllun presennol yn helpu pob math o fusnesau bach, ond yn cyfeirio'n benodol at fathau o weithgaredd sy'n chwarae rôl bwysig yn cynnal cymunedau lleol fel swyddfeydd post, gofal plant, undebau credyd, siopau bychain, gorsafoedd petrol a thai tafarn.

3.2.2.4 Gan efelychu symudiad Lloegr, dywedodd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol Carl Sargeant y byddai'r cynllun Rhyddhad Ardrethi newydd yng Nghymru yn golygu

'Ni fydd tua hanner y busnesau bach yng Nghymru yn talu unrhyw ardrethi busnes o'r 1 Hydref 2010 ymlaen, a bydd tua 20% yn fwy o fusnesau'n talu cryn dipyn yn llai o ardrethi.' (BBC, 2010)

3.2.2.5 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi symud i helpu perchnogion eiddo busnes gwag.

'Mewn ymateb i'r trafferthion economaidd presennol, mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi y bydd, o'r 1 Ebrill 2010 ymlaen am flwyddyn, y trothwy lle byddai eiddo gwag yn gorfod talu ardrethi busnes arno yn cael ei gynyddu o £2,200 i £18,000.' (Wales Gov, 2010)

3.3 Effaith y rhyddhad ardrethi

3.3.1 Trown ein sylw yn awr at brif bwrpas yr astudiaeth hon sy'n ceisio asesu effaith rhyddhad ardrethi ar fusnesau. Er bod llawer o astudiaethau diweddar yn y llenyddiaeth academiaidd ar faterion treth i fusnesau bach, mae llawer llai o ymchwil wedi'i wneud ar effaith treth eiddo annomestig. Ceir crynodebau a diweddariadau ar brisio eiddo (Hudson, 2005) ac erthyglau sy'n cyfeirio at rôl rhyddhad ardrethi fel rhan o gymysgedd o fesurau i helpu busnesau mewn Parthau Menter yn y DU (Potter & Moore, 2000) ac, yn fwy diweddar, mewn Ardaloedd Gwella Busnes (Cook, 2008).

3.3.2 Mae sylwadau cyffredinol hefyd wedi eu gwneud ar bwysigrwydd ardrethi busnes fel cost sefydlog nad oes gan fusnesau bach unrhyw reolaeth drosti (Laramie & Mair, 1993). Mae gan hyn oblygiadau pwysig i'r effaith allai rhyddhad ardrethi ei gael ar fusnesau bach. Fel cost sefydlog, gall ardrethi fod yn faich trwm mewn adeg o gyni economaidd lle mae llai o refeniw'n gallu cwtogi ar yr elw. Felly, gallai rhyddhad ardrethi gael eu gweld fel ymyriad sy'n

arbennig o berthnasol mewn sefyllfa lle mae maint yr elw'n dynn iawn i fusnesau.

3.3.3 Fodd bynnag, ychydig iawn o ymchwil sydd wedi'i wneud i werthuso effaith cynlluniau rhyddhad ardrethi, ac mae'r hyn sydd ar gael yn dyddio'n ôl i gyfnod cyn bodolaeth y cynlluniau presennol. Efallai y bydd y darganfyddiadau o'r astudiaethau hyn yn cynnig gwersi defnyddiol. Sylwodd Damania (1986) fod effaith ardrethi eiddo annomestig ar amrywiadau daearyddol mewn gweithgareddau busnes yn bur aneglur a'r dystiolaeth yn anghyson. Mae amrywiol ddadansoddiadau ystadegol o'r berthynas rhwng ardrethi busnes a pherfformiad cyflogaeth ar lefel ranbarthol, er enghraifft, yn rhoi canlyniadau anghyson sydd wedi arwain at drafodaeth ynghylch sut orau i fesur ac asesu'r effeithiau hyn.

3.3.4 Er yn llai boddhaol fel dull, mae'n bosibl casglu beth yw effeithiau posibl cynllun rhyddhad ardrethi drwy archwilio astudiaethau o ymyriadau treth penodol eraill. Er enghraifft, ceisiodd astudiaeth ddiweddar yn Chile asesu effaith cyfraddau treth gorfforaethol (cost uniongyrchol) ar y galw am gyfalaf a llafur. Yn ôl yr astudiaeth, ni chafodd torri'r cyfraddau treth fawr o effaith ar y galw am lafur mewn busnesau bach. Yn hytrach, roedd yn tueddu i leihau'r galw am gyfalaf (Rodrigo & Felipe, 2010). Mae Siambr Fasnach Prydain (2009) yn cydnabod yr effaith yma ar gyfalaf ond yn dadlau y dylid defnyddio'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach fel rhan o system sy'n annog mentergarwch drwy helpu llif arian busnesau.

3.3.5 Yn rhesymegol, gallwn hefyd ddadlau os yw cwmnïau yn trin ardrethi busnes fel gorben-gost, bod llai o ardrethi busnes yn annhebygol o arwain, er enghraifft, at gynnydd mewn cyflogaeth (h.y. cynnydd mewn costau cyflogau). Awgrymodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (1995) nad oedd ardrethi ddim mwy na 2% o'r trosiant ac nad oeddent yn orben-gost sylweddol. Hyd yn oed pe bai ardrethi'n cael eu gweld fel cost uniongyrchol ar drosiant, ni fyddai sicrwydd er hynny y byddai eu lleihau yn ysgogi cyflogaeth. Ar y llaw arall, mae tystiolaeth o barthau menter yn y DU fod cymhellion treth, ynghyd â mesurau eraill, yn gallu cyfrannu at ddenu mewnfuddsoddwyr a chynnydd

mewn cyflogaeth gyda chyfran uchel o swyddi lleol newydd (Potter & Moore, 2000).

3.3.6 O ran yr amrywiad tebygol yn effaith y rhyddhad ardrethi ar wahanol fathau o fusnes, ychydig iawn o dystiolaeth galed sydd ar gael i gefnogi damcaniaethu. Yn reddfodl, mae'n debygol iawn y byddai pwysigrwydd cymharol rhyddhad ardrethi yn amrywio rhwng gwahanol fathau a meintiau o fusnes (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 1995) a rhwng lleoliadau busnes. Efallai fod y cynnydd mewn gorbenion gan fusnesau bach yn y blynyddoedd diwethaf, gyda swyddfeydd post er enghraifft yn cyfeirio at gynnydd o 20% mewn costau gorbenion yn y tair blynedd hyd at 2006 (NFSP, 2009), wedi arwain at fwy o ffocws ar werth unrhyw ryddhad ardrethi sy'n helpu i ysgafnu'r baich hwn. Dimensiwn pwysig ar yr astudiaeth hon felly fydd asesu baich cymharol ardrethi annomestig ar wahanol fathau a meintiau o fusnes a gwerthuso'r effaith gymharol fydd y cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yn ei gael ar wahanol grwpiau.

3.3.7 Casgliad rhagarweiniol y llenyddiaeth y cyfeiriwn ati uchod yw mai ychydig iawn o ymchwil sydd wedi'i wneud cyn hyn i effaith rhyddhad ardrethi ar fusnesau a bod hyn, mae'n debyg, yn adlewyrchu'r gred nad yw rhyddhad ardrethi *ar ei ben ei hun* ond yn cyfrif am swm cymharol fach o arian i'r mwyafrif llethol o fusnesau. I ddangos y pwynt hwn, edrychodd Baldock (1998) ar gynlluniau cymorth i dir ac adeiladau busnesau bach a oedd yn cael eu gweithredu drwy raglen cymorth trefol yn Llundain yn yr 1980au. Casglodd yr astudiaeth, lle oedd lefel y cymorth ond yn cynrychioli swm bach iawn o arian i'r busnes, mai ymylol oedd ei effaith. Nid oedd symiau bach o gymorth ariannol yn ymddangos i fod wedi newid y patrymau perfformiad sector i'r busnesau bach dan sylw. Awgrymwyd y byddai targedu'r cymorth busnes yn fwy dethol yn gwneud defnydd gwell o'r cyllid. Casglodd yr astudiaeth hefyd fod dulliau cymorth unigol yn fwy effeithiol os dyfeisiwyd hwynt fel rhan o bolisi economaidd lleol mwy cydgysylltiedig ac integredig yn gyffredinol.

3.3.8 Fodd bynnag, mae eithriadau i'r cyffredinol hyn. Mae ymchwil yn 2004 i 30 o gwmnïau a oedd yn rhan o'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach

yn yr Alban yn awgrymu y byddai swm bach y rhyddhad yn cael rhywfaint o effaith weladwy ar fusnesau meicro a newydd. Yn eu casgliadau, roedd yr ymchwilyr yn argymhell bod ymchwil yn y dyfodol yn cynnwys nifer fwy o lawer o fusnesau (Llywodraeth yr Alban, 2004). Cefnogir yr ymchwil yn yr Alban gan dystiolaeth o astudiaeth achos gan Ffederasiwn Busnesau Bach yr Alban. Defnyddiwyd tair enghraifft i ddangos sut y mae'n bosibl mewn rhai amgylchiadau i'r rhyddhad ardrethi gyfrannu at sefydlu busnes newydd, fel bod busnes bach wedi gallu buddsoddi mewn cyfarpar newydd ac fel bod busnes meicro wedi gallu sefydlu yn 2009 i gyflogi ei aelod o staff cyntaf (Ffederasiwn y Busnesau Bach, 2009).

3.4 Tegwch a thargeddu Cynlluniau Rhyddhad Ardrethi

3.4.1 Ychydig iawn o ymchwil academiaidd sydd ychwaith ar agweddau eraill ar ryddhad ardrethi, fel tegwch cynlluniau, effeithiolrwydd y targedu a'r gost weinyddol sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau lle mae angen gwneud cais. Mewn cymhariaeth, mae cryn dipyn o sylwadau ar y materion hyn yn y llenyddiaeth *bolisi*. Sylwyd, er enghraifft, er y gallai rhyddhad ardrethi fod yn ateb ymarferol i helpu busnesau mewn adeiladau bach o safbwynt gweinyddol, nad yw'r math yma o gymorth bob amser yn cynnig atebion teg. Er enghraifft, nid yw pob busnes mewn adeilad bach yn fusnes bach a chanolig ac nid yw pob busnes bach yn meddiannu adeilad bach. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ceisio cynnig atebion i'r benbleth hon drwy gyfyngu'r rhyddhad i fusnesau gyda gwerth ardrethol *cronnus o £10,000 (Llywodraeth yr Alban, 2009) ac mae'r cynllun yn Lloegr yn cyfyngu rhyddhad ardrethi i fusnesau sy'n meddiannu nifer benodol o adeiladau (Cyswllt Busnes, 2010) gan felly eithrio busnesau mwy gyda chasgliad o adeiladau bach*. Mae Gwerth Ardrethol yn cynyddu'n ddramatig yn Llundain felly mae'r cynllun rhyddhad ardrethi yn Lloegr yn caniatáu dosbarthiad teg o'r rhyddhad gan gynyddu uchafswm y GA i bwrpas Rhyddhad Ardrethi i £25,499 o'i gymharu â £17,999 yng ngweddill Lloegr (Asiantaeth y Swyddfa Brisió, 2010).

3.4.2 Er yr ymdrechion hyn i fanwl gyweirio'r broses o dargedu rhyddhad ardrethi, mae rhai'n dal i feirniadu system rhyddhad ardrethi sydd, drwy

ddiffiniad, yn eithrio nifer o fusnesau bach sy'n cyflawni gweithgareddau economaidd sydd angen mwy o le arnynt, yn benodol mewn gweithgynhyrchu, trafnidiaeth a chyfanwerthu. Mae Mowlah (2006) er enghraifft yn nodi bod gwneuthurwyr dodrefn yn cael eu trin yn annheg am fod angen mwy o le arnynt oherwydd natur eu busnes.

3.4.3 Rhaid i lywodraeth sy'n codi trethi sicrhau ei bod yn cael ei gweld fel corff teg a chyfiawn. Mae Ffederasiwn y Busnesau Bach yn cydnabod pa mor bwysig yw mesurau gan Lywodraeth y Cynulliad drwy'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi a'r 'lluosydd' i ailddosbarthu'r baich ardrethi busnes o fusnesau bach a chanolig i fusnesau mwy yng Nghymru (Wales Online, 2009). Ond ar y llaw arall, rhaid hefyd ystyried effaith lluosydd uwch ar fusnesau mwy yng Nghymru (Western Mail, 2009).

3.4.4 Cyfiawnheir defnyddio rhyddhad ardrethi i helpu sectorau penodol fel swyddfeydd post oherwydd yr effaith gymdeithasol ac economaidd y mae'r sector yma'n ei gael ar ardaloedd lleol (Countryside Agency, 2000; New Economics Foundation, 2006, Ffederasiwn y Busnesau Bach, 2006 a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri, 2007). Gyda dim ond cyfran benodol o arian ar gael, bydd targedu unrhyw sector penodol yn anochel yn golygu y bydd angen tynnu sectorau eraill sy'n cael effaith gymdeithasol ac economaidd allan o'r cynlluniau rhyddhad ardrethi neu gynnig llai o ryddhad iddynt.

3.5 Rhwystrau i fynediad a chostau cudd y cynlluniau rhyddhad ardrethi

3.5.1 Rhaid cydnabod mai nid materion cost a llif arian yn unig sy'n gyfrifol am y baich trethi ar fusnesau bach; mae materion gweinyddol hefyd yn ffactor o ran mynediad at wybodaeth am y cynlluniau, casglu'r wybodaeth berthnasol a chydymffurfio gyda'r rheolau ar gymhwyso ar gyfer y cynlluniau. Gall cydymffurfio gyda rheoliadau treth fod yn faich trwm ar fusnesau bach (Chittenden, Krauser a Poutziouris, 2003; 2005). Yn ôl astudiaeth ddiweddar yng Nghymru a edrychodd ar dros 1,600 o fusnesau bach a chanolig, roedd y costau sefydlog sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â gofynion treth yn pwysu'n

llawer trymach ar ffigurau elw cwmnïau llai (Foreman-Peck , Makepeace a Morgan, 2006). Mae gan hyn oblygiadau nid yn unig i lefel y rhyddhad ardrethi a roddir i fusnesau ond hefyd i weithdrefnau gweinyddu'r rhyddhad hwnnw ac, yn enwedig, p'un ai y dylid ymgeisio am y rhyddhad neu ei roi'n awtomatig.

3.5.2 I wneud rhyddhad ardrethi'n hygyrch, caiff ei dalu o dan y cynllun yng Nghymru ac o dan yr un newydd yn GI heb fod angen i'r busnes ymgeisio amdano. O dan y cynlluniau yn Lloegr ac yn yr Alban, rhaid i fusnesau dal ymgeisio am y rhyddhad sy'n eu gwneud fymryn yn llai hygyrch ond sydd efallai'n golygu y gellir ymarfer mwy o reolaeth dros yr ochr weinyddol a'r targedu. Byddai ymchwil gan y Ffederasiwn y Busnesau Bach yn awgrymu bod y polisïau yn yr Alban a Lloegr yn ymddangos i fod yn golygu bod llai o fusnesau cymwys yn hawlio rhyddhad ardrethi, gyda dim ond 49% o fusnesau cymwys yn hawlio'r rhyddhad yn 2005 (Ffederasiwn y Busnesau Bach, 2008).

3.5.3 Mae'n ddiddorol nodi bod ymwybyddiaeth isel o fanylion y cynllun hefyd yn ymestyn i rai cyfrifwyr / cyngorwyr busnes (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2004).

Ymddengys bod y DCLG (yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol) yn Lloegr yn awr yn ystyried gwneud y cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yn un awtomatig (DCLG, 2010).

3.5.4 Mae cynlluniau rhyddhad ardrethi'n cael eu cyfathrebu i fusnesau drwy gyrff cyhoeddus fel Cyswllt Busnes ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Yn ôl arolwg o 4,000 o fusnesau gan Fforwm y Busnesau Preifat yn 2009, dylai rhyddhad ardrethi fod yn awtomatig oherwydd y rhwystr mwyaf i fusnesau bach o ran cael gafael ar y cymorth hwn yw diffyg ymwybyddiaeth o'r cynllun neu gredu bod y broses ymgeisio'n rhy gymhleth. Mae'r darganfyddiadau hyn yn gytûn ag astudiaethau eraill sydd wedi edrych yn fwy agored ar gostau cydymffurfio sy'n gysylltiedig â rheoliadau treth a rheoliadau busnes ehangach i fusnesau bach (Chittenden, Krauser a Poutziouris, 2005; Peck, Parry, Jackson a Jackson, 2009).

3.6 Cysylltiadau gyda thalu rhent: Pwy sy'n elwa?

3.6.1 Un broblem arall sy'n ymddangos i fod yn ddadleuol yn y llenyddiaeth bolisi yw'r posibilrwydd bod mantais y rhyddhad ardrethi i fusnesau'n tueddu i gael ei chanslo gan y rhenti uchel a godir ar eiddo masnachol perthnasol. Mae'r honiad hwn yn ymddangos i fod yn gredadwy, ond yn anodd i'w brofi na'i wrthbrofi. Yn wir, mae astudiaethau ymchwil sydd wedi ceisio cysylltu lefelau ardrethi i lefelau rhent, wedi dod i gasgliadau anghyson. Yn ôl Sibley (1989), roedd gwahaniaethau mewn ardrethi ar draws ardaloedd yn tueddu i wthio rhenti i lawr ac ni welodd Crosby a Keogh (1990) unrhyw berthynas rhwng codiadau ardrethi a rhenti, tra casglodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2004), fel rhan o arolwg ffôn o 1192 o fusnesau a oedd yn meddiannu un eiddo, fod tri o bob 10 landlord yn ystyried y rhyddhad ardrethi wrth gyfrifo'r rhent a bod tri o bob 10 ddim yn gwneud hynny. Yn ôl Eve (1993), roedd cysylltiad gwan rhwng cynyddu ardrethi a chodi llai o rent, ond nid yw'r canlyniadau hyn yn rhai cryf. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu darganfyddiadau Bond, Denny, Hall a McCluskey (1996) a awgrymodd fod faint o rent y gall landlordiaid ei godi ar fusnesau yn adlewyrchu nifer fawr o ffactorau gan gynnwys: ansawdd yr eiddo, ansawdd y lleoliad; pa mor hyblyg yw'r cyflenwad, ac amodau economaidd cenedlaethol. Awgrymodd Bond, Denny, Hall a McCluskey (1996) hefyd y gallai'r oedi rhwng cytundebau rhent a chyflwyno cynlluniau rhyddhad ardrethi olygu mai ychydig iawn o effaith sydd gan gynllun Rhyddhad Ardrethi ar lefelau rhent yn gyffredinol:

'Mae gan y canlyniadau hyn nifer o oblygiadau i ddyluniad y polisi. Oherwydd, yn y tymor byr, bod y rhan fwyaf o faich unrhyw newid i filiau ardrethi annomestig yn disgyn ar feddianwyr eiddo busnes, gallai cynllun dros dro o ryddhad pontio fod yn ddull targedu cymharol dda i ysgafnu'r baich ardrethi annomestig ar fusnesau. Fodd bynnag gan y byddai, yn y tymor hir, cyfran sylweddol o filiau ardrethi uwch yn cael eu pasio ymlaen gan feddianwyr eiddo masnachol i'w landlordiaid, byddai cynlluniau sy'n ceisio ysgafnu'r baich ardrethi annomestig dros gyfnod hirach efallai'n ddull targedu eithaf gwael o sianelu cymorth gan y llywodraeth i'r gymuned fusnes.

3.6.2 Nid yw yr un o'r astudiaethau uchod yn cynnig tystiolaeth glir ynghylch a ydyw rhyddhad ardrethi'n cael ei lyncu gan daliadau rhent. Fodd bynnag, mae'n glir bod yn rhaid hefyd ystyried rhent fel rhan o'r costau sefydlog sydd gan ddefnyddwyr eiddo. Yn ôl ymchwil gan Crosby, Hughes a Murdoch (2006), nid oedd nifer helaeth o fusnesau meicro yn cymryd unrhyw gyngor masnachol wrth negodi prydles hyd yn oed lle nad oedd ganddynt unrhyw brofiad blaenorol.

3.7 Pwyntiau crynodeb o adolygu'r llenyddiaeth

3.7.1 Mae'r prif bwyntiau i ddod allan o adolygu'r llenyddiaeth academiaidd a pholisi fel a ganlyn:

3.7.2 Ar ddulliau cymorth ariannol yn gyffredinol, daw'r astudiaethau i'r casgliad bod ymyriadau treth yn gallu bod yn effeithiol i helpu busnesau ar y cyfan ond mai'r ffordd orau o sicrhau'r effeithiau a ddymunir yw drwy eu hystyried o fewn y cyd-destun ehangach o ddarparu cymorth i fusnesau.

3.7.3 Gall gwahanol fathau o gymhelliad ariannol gynhyrchu gwahanol ymatebion gan fusnesau. Mae ysgafnu'r baich treth, mewn egwyddor, yn cael ei gydnabod i fod yn ganlyniad da ynddo'i hun. Fodd bynnag, un o gyfyngiadau ymyriadau treth ar eu pen eu hunain yw ei bod weithiau'n anodd cysylltu'r cynlluniau hyn i ganlyniadau penodol i'r busnes: maen nhw'n fwy 'goddefol' na 'chyfarwyddol'.

3.7.4 Mae llawer llai o ymchwil benodol i rôl ac effaith treth eiddo, a rhyddhad ardrethi yn enwedig. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth bolisi'n amlwg yn cyfiawnhau'r dull hwn fel ffordd o helpu busnesau bach i oroesi a thyfu. Yn y cyd-destun hwn, dengys yr ymchwil fod trethi eiddo lleol yn bwnc emosiynol i lawer o fusnesau bach a bod rhyddhad ardrethi efallai'n cael effaith ar seicoleg rheolwr-berchnogion sy'n ychwanegol at y budd ariannol ei hun.

3.7.5 Er mai ychydig iawn o astudiaethau sydd o effaith rhyddhad ardrethi, mae tystiolaeth ymchwil sy'n awgrymu bod ymyriadau treth eiddo'n gallu arwain at ganlyniadau negyddol anfwriadol. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau trothwyon sy'n gallu, ar yr un pryd, helpu rhai busnesau i oroesi tra bod eraill sy'n agos at y trothwy'n atal eu twf er mwyn aros yn y cynllun.

3.7.6 I osgoi'r mathau hyn o ganlyniadau anfwriadol, mae'r cynlluniau rhyddhad ardrethi ar draws y DU wedi esblygu mewn gwahanol ffyrdd. Yn benodol, mae amrywiadau yn y diffiniadau o drothwyon, bandiau a lefelau'r lleihad mewn ardrethi. Mae gwahaniaethau eraill yn cynnwys mesurau a ddyfeisiwyd i dargedu'r busnesau gwannaf yn well ynghyd â dulliau eraill o weinyddu (drwy wneud cais neu'n awtomatig). Mae'r llenyddiaeth bolisi'n cydnabod yn glir y benbleth sy'n codi wrth geisio gwella'r targedu, yn bennaf drwy arwain at fwy o gymhlethdod wrth ddylunio cynlluniau o'r fath.

3.7.7 O ran effaith rhyddhad ardrethi ar lefelau goroesi busnesau bach, mae ymchwil brin yn y DU yn awgrymu bod hyn ond yn swm cymharol fach i lawer o fusnesau a bod yr effeithiau ariannol mewn amgylchiadau economaidd ffyniannus yn tueddu i fod yn fach. Fodd bynnag, mae astudiaeth yn yr Alban yn awgrymu bod yna effeithiau clir ar fusnesau micro a busnesau newydd lle mae'r dreth eiddo'n cyfateb i gyfran uwch o'r costau cyfan. Gallwn felly ddamcaniaethu'n ffyddiog, yn yr hinsawdd economaidd bresennol, bod rhyddhad ardrethi'n bwysicach fyth i ddyfodol nifer fawr o fusnesau.

3.7.8. Yn y llenyddiaeth bolisi, mae yna gonsensws bod rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn arf ddefnyddiol sy'n gallu cynnig cymorth ariannol teg i fusnesau sy'n masnachu o adeiladau llai. Fodd bynnag, mae cryn drafod wedi bod ynghylch y drafferth y mae'r sector cyhoeddus yn ei gael i sicrhau bod system ryddhad sy'n seiliedig ar faint yr eiddo yn cyrraedd y busnes bach sydd fwyaf angen cymorth ariannol arno. Mae llawer yn cydnabod nad oes angen cymorth ar bob busnes mewn adeilad bach ac nad yw pob busnes bach mewn adeilad bach. Hefyd, rhaid i ddulliau fod yn eu lle i sicrhau nad yw'r rhyddhad ardrethi'n cael ei roi i fusnesau mawr sy'n meddiannu nifer o

adeiladau bach. Mae llawer yn cydnabod bod angen taro cydbwysedd rhwng targedu effeithiol a chymhlethdod yr ochr weinyddol.

3.7.9 Roedd yr adolygiad o'r llenyddiaeth hefyd yn tynnu sylw at y costau cudd sy'n gysylltiedig â gweithredu'r rhyddhad ardrethi. Nid oes llawer yn manteisio ar gynlluniau sy'n seiliedig ar broses ymgeisio yn rhannol oherwydd y rhwystrau a grëir gan y gost o gasglu'r wybodaeth berthnasol ac o lenwi ceisiadau. Ar y llaw arall, gall cynlluniau awtomatig brofi i fod yn 'anweladwy' i'r gynulleidfa darged a gallai ymwybyddiaeth o fanteision y cynllun fod yn isel.

3.7.10 Mae yna argraff bod rhai landlordiaid yn codi'r rhenti ar eiddo sy'n derbyn rhyddhad ardrethi. Byddai'r astudiaethau hyd yma'n awgrymu mai anfynych y mae hyn yn digwydd oherwydd mai pur anaml y mae adolygiadau rhent a phenderfyniadau ar ryddhad ardrethi'n digwydd ar yr un pryd a bod rhenti'n seiliedig ar nifer o ffactorau eraill ar wahân i ryddhad ardrethi.

3.7.11 Os yw'r cynllun rhyddhad ardrethi i barhau i lwyddo, rhaid iddo gadw'r cydbwysedd rhwng bod yn deg ar draws maint, sector ac ardal ddaearyddol; bod yn ymarferol i'w ddarparu gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo a rhaid i'w ddulliau a'i ddarpariaeth fod yn hygyrch i'r sector busnesau bach a chanolig.

4 Cyfweiliadau gyda Rhanddeiliaid

4.1 Y casgliad bras y daethpwyd iddo o adolygu'r llenyddiaeth yw mai'r ffordd fwyaf priodol o edrych ar ryddhad ardrethi fel dull yw fel rhan o gyd-destun manteision ariannol ehangach a mathau eraill o gymorth i fusnesau. Mae rhyddhad ardrethi'n cyfrannu at y cymysgedd cymorth hwn, ond ar ei ben ei hun nid yw ei effaith ar berfformiad busnesau unigol yn hawdd i'w fesur heblaw ar gyfer mathau neilltuol o fusnes lle mae maint yr elw'n dynn iawn a / neu lle mae'r ardrethi'n cyfateb i gyfran uwch o'r costau cyfan (fel yn achos busnesau meicro neu gyrff di-wneud-elw bach efallai). Yn yr adran hwn, ceisiwn brofi'r dadleuon hyn drwy edrych ar dystiolaeth o'r cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid sydd wrthi'n cyfrannu mewn amrywiol ffyrdd at gynrychioli neu ddarparu cymorth i fusnesau sy'n derbyn rhyddhad ardrethi.

4.2 Cynhaliwyd cyfweiliadau gydag ystod o randdeiliaid. Ymgynghorwyd gyda'r grŵp cyntaf o randdeiliaid yn benodol i drafod amrywiol faterion yn ymwneud â chynlluniau rhyddhad ardrethi sy'n weithredol yng Ngogledd Iwerddon, Lloegr a'r Alban. Cysylltwyd gyda'r adrannau llywodraeth perthnasol (Is-adran Polisi Ardrethi Gogledd Iwerddon, Cymunedau a Llywodraeth Leol (Lloegr) a Gweithrediaeth yr Alban) a hefyd gyda sefydliadau busnes penodol sy'n gweithredu yn yr ardaloedd hyn (Ffederasiwn Groseriaid yr Alban, Cymdeithas Masnach Adwerthu Gogledd Iwerddon a Chymdeithas y Siopau Hwylus). Canfasiwyd barn annibynnol y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw (IRRV) am weithrediad y cynlluniau hyn.

4.3 Ynghyd â'r ymgynghori hwn, trafodwyd y materion cyffredinol yng nghyswllt effaith rhyddhad ardrethi gydag ystod o randdeiliaid gan gynnwys y sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau busnesau'n gyffredinol (Siambr Fasnach Prydain, y CBI, Ffederasiwn y Busnesau Bach), cymdeithasau sector-benodol (Cymdeithas Lletygarwch Prydain, Cymdeithas Genedlaethol y Meistr Bobyddion, Cymdeithas Gwrw a Thafarndai Prydain), Cynghrair y Siopau Gwledig a rhanddeiliaid yng nghyd-destun penodol Cymru (Cynghrair Twristiaeth Cymru a chwmnïau cyfrifwyr yng Nghymru).

4.4 Cynhaliwyd yr 20 cyfweiliad gyda'r rhanddeiliaid dros y ffôn gan bara rhwng 20 munud a 2 awr a 10 munud. Yn dilyn cyfres o gwestiynau (gweler Atodiadau 1 a 3), roedd y cyfwelydd yn cynnig gwahanol atebion posibl a gytunwyd arnynt gydag aelodau o'r Grŵp Llywio yn Llywodraeth y Cynulliad. Roedd y cyfweleion wedi derbyn sicrwydd y byddai popeth yn gwbl gyfrinachol fel nad yw'r adroddiad hwn yn datgelu ffynhonnell benodol unrhyw beth a ddyfynnir.

4.1 Ymwybyddiaeth gyffredinol o'r gwahanol gynlluniau ar draws y DU

4.1.1 Roedd rhan gyntaf y cyfweiliadau'n canolbwyntio ar lefelau ymwybyddiaeth o'r pedwar Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach ar draws y DU. Nid yn annisgwyl, roedd y wybodaeth am a'r ddealltwriaeth o'r cynlluniau hyn yn amrywio'n sylweddol. Yn ddealladwy, roedd cyrff yn y sector cyhoeddus yn fwy ymwybodol o fanylion y cynlluniau hyn tra bo'r mwyafrif o'r grwpiau busnes yn ymwybodol neu gyda rhywun yn eu sefydliad a oedd yn ymwybodol o'r gwahanol systemau. Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw un o fewn y sefydliadau hyn wedi gwneud cymhariaeth uniongyrchol o'r pedwar cynllun.

4.1.2 Roedd y cwmnïau cyfrifwyr yng Nghymru yn ymwybodol o fodolaeth y cynlluniau rhyddhad ardrethi ond ddim yn ymwybodol iawn o'r manylion. Mae'n ymddangos nad yw trafod ardrethi a rhyddhad ardrethi gyda chwsmeriaid yn rhan amlwg o'u gwasanaeth cyngori. Gallai hyn yn rhannol adlewyrchu'r ffaith mai ond cyfran o'u cwsmeriaid fyddai'n derbyn rhyddhad ardrethi. Fodd bynnag, mae hefyd yn ymddangos i fod yn adlewyrchu un o ddarganfyddiadau'r adolygiad o'r llenyddiaeth sef bod ardrethi'n cael eu gweld fel un rhan o system lawer fwy o drethu a bod busnesau'n ddiymadferth i raddau helaeth i wneud dim i newid y taliadau hyn.

4.1.3 Roedd y berthynas rhwng ymyriadau rhyddhad ardrethi a mathau eraill o gymorth ariannol yn gwestiwn cyffredin a godwyd ym mhob cyfweiliad. Fel y dywedodd un cyfwelai, y brif broblem yw'r llwyth o wahanol gynlluniau a allai neu a allai ddim bod yn berthnasol. Felly hefyd, dywedodd un arall fod angen

symleiddio'r system rhyddhad i fusnesau yn gyffredinol, nid dim ond y Cynllun hwn ond y system gyfan. Mae'n ymddangos o'r cyfweiliadau bod y cymhlethdod hwn nid yn unig yn effeithio ar fusnesau bach a chanolig ond hefyd ar gwmnïau mawr sy'n gweld y biliau ardrethi'n ddyrys...mwya'n byd sydd ohonynt, mwya'n byd yw'r cymhlethdod.

4.2 Y prif wahaniaethau mewn gweithrediad

4.2.1 Yna gofynnwyd i'r rhanddeiliaid roi eu sylwadau ar amrywiol bwyntiau manylder y cynlluniau rhyddhad ardrethi, yn enwedig yr agweddau hynny sy'n wahanol rhwng Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried haeddiannau gofyn i fusnesau ymgeisio am y rhyddhad, pa mor effeithiol yw amrywiol fathau o dargedu a pha mor deg yw'r systemau presennol, gan gynnwys effaith lefelau trothwy ar wahanol fathau o fusnesau.

4.2.1 Effaith busnesau'n gorfod ymgeisio am ryddhad ardrethi

4.2.1.1 Roedd llawer o'r cyfweleion o blaid rhyddhad ardrethi 'awtomatig', yn enwedig rhai a oedd yn ymwybodol o'r costau gweinyddol. Roedd un o'r cyfrifwyr, er enghraifft, yn gryf o blaid rhyddhad ardrethi awtomatig ar y sail bod y costau gweinyddol yn gweithredu fel rhwystr.

'Yn fy mhrofiad i, nid yw perchnogion busnesau bach yn ffwdanu os oes raid iddynt lenwi gwaith papur ac ymgeisio.'

4.2.1.2 Dadl arall a ddefnyddiwyd o blaid system awtomatig oedd bod system drwy ymgeisio yn debygol o ddenu nifer isel oherwydd y diffyg ymwybyddiaeth ymhlith busnesau bach o bwy oedd yn gymwys i dderbyn y rhyddhad. Fel y dywedodd un cyfweilai 'mae'r ymwybyddiaeth yn wirioneddol isel...rydym wedi gorfod gweithio gyda'n haelodau i sicrhau bod y manteision yn cyrraedd y busnesau iawn.'

4.2.1.3 Fodd bynnag, roedd gan rai o'r cyfweleion wrth-ddadleuon. Roedd y rhain yn ymwneud â gweinyddu'r system hyn, a soniodd un yn enwedig am ddiffygion posibl y cynlluniau awtomatig. Roedd un o'r rhain yn ymwneud â'r

trafferthion sy'n gallu codi o geisio ail-hawlio gordaliadau oherwydd y bylchau a'r gwallau posibl ym manylion y busnesau sydd gan awdurdodau lleol. Mae angen gwybodaeth tra chywir ac amserol ar systemau awtomatig am bob busnes, sy'n gallu bod yn gostus i'w chynnal. Hefyd, yn ôl eraill, 'mae taliadau heb geisiadau yn gur pen sydd ar fin digwydd...bydd gan lywodraeth leol broblem os bydd taliad i fusnes bach a chanolig yn anghywir.

4.2.1.4 Fodd bynnag, mae'n rhy syml casglu bod yn well gan fusnesau systemau awtomatig tra bod y rhai sy'n gweinyddu systemau yn tueddu o blaid systemau ymgeisio. Mae systemau ymgeisio hefyd yn achosi costau gweinyddol i awdurdodau lleol. Yn ogystal, gellir dadlau bod systemau ymgeisio yn creu ymwybyddiaeth well o fanteision y cynllun. Roedd un o'r cyfweleion a oedd hefyd yn rhedeg busnes yn amlwg yn deall y budd ariannol o dderbyn rhyddhad ardrethi drwy'r broses o orfod ymgeisio. 'Roedd yn weddol syml, gofynnwyd inni ymgeisio...gwnaethom ymgeisio a chawsom [y rhyddhad].'

4.2.2 Rhyddhad wedi'i dargedu at sectorau penodol

4.2.2.1 Yr ail fater oedd pa mor effeithiol yw'r broses o dargedu'r rhyddhad ardrethi at fusnesau priodol. Roedd bron pob un o'r sefydliadau busnes yn gwbl gytûn y dylai'r cynlluniau geisio darparu'r rhyddhad ardrethi mwyaf i fathau arbennig o fusnes. Roedd hyd yn oed sefydliadau a oedd yn cynrychioli busnesau a oedd yn annhebygol o elwa o hyn yn derbyn yr egwyddor hon. Mae'r dyfyniadau canlynol yn dangos bod y cyfiawnhad dros dargedu'n berthnasol i sectorau penodol yn ogystal ag ardaloedd a chymunedau neilltuol.

'Nid oes gennyf unrhyw broblem gyda hyn, mae angen help ar sectorau penodol.'

'Y rheswm oedd yn bennaf er mwyn helpu 'gwasanaethau hanfodol' mewn ardaloedd ymylol lle mae llai o elw'n bygwth eu cynaliadwyedd.'

‘Ie, yn enwedig tafarndai a gorsafoedd petrol – i gadw gwasanaethau yn yr ardal....gwasanaethau busnes hanfodol yn yr ardal.’

4.2.2.2 Mae'r dyfyniadau hyn a sylwadau eraill yn ymddangos i fod yn awgrymu bod yna gefnogaeth yn fras i roi'r rhyddhad mwyaf i'r mathau o fusnes sy'n cael eu targedu gan y rhan fwyaf o gynlluniau (fel busnesau gwledig, siopau bach a gwasanaethau hanfodol mewn ardaloedd ymylol).

4.2.2.3 Roedd y cyfweleion yn cydnabod bod rhyddhad ardrethi'n helpu sectorau marchnad penodol a oedd wedi eu taro galetaf gan y dirwasgiad a dal yn ceisio darparu gwasanaethau cymunedol o'r stryd fawr neu ardal wledig, yn benodol tafarndai llai a siopau gwledig llai.

‘Mae wedi golygu'r gwahaniaeth rhwng cau ac aros ar agor i rai siopau bach.’

4.2.2.4 Roedd hyn hefyd yn wir am fudiadau di-wneud-elw. Nodwyd fod rhyddhad ardrethi'n bwysig i'r mathau hyn o fusnes oherwydd ei bod yn gwneud synnwyr economaidd iddynt leoli mewn ardal fwy canolog sy'n denu mwy o bobl i alw heibio. Awgrymwyd hefyd y gallai gwneud i ffwrdd â'r rhyddhad ardrethi i'r busnesau hyn arwain at ansefydlogi'r ardal a lleihau eu heffaith lesol ar y gymuned leol.

4.2.2.5 Er bod yna gefnogaeth yn gyffredinol i'r egwyddor o dargedu rhyddhad ardrethi, gwnaed rhai sylwadau ynghylch pa mor effeithiol oedd y cynlluniau presennol o ran cyrraedd y busnesau iawn. Fel y dywedodd un o'r cyfweleion:

‘mae yna ddiffyg gwybodaeth...am bwy sy'n ei dderbyn, i ble y mae'n mynd...telerau derbyn y rhyddhad...nid yw Awdurdodau Lleol wedi bod yn gwneud hyn (cynnig y ffigurau derbyn) ers tro byd...ni allwn ddod o hyd i ystadegau ar ganran y nifer sy'n derbyn y rhyddhad gan y llywodraeth felly ni w•r neb beth yw realiti'r sefyllfa.’

4.2.2.6 Dywedodd un arall fod newidiadau mewn gwerthoedd eiddo dros amser yn gallu ystumio'r targedu.

'Mewn ardaloedd o ddirywiad economaidd, mae rhai busnesau'n gwneud yn dda OND wrth i economi'r ardal ddirywio, mae'r Gwerth Ardrethol yn mynd i lawr a gallent dderbyn rhyddhad ardrethi oherwydd ei fod yn seiliedig ar werth yr eiddo. Felly, mae'n mynd i ardaloedd, ac nid busnesau, llai llwyddiannus.'

4.3 Yr argraff sydd gan fusnesau o fudd Cynlluniau Rhyddhad Ardrethi

4.3.1 Roedd y cyfweiliadau'n ddefnyddiol er mwyn holi ynghylch y manteision y gallai busnesau eu hennill yn benodol o dderbyn rhyddhad ardrethi. Nid oedd yn syndod clywed bod yr holl randdeiliaid a oedd yn cynrychioli busnesau a oedd yn derbyn rhyddhad ardrethi yn meddwl ei fod yn bwysig i'w busnesau. I gyfiawnhau'r farn yma, tynnodd lawer o'r cyfweleion sylw at yr hinsawdd economaidd bresennol a'r pwysau cystadleuol ar fusnesau bach yn enwedig. Y ddadl oedd bod 'Ardrethi busnes yn broblem fawr' i gwmnïau bach ac 'mae angen gymaint o help â phosibl ar fusnesau bach yn y byd hwn o gystadlu byd-eang...'

4.3.2 Roedd yr holl randdeiliaid a holwyd (gan gynnwys y rhai a oedd yn cynrychioli busnesau mawr a bach) yn cydnabod bod ardrethi'n rhan o'r costau eiddo sy'n gost sylweddol i bob busnes. Yn y dirywiad economaidd presennol, roeddent yn cydnabod bod cadw costau i lawr drwy'r rhyddhad ardrethi yn helpu rhai busnesau meicro / bach i gadw'r blaidd o'r drws:

'drwy helpu gyda maint yr elw, bydd y lleihad mewn costau'n helpu busnesau nad ydynt yn gwbl fasnachol hyfyw...ond nid yw fel arfer yn fater o lwyddo neu fethu.'

4.3.3 Lleisiodd un cyfwelai farn y gallai hyd yn oed mân newidiadau i'r bil ardrethi busnes effeithio ar fusnes:

'pe baech yn ychwanegu £20 at y bil ardrethi ar draws y wlad, bydd ychydig yn fwy o fusnesau'n diflannu.'

4.4 Effaith rhyddhad ardrethi busnes ar fusnesau.

4.4.1 Yna gofynnwyd i'r cyfweleion wneud sylwadau ar eu hargraffiadau o effaith gyffredinol rhyddhad ardrethi ar y gymuned fusnes. Credai'r rhan fwyaf mai busnesau meicro a busnesau newydd sefydlu yw'r rhai sy'n elwa'n ariannol fwyaf o'r rhyddhad ardrethi, lle mae'r trosiant yn gymharol isel a chostau eiddo'n gyfran gymharol uchel o'r costau cyfan. Fel y dywedodd un, 'mae'n faich sy'n cael ei godi.'

4.4.2 Ychwanegodd rai o'r cyfweleion y dylai derbyn rhyddhad ardrethi olygu bod busnesau fymryn yn fwy yn gallu rhyddhad adnoddau at ddibenion eraill, fel buddsoddi mewn gwella eiddo neu gyflogi staff. Gallai eraill fuddsoddi mewn ffyrdd sy'n gwella ansawdd bywyd. Er enghraifft, awgrymodd un cyfwelai:

'i weithredwr busnes bach yn gweithio dros 60 awr yr wythnos, mantais lleihad cymharol fach mewn costau yw'r cyfle i dalu rhywun fel y medrant gymryd gwyliau.'

4.4.3 Gellid efallai dadlau y byddai rhai gweithredwyr yn neilltuo'r lleihad mewn costau a defnyddio'r rhyddhad ardrethi i wneud defnydd penodol o adnoddau (e.e. talu am staff rhan amser). Fodd bynnag, mae angen edrych yn feirniadol ar y ddadl hon oherwydd mae'n tybio bod gan y gweithredwr ymwybyddiaeth uchel o fanteision y rhyddhad. Mewn amgylchiadau lle byddai hyn yn bod, fodd bynnag, mae'n deg dweud y gallai effaith seicolegol dileu'r cymorth hwn fod yn bwysicach i rai rheolwyr-berchnogion na'r effaith ariannol.

4.5 Effaith rhyddhad ardrethi ar yr economi leol

4.5.1 Roedd cytundeb yn gyffredinol bod y cynlluniau rhyddhad ardrethi a weithredir ar hyn o bryd, mae'n debyg, wedi helpu rhai mathau o fusnesau i oroesi'r wasgfa economaidd a bod hyn yn fwy tebygol o fod wedi lleihau

lluosyddion economaidd negyddol mewn rhai ardaloedd difreintiedig. Roedd helpu busnesau bach drwy'r rhyddhad ardrethi'n cael ei weld fel dull pwysig o amddiffyn busnesau lleol gydag elw bach sy'n 'gwario eu harian yn yr ardal leol, yn wahanol i'r cwmnïau cadwyn mawr....nid oes gan fusnesau bach unrhyw gyfranddalwyr allanol.'

4.5.2 Mae'r safbwyntiau hyn yn bwysig o ran bod y dadleuon yn ymwneud gymaint ag effeithiau cymdeithasol ag effeithiau economaidd. Roedd un cyfwelai'n dadlau, er enghraifft, bod y rhyddhad ardrethi a dargedir at fusnesau penodol yn 'helpu i greu economi gryfach a *mwyr cydlynus*.' (Pwyslais wedi'i ychwanegu). Mae hyn yn awgrymu eu bod yn cydnabod rôl rhyddhad ardrethi gyda chynhyrchu canlyniadau dymunol i gymunedau. Eto, dywedodd gyfwelai arall fod 'yr economi leol wedi'i nodweddu'n drwm gan fusnesau bach a chanolig – os yw'r rhain yn methu bydd effaith ar ardaloedd gwledig.'

4.5.3 Fel y mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi cydnabod, gall targedu sectorau penodol helpu i ddiogelu gwasanaethau cymunedol hollbwysig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol difreintiedig. Mae Gogledd Iwerddon wedi sylweddoli hyn ac yn cefnogi Swyddfeydd Post yn benodol drwy'r cynllun rhyddhad ardrethi newydd. Mae'r rhanddeiliaid wedi awgrymu bod targedu rhyddhad ardrethi yn cael effaith ar hyfywedd lleoliad y busnes ac y gallai fod yn arf ddefnyddiol i gynnal hyfywedd a chynaliadwyedd masnachol cymunedau.

4.6 Argraffiadau o degwch y Cynlluniau Rhyddhad Ardrethi

4.6.1 Roedd y thema olaf yn y cyfweiliad yn ymwneud â materion tegwch a'r cyfiawnhad cyffredinol dros ddyfarnu mwy o ryddhad ardrethi i rai mathau o fusnes. Awgrymodd sefydliadau gydag aelodaeth eang fod busnesau mawr, ar y cyfan, yn cydnabod bod angen cefnogi cwmnïau bach a'u bod yn meddwl bod cyfiawnhad dros y math yma o dargedu polisi o blaid busnesau llai.

‘Mae'r effaith ar fusnesau mawr mor fach fel nad yw'n effeithio arnynt lawer o gwbl.’

‘Nid oedd y neges gan fusnesau mwy yn awgrymu ei fod yn annheg, nid ydynt wedi cwyno yn ei gylch.’

4.6.2 Ar y cyfan, roedd y rhanddeiliaid hynny a oedd yn cynrychioli busnesau llai yn meddwl bod rhyddhad ardrethi yn gymorth effeithiol gyda chyfiawnhad drosto. Fodd bynnag, roedd rhai'n cydnabod, oherwydd cyfyngiadau'r dreth ar eiddo, bod lefelau trothwy'n gallu creu annhegwch i rai mathau o fusnes.

4.6.3 Ar y cyfan, roeddent yn derbyn bod y trothwyon ardrethi presennol yn dderbyniol. Fodd bynnag, dywedodd y cyfweleion a oedd yn cynrychioli busnesau bach y gallai cynnydd yn y gwerthoedd ardrethol o ganlyniad i wella eiddo godi rhai busnesau dros y trothwyon a fyddai felly'n cymell pobl i beidio â buddsoddi mewn eiddo yn y dyfodol. Byddai hyn yn awgrymu nad yw rhai busnesau sy'n cael eu rhedeg yn dda ac sydd wedi buddsoddi mewn twf yn y blynyddoedd diwethaf yn cael eu cefnogi gan ryddhad ardrethi ar adeg o wasgfa fasnachol.

4.6.4 Roedd sefydliadau a oedd yn cynrychioli'r busnesau bach yn dadlau o blaid cynyddu'r trothwyon fel y gallai mwy o'u haelodau elwa o'r rhyddhad. Roedd eu cyfiawnhad yn ymwneud â'r ffaith bod busnesau llai 'yn talu ardrethi llawer uwch fel cyfran o'r trosiant o'i gymharu â busnesau mawr...sy'n arbennig o wir am fusnesau sydd newydd sefydlu.' Dywedodd un rhanddeiliaid hefyd, yn y dirywiad economaidd presennol, fod rhai busnesau bach sy'n masnachu o adeiladau mwy yn cael eu trin yn annheg. Roedd hyn yn effeithio ar fusnesau lle mae'r incwm wedi gostwng ond yr ardrethi'n dal i gael eu talu ar ofod nad yw'n gynhyrchol ar hyn o bryd.

4.7 Cymharu'r cynllun Cymreig â chynlluniau eraill yn y DU

4.7.1 Gofynnwyd i'r cyfweleion a allent gymharu'r gwahanol gynlluniau. Roedd sefydliadau a oedd yn cynrychioli busnesau ar draws y DU gyfan yn

cadarnhau bod gwneud cymhariaeth o'r fath yn gymhleth (fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn). Soniwyd, er enghraifft, ei bod yn anodd gwneud cymhariaeth uniongyrchol o'r manteision i wahanol fathau o fusnesau sy'n gweithredu mewn gwahanol ardaloedd, oherwydd yr amrywiadau gofodol mewn gwerthoedd eiddo:

'Mae'r gwerthoedd ardrethol yng Nghymru i eiddo tebyg yn is nag yn Lloegr, sy'n golygu bod gwneud cymhariaeth uniongyrchol o fantais y gost yn anodd.'

4.7.2 Roedd y cyfweleion hefyd yn cydnabod bod yna amrywiadau yn y ffordd y cyfunir rhyddhad ardrethi gyda mathau eraill o drethi busnes. Er enghraifft,

'mae'r cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yng Nghymru yn cyfuno'r cynllun hwnnw gyda'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Gwledig, tra bo'r ddau gynllun yn dal i fod mewn bodolaeth yn Lloegr.'

4.7.3 Nodwyd hefyd fod y dulliau o gyfrifo'r ardrethi yn amrywio:

'Mae'r cynlluniau rhyddhad yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn seiliedig ar Werth Ardrethol yr eiddo *[sy'n cael eu hadolygu pob 5 mlynedd]* tra bo'r ardrethi yng Ngogledd Iwerddon yn seiliedig ar Werth Blynnyddol Net (NAV) *[asesiad blynnyddol]*'.

.a bod yr amrywiadau mewn targedu'n cymhlethu unrhyw gymhariaeth ymhellach:

'Mae'r amrywiol gynlluniau wedi targedu gwahanol sectorau i dderbyn cymorth ychwanegol gan ddibynnu ar anghenion y cynlluniau pan gawsant eu cyflwyno.'

4.7.4 Er y trafferthion hyn, roedd rhanddeiliaid ar y cyfan yn gadarnhaol ynghylch nodweddion presennol y cynllun yng Nghymru. Roedd yna gefnogaeth gyffredinol i hawlio'n awtomatig yn hytrach na thrwy system

ymgeisio, i drothwyon uwch na'r cyfartalog ac i symleiddio'r system drwy ei chyfuno gyda'r Rhyddhad Ardrethi Gwledig.

4.7.5 Roedd y sylwadau negyddol yn tueddu i fod ar faterion a oedd yn effeithio ar y cynlluniau i gyd, nid dim ond yr un yng Nghymru. Roedd y cyfweleion yn arbennig o awyddus i nodi bod problemau'n cael eu creu nid gan y cynlluniau rhyddhad ardrethi eu hunain ond gan hynodion y dulliau prisio:

'Y system brisio ar gyfer ardrethi sy'n achosi'r broblem.'

'Ansicrwydd ynghylch beth fydd yr ardrethi o un flwyddyn i'r llall.'

4.7.6 Er bod y rhanddeiliaid, ar y cyfan, o blaid rhyddhad awtomatig, roedd amryw'n meddwl nad oedd y cymorth a roddwyd i rai mathau o fusnesau yn ddigon gweladwy. Roedd yna deimlad nad oedd 'y neges [*am y cynllun rhyddhad ardrethi*] wedi cael ei rhoi drosodd i fusnesau.' Awgrymwyd bod 'angen i'r wybodaeth am faint sy'n manteisio ar y cynllun fod ar gael i'r cyhoedd.'

4.7.7 Ar wahân i'r pwyntiau penodol hyn ynghylch rhyddhad ardrethi, roedd y cyfweleion hefyd yn bendant bod angen symleiddio ymhellach y rhyddhad cyffredinol a roddir i fusnesau, nid dim ond ardrethi.

4.8 Crynodeb o'r cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid

4.8.1 Y casgliad cyffredinol y daethpwyd iddo o'r cyfweiliadau hyn gyda'r rhanddeiliaid oedd, er bod y cynlluniau'n gymhleth ac amrywiol, bod yna gonsensws barn bod rhyddhad ardrethi yn elfen bwysig o'r cymysgedd cyffredinol o gymorth ariannol a roddir i rai mathau o fusnes. Mae yna hefyd gefnogaeth yn gyffredinol i nodweddion y cynllun presennol yng Nghymru, gan gynnwys yr hawlio awtomatig ac ymdrechion i dargedu'r rhyddhad at fusnesau a chymunedau llai grymus. Mae'r rhain yn cynnwys busnesau gwledig, cwmnïau adwerthu bach annibynnol a gwasanaethau hanfodol mewn ardaloedd ymylol.

4.8.2 Yng nghyd-destun y dirywiad economaidd presennol, roedd y cyfweleion yn awyddus i bwysleisio y gallai rhyddhad ardrethi fod yn eithaf pwysig o ran ei gyfraniad at sicrhau dyfodol busnesau meicro lle mae maint yr elw'n hynod dynn. Gall hefyd wneud gwahaniaeth anghymesur i fusnesau sydd newydd sefydlu.

4.8.3 Roedd y rhanddeiliaid hefyd yn bur ymwybodol o bwysigrwydd rhyddhad ardrethi fel ffordd o gefnogi busnesau ymylol neu, efallai'n fwy cywir, busnesau wedi eu lleoli mewn ardaloedd ymylol sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig. Nodwyd hefyd fod rhyddhad ardrethi fel ffordd o ddangos cefnogaeth wleidyddol i fusnesau bach mewn cymunedau arbennig yn bwysig.

4.8.4 Fel gyda phob system dreth a chymorth, fodd bynnag, roedd y rhanddeiliaid yn cydnabod bod dyluniad cynllun rhyddhad ardrethi'n gallu cael canlyniadau anfwriadol. Roedd rhai'n cydnabod, oherwydd cyfyngiadau'r dreth ar eiddo, bod lefelau trothwy'n gallu creu annhegwch i rai mathau o fusnes. Roedd rhai'n credu bod busnesau sydd angen mwy o le arnynt ac sy'n cael trafferthion yn yr hinsawdd economaidd bresennol yn cael eu heithrio'n annheg o ryddhad ardrethi.

4.8.5 Er bod y rhanddeiliaid ar y cyfan o blaid cymhwyso'n awtomatig, pwysleisiwyd bod angen gwneud mwy i ledaenu'r wybodaeth am fanteision cynlluniau rhyddhad ardrethi a gwneud y rhai sy'n derbyn y rhyddhad yn fwy ymwybodol o'r manteision.

5 Arolwg Post o Fusnesau

5.1 Mae'r wybodaeth uchod o adolygu'r llenyddiaeth ac o'r cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid yn codi pwyntiau trafod diddorol a phwysig ynghylch pwrpas a dyluniad cynlluniau rhyddhad ardrethi ynghyd â'u targedau a'u canlyniadau bwriedig ar gyfer busnesau a chymunedau. Bydd y dystiolaeth fwyaf hanfodol, fodd bynnag, yn dod o arolwg holiadur o fusnesau sy'n derbyn rhyddhad ardrethi ym mhob un o'r ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r adran yma'n amlinellu dyluniad yr arolwg a'i ddadansoddiad.

5.2 Fel inni sôn yn gynharach yn yr adroddiad hwn, y pwrpas yw cynhyrchu sampl gwota ar gyfer Cymru sy'n adlewyrchu'n fras y gyfran o fusnesau sy'n derbyn rhyddhad ardrethi ym mhob ardal awdurdod lleol a'r math o fusnes (fel a adlewyrchir yn y codau math o eiddo). I gyflawni hyn, i ddechrau derbyniodd CRED ddata ar fusnesau sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethi mewn 15 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru. I gyd, casglwyd bron i 29,000 o arsylwadau gan y 15 ardal Awdurdod Lleol gychwynnol (gweler Tabl 2).

Tabl 2: Dadansoddiad o'r data a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Awdurdodau Lleol	Cyfrif	Y cant
Merthyr Tudful	200	0.7
Blaenau Gwent	894	3.1
Torfaen	971	3.3
Sir Fynwy	1,211	4.2
Rhondda Cynon Taf	1,322	4.6
Bro Morgannwg	1,384	4.8
Casnewydd	1,376	4.7
Ynys Môn	1,417	4.9
Castell Nedd Port Talbot	1,627	5.6
Caerffili	1,899	6.5
Sir y Fflint	1,921	6.6
Conwy	2,308	8.0
Caerdydd	2,687	9.3
Powys	2,952	10.2
Sir Gâr	3,296	11.4
Gwynedd	3,533	12.2
	28,998	100.0

5.3 Tynnwyd sampl o 2,400 o arsylwadau (gweler Tabl 3) o'r cyfanswm (tua 8.25% o 28,998).

Tabl 3: Sampl gychwynnol o arsylwadau gan 15 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Awdurdodau Lleol	Cyfrif	Y cant	Data i'w dynnu allan	Arsylwadau a gollwyd	Data a ddewiswyd
Merthyr Tudful	200	0.7	17	2	15
Blaenau Gwent	894	3.1	74	1	73
Torfaen	971	3.3	80	2	78
Sir Fynwy	1,211	4.2	100	2	98
Rhondda Cynon Taf	1,322	4.6	109	0	109
Bro Morgannwg	1,384	4.8	115	2	113
Casnewydd	1,376	4.7	114	1	113
Ynys Môn	1,417	4.9	117	1	116
Castell Nedd Port Talbot	1,627	5.6	135	4	131
Caerffili	1,899	6.5	157	1	156
Sir y Fflint	1,921	6.6	159	1	158
Conwy	2,308	8.0	191	2	189
Caerdydd	2,687	9.3	222	1	221
Powys	2,952	10.2	244	0	244
Sir Gâr	3,296	11.4	273	0	273
Gwynedd	3,533	12.2	292	1	291
	28,998	100.0	2,400	21	2,379

Dyfeisiwyd y sampl i fod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth gyfan a astudiwyd drwy ddefnyddio'r dulliau canlynol. Aethom ati i ddethol drwy ddilyn dau brif faen prawf ar gyfer dethol:

- Pwysoli'r sampl yng nghyswllt Awdurdodau Lleol: Mae nifer yr arsylwadau a dynnwyd allan o bob set ddata awdurdod lleol yn gymesur â nifer y cyfeiriadau yn yr ardal honno o'i gymharu â'r cyfanswm ar gyfer Cymru. (Er enghraifft roedd gan Ferthyr Tudful 200 o gyfeiriadau sy'n 0.7 y cant o gyfanswm y cyfeiriadau yn y 15 Awdurdod Lleol cychwynnol, felly mewn sampl o 2,400, byddai'r arolwg yn targedu 0.7 y cant o 2,400 o fusnesau ym Merthyr Tudful, sef 17).
- Pwysoli'r sampl o fewn pob awdurdod lleol yng nghyswllt sectorau gweithgaredd: Mae'r data a dynnwyd allan o bob rhestr awdurdod lleol yn adlewyrchu'r dosbarthiad ar draws sectorau o fewn y set ddata

honno. Cyflawnwyd hyn drwy ddewis hapsampl o fewn pob cod sector hyd nes y cyrhaeddwyd nifer y cwota.

5.4 Cafodd y ddau faen prawf hwn eu cymhwyso er mwyn cael lefel optimaidd o gynrychiolaeth ar gyfer y set ddata sampl.

5.5 Roedd y maen prawf cyntaf yn gymharol hawdd i'w gymhwyso, oherwydd rhoddwyd nifer yr arsylwadau i'w tynnu allan o bob set ddata drwy luosi 2,400* o gyfrannau data Awdurdodau Lleol yn y boblogaeth gyfan (gweler Tabl 2). Oherwydd effeithiau cyfannu, cynhyrchodd hyn sampl gychwynnol o 2,379 o arsylwadau a oedd yn bodloni'r meini prawf uchod.

5.6 Cafodd y data ar gyfer y saith Awdurdod Lleol a oedd yn weddill ei dderbyn wedyn a, thrwy gymhwyso'r un dulliau, cynhyrchwyd sampl fwy o 3,151 o gyfeiriadau (h.y. 772 o gyfeiriadau pellach) (gweler Tabl 4).

5.7 Ar ôl penderfynu'r nifer targed o gyfeiriadau ym mhob awdurdod lleol, cymhwyswyd yr ail faen prawf i setiau data pob awdurdod lleol yn eu tro. Dewiswyd y cyfeiriadau ar hap o fewn pob cod gweithgaredd hyd nes y cyrhaeddwyd y nifer targed.

Tabl 4: Sampl o arsylwadau gan 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Awdurdodau Lleol	Cyfrif	Y cant	Data i'w gasglu	Arsylwadau a gollwyd	Data a ddewiswyd
Merthyr Tudful	200	0.52	17	2	15
Wrecsam	200	0.52	17	0	17
Sir Ddinbych	200	0.52	17	0	17
Blaenau Gwent	894	2.33	74	1	73
Torfaen	971	2.53	80	2	78
Sir Fynwy	1,211	3.15	100	2	98
Rhondda Cynon Taf	1,322	3.44	109	0	109
Casnewydd	1,376	3.58	114	2	113
Bro Morgannwg	1,384	3.60	115	1	113
Ynys Môn	1,417	3.69	117	1	116
Pen-y-bont ar Ogwr	1,521	3.96	126	2	124
Ceredigion	1,602	4.17	133	5	128
Castell Nedd Port Talbot	1,627	4.23	135	4	131
Caerffili	1,899	4.94	157	1	156
Sir y Fflint	1,921	5.00	159	1	158
Conwy	2,308	6.00	191	2	189
Abertawe	2,419	6.29	200	2	198
Caerdydd	2,687	6.99	222	1	221
Powys	2,952	7.68	244	0	244
Sir Gâr	3,296	8.57	273	0	273
Sir Benfro	3,503	9.11	290	1	289
Gwynedd	3,533	9.19	292	1	291
Cyfanswm	38,443	100	3,182	31	3,151

5.8 I sicrhau canlyniadau amserol i'r ymchwil, anfonwyd holiaduron allan i'r 2,379 cyfeiriad cyntaf cyn derbyn ymateb gan bob awdurdod lleol. Anfonwyd 772 arall allan wedyn. I sicrhau bod y canlyniadau'n cynrychioli detholiad cynrychioliadol o fusnesau bach a chanolig yn ôl sector a lleoliad, postwyd swp arall o 398 o holiaduron at ddetholiad o fusnesau nad oedd wedi ymateb i'r ddau holiadur cyntaf.

5.9 Roedd yr ymateb i'r arolwg yn gadarnhaol iawn. Ar adeg y dadansoddiad terfynol (19 Gorffennaf), roeddem wedi derbyn 403 o ymatebion, 391 ohonynt yn rhoi ymatebion data hollol ddefnyddiol. Mae hyn yn cyfateb i 12 y cant o'r holiaduron a bostiwyd allan, sef cyfradd ymateb nodweddiadol ar gyfer arolwg busnes o'r math yma (gweler, er enghraifft, Arolwg o Fusnesau yn Llundain gan y CBI a wnaed gan KPMG, gyda chyfradd ymateb o 12% (CBI 2008)). Mae'n bosibl cyfrifo pa mor ddibynadwy yw amcangyfrifon sy'n seiliedig ar 391 o ymatebion. Mae'r rhan fwyaf o'r astudiaeth hon yn cynnwys data categorïol lle dadansoddir yr ymatebion fel cyfrannau (er enghraifft, canran yr ymatebwyr sy'n cytuno yn hytrach na'n anghytuno gyda datganiad). Gan dybio ymateb penodol (e.e. 70 y cant yn cytuno a 30 y cant yn anghytuno), gellir cyfrifo'r gwall safonol drwy ddefnyddio'r dull confensiynol canlynol lle mae $p=70$, $q=30$ a $n=391$:

$$SE = \sqrt{(p\% \cdot q\% / n)} = 2.32$$

Mae'r cyfyngiad hyder o 95 y cant, felly, yn cael ei gyfrifo fel $2.32 \text{ (Gwall Safonol)} \cdot 1.96 \text{ (cyfyngiad hyder o 95 y cant)} = 4.54$. Mae hyn yn awgrymu y gallwn fod yn weddol sicr (ar lefel o 95 y cant) lle mae 70 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno gyda datganiad penodol, bod y ffigur yn y boblogaeth yn gyffredinol yn debygol iawn i fod rhywle rhwng 70 ± 4.5 (h.y. rhywle rhwng 65.5-74.5 y cant).

5.10 Gallwn hefyd ddadansoddi'r data i brofi am duedd bosibl ym mhatrymau daearyddol yr ymatebion. Dengys Tabl 5 batrwm yr ymatebion ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru. Anfonwyd yr holiaduron at 3,151 o gyfeiriadau a oedd yn adlewyrchu'r dosbarthiad busnesau ar draws y gwahanol ardaloedd hyn (colofn 3). Dengys colofn 4 faint o ymatebion a dderbyniwyd gan bob ardal Awdurdod Lleol. Gellir cymharu'r nifer yma gyda nifer targed damcaniaethol o ymatebion wedi'i gyfrifo drwy ddosbarthu'r cyfanswm (391) ar draws pob ardal Awdurdod Lleol fel cyfran o'r rhai a bostiwyd allan. Felly, er enghraifft, y nifer gwirioneddol o ymatebion gan Gaerdydd oedd 28. Pe byddai'r gyfradd ymateb gyffredinol (12.4 y cant) ar gyfer Caerdydd gennym, byddem wedi disgwyl derbyn 27 o ymatebion. Mae

gwir nifer yr ymatebion gan Gaerdydd felly'n agos iawn (+1) i'r hyn y byddem wedi'i ddisgwyl o ystyried y cyfrannau a bostiwyd allan.

5.11 Drwy edrych ymhellach ar y tabl hwn, gellir gweld bod dosbarthiad daearyddol y sampl yn ymddangos yn fras i adlewyrchu dosbarthiad cyffredinol y busnesau sy'n derbyn rhyddhad ardrethi. Mae nifer yr ymatebion gan y prif ganolfannau trefol (Caerdydd, Abertawe, Castell Nedd Port Talbot) yn weddol agos at yr hyn fyddem wedi'i ddisgwyl. Mae yna efallai fymryn o orgynrychiolaeth gan fusnesau mewn rhai ardaloedd gwledig (Sir Gâr, Powys) a than-gynrychiolaeth mewn rhannau o Dde Cymru (Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent) ond bach iawn yw'r gwahaniaethau hyn (ffigurau sengl ym mhob achos) ac maent yn annhebygol o wneud y cyffredinoli a wneir ar sail y data yn annilys.

Tabl 5 Dadansoddiad o'r patrwm ymateb yn ôl ardal ddaearyddol

Awdurdodau Lleol	Cyfanswm	Postiwyd allan	Ymatebion	Targed	Gwahaniaeth
Sir Gâr	3,296	273	41	34	7
Powys	2,952	244	35	30	5
Gwynedd	3,533	291	40	36	4
Ynys Môn	1,417	116	18	14	4
Sir Benfro	3,503	289	38	36	2
Ceredigion	1,602	128	18	16	2
Sir Fynwy	1,211	98	14	12	2
Abertawe	2,419	198	26	25	1
Sir Ddinbych	200	17	3	2	1
Castell Nedd Port Talbot	1,627	131	17	16	1
Caerffili	1,899	156	20	19	1
Caerdydd	2,687	221	28	27	1
Conwy	2,308	189	24	23	1
Wrecsam	200	17	2	2	0
Sir y Fflint	1,921	158	19	20	-1
Casnewydd	1,376	113	13	14	-1
Merthyr Tudful	200	15	0	2	-2
Torfaen	971	78	7	10	-3
Pen-y-bont ar Ogwr	1,521	124	11	15	-4
Blaenau Gwent	894	73	4	9	-5
Rhondda Cynon Taf	1,322	109	8	14	-6
Bro Morgannwg	1,384	113	5	14	-9
	38,443	3,151	391	391	0


5.12 Mae ansawdd yr ymatebion i'r holiadur wedi bod yn dda ar y cyfan, gyda nifer o ymatebwyr yn awyddus i wneud mwy na thicio blychau ac wedi ychwanegu sylwadau i gefnogi eu barn am y system ryddhad. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn fwy manwl na rhai o arolygon tebyg a gyflawnwyd gan CRED yn ddiweddar. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu mwy o ymwybyddiaeth o ryddhad ardrethi yn y dirywiad economaidd presennol yn ogystal ag arwyddocâd symbolaidd rhyddhad ardrethi fel math o gymorth.

Manylir ar ganlyniadau'r arolwg isod:

5.1 Y mathau o fusnes a ymatebodd i'r arolwg


5.1.1 Mae'r ymatebion a ddaeth i law yn cynrychioli trawsdoriad o fusnesau bach a chanolig o ardaloedd gwahanol ledled Cymru (Ffigur 2).

Ffigur 2 Ymatebion yn ôl Awdurdod




5.1.2 Mae'r ymatebion hefyd yn cynnwys trawsdoriad o gwmnïau bach a chanolig yn ôl sector ac yn ôl nifer y staff (Ffigur 3). Y sectorau adwerthu a chyfanwerthu, a'r sectorau llety ac arlwyyo oedd yn cyfrif am y nifer fwyaf o fusnesau, gyda rhwng 0-1 o weithwyr (34.5 y cant am y naill a 31.0 y cant am y llall o gyfanswm y busnesau gyda 0-1 o weithwyr) tra bo'r sector gweithgynhyrchu, storio a dosbarthu'n cyfrif am y nifer fwyaf o fusnesau gyda dros 21 o weithwyr (45.5 y cant o gyfanswm y busnesau gyda dros 21 o weithwyr).

Ffigur 3 Sectorau yn ôl nifer y gweithwyr



5.1.3 Roedd canran uchel o'r ymatebion gan fusnesau sefydledig (Ffigur 4). Roedd 50% o fusnesau o bob sector wedi sefydlu ers dros 10 mlynedd, gyda 83 y cant o'r sector adwerthu wedi sefydlu ers dros 10 mlynedd. Y sector lleiaf sefydledig i ymateb oedd gweithgynhyrchu, gyda 28.9% o'r sector yma wedi sefydlu ers rhwng 0 a 5 mlynedd.


Ffigur 4 Sectorau yn ôl oed y busnes




5.2 Ymwybyddiaeth o'r cynllun rhyddhad ardrethi

5.2.1 Gofynnwyd i reolwyr busnesau am eu dealltwriaeth o'u statws presennol o fewn y cynllun rhyddhad ardrethi drwy ddangos faint o ryddhad oedden nhw'n ei dderbyn ar hyn o bryd. Dywedodd tua 30 y cant ohonynt nad oeddent yn si• r faint o ryddhad oedden nhw'n ei dderbyn sy'n awgrymu bod y lefelau o ymwybyddiaeth o'r cynllun yn eithaf amrywiol. Drwy edrych ar yr ymatebion hyn ar draws gwahanol gategorïau busnes, ymddengys bod y lefelau ymwybyddiaeth yn tueddu i leihau mwya'n byd oedd maint y busnes (o'i fesur yn ôl nifer y gweithwyr) (gweler Ffigur 5). Roedd lefelau ymwybyddiaeth o'r Cynllun yn ymddangos i fod uchaf ar gyfer swyddfeydd post, yna'r sectorau adwerthu a llety / arlwyyo. Roedd y lefelau ymwybyddiaeth yn ymddangos i fod isaf yn y gwasanaethau proffesiynol ac ariannol; ac yn y sectorau gwasanaethau personol a gweithgynhyrchu, storio a dosbarthu (gweler Ffigur 6).

Ffigur 5 Canran o fusnesau oedd yn ansicr faint o Ryddhad Ardrethi yr oeddent yn ei dderbyn



Ffigur 6 Canran o fusnesau oedd yn ansicr faint o Ryddhad Ardrethi yr oeddent yn ei dderbyn yn ôl sector



5.3 Pwysigrwydd ardrethi yng nghyswllt trosiant a chostau busnes

5.3.1 Mae darganfyddiadau'r arolwg yn dangos bod pwysigrwydd ardrethi yng nghyswllt costau eraill yn amrywio'n sylweddol ar draws yr ymatebion gan fusnesau. Yn un pegwn, mae ardrethi'n cynrychioli llai na 2 y cant o'r costau cyfan i rai busnesau (81 o achosion neu 27 y cant o'r cyfanswm) tra, yn y pegwn arall, mae yr un nifer yn honni bod ardrethi'n cyfrif am dros 10 y cant o'u costau cyfan (82 o ymatebion). Mae'r amrywiaeth yma hefyd wedi'i adlewyrchu mewn asesiad o ardrethi fel canran o'r trosiant a oedd yn amrywio o lai na 2 y cant (127 o achosion, 41.5 y cant) i fwy na deg y cant (55 o achosion neu 18 y cant). Mae hyn yn awgrymu y byddai sensitifrwydd i newidiadau mewn ardrethi a rhyddhad ardrethi'n amrywio yn eang iawn.

5.3.2 Mae maint y sampl o dros 400 yn golygu y gallwn ddadgyfuno'r patrymau hyn. Dengys Tabl 6 fod pwysigrwydd ardrethi yng nghyswllt y costau cyfan yn amrywio ar draws gwahanol sectorau. O'i gymharu â'r cyfartalog, mae cyfran lawer uwch o fusnesau yn y sectorau 'llety ac arlwy' a 'gwasanaethau personol' wedi awgrymu bod ardrethi'n cyfrif am fwy na 10 y cant o'u costau cyfan. Wrth gwrs, gallai hyn adlewyrchu'r ffaith bod costau eraill yn tueddu i fod yn is na'r cyfartalog yn y mathau yma o fusnesau (h.y. efallai nad ydynt yn cyflogi unrhyw staff a gallai fod ganddynt anghenion prynu isel). Mewn cymhariaeth, mae busnesau lle mae'r ardrethi ond yn cyfrif am gyfran fach o'r costau cyfan (llai na 2 y cant) wedi eu gor-gynrychioli yn y sectorau 'gweithgynhyrchu' a 'gwasanaethau proffesiynol ac ariannol' (yn ogystal â swyddfeydd post sydd, wrth gwrs, yn gymwys i dderbyn rhyddhad ardrethi o 100 y cant).

Tabl 6: Y categori diwydiant - ardrethi fel canran o gostau'r busnes

Y categori diwydiant	Ardrethi fel canran o gostau'r busnes				Cyfanswm
	0-2%	3-5%	6-9%	10%+	
Swyddfeydd Post	6 60.0%	3 30.0%	0 0%	1 10.0%	10 100.0%
Gwasanaethau Personol	6 19.4%	11 35.5%	3 9.7%	11 35.5%	31 100.0%
Adwerthu a chyfanwerthu	24 26.7%	32 35.6%	13 14.4%	21 23.3%	90 100.0%
Llety ac arlwygo	5 6.8%	21 28.8%	22 30.1%	25 34.2%	73 100.0%
Gweithgynhyrchu, storio a dosbarthu	16 42.1%	9 23.7%	3 7.9%	10 26.3%	38 100.0%
Gwasanaethau proffesiynol ac ariannol	13 46.4%	9 32.1%	3 10.7%	3 10.7%	28 100.0%
Eraill	12 34.3%	10 28.6%	3 8.6%	10 28.6%	35 100.0%
Cyfanswm	82 26.9%	95 31.1%	47 15.4%	81 26.6%	305 100.0%

5.3.3 Fel y byddid yn ei ddisgwyl, mae busnesau bach yn y sectorau llety ac arlwygo, a gwasanaethau personol, hefyd wedi eu nodweddu gan gost ardrethi uwch o'i chymharu â throsiant y busnes. Mae'r gost ardrethi'n cynrychioli mwy na 10 y cant o'r trosiant i fwy na thraean o fusnesau yn y ddau sector hwn (gweler Tabl 7). Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu'r ffaith bod cyfran gymharol uchel o fusnesau yn y sectorau hyn yn fusnesau meicro nad ydynt yn cyflogi unrhyw staff, felly mae eu costau sylfaenol yn gymharol isel.

Tabl 7: Y categori diwydiant – ardrethi fel canran o'r trosiant

Y categori diwydiant	Ardrethi fel canran o'r trosiant				Cyfanswm
	0-2%	3-5%	6-9%	10%+	
Swyddfeydd Post	6	3	0	0	9
	66.7%	33.3%	.0%	.0%	100.0%
Gwasanaethau Personol	6	12	5	6	29
	20.7%	41.4%	17.2%	20.7%	100.0%
Adwerthu a chyfanwerthu	48	26	4	16	94
	51.1%	27.7%	4.3%	17.0%	100.0%
Llety ac arlwy	7	30	18	19	74
	9.5%	40.5%	24.3%	25.7%	100.0%
Gweithgynhyrchu, storio a dosbarthu	23	5	5	5	38
	60.5%	13.2%	13.2%	13.2%	100.0%
Gwasanaethau proffesiynol ac ariannol	21	7	1	0	29
	72.4%	24.1%	3.4%	.0%	100.0%
Eraill	16	6	2	9	33
	48.5%	18.2%	6.1%	27.3%	100.0%
Cyfanswm	127	89	35	55	306
	41.5%	29.1%	11.4%	18.0%	100.0%

5.3.4 Mae pwysigrwydd y rhyddhad ardrethi hefyd yn amrywio'n systematig yn ôl maint y busnes (wedi'i fesur yn ôl nifer y staff). Dengys Tabl 8 wahaniaeth clir rhwng busnesau sydd o dan neu'n uwch na'r trothwy pum aelod o staff. Yn benodol, mae 47 y cant o'r holl fusnesau sydd ag un neu ddim staff yn honni bod ardrethi'n cyfrif am fwy na 10 y cant o'u costau. Mae graddoliad tebyg yn digwydd gydag ardrethi fel canran o'r trosiant ar draws gwahanol fandiau maint (Tabl 9). Y casgliad cyffredinol o'r patrymau hyn yw er bod ardrethi'n gost sylweddol i lawer o fusnesau (dros 5 y cant o'r costau cyfan i fwy na 40 y cant o fusnesau), mae'r ardrethi'n cynrychioli cost neilltuol sylweddol i fusnesau sydd â llai na 2 aelod o staff a rhai yn y sectorau llety ac arlwy, a gwasanaethau personol.

Tabl 8: Y categori cyflogaeth - ardrethi fel canran o gostau'r busnes

Y categori cyflogaeth	Ardrethi fel canran o gostau'r busnes				Cyfanswm
	0-2%	3-5%	6-9%	10%+	
0-1 o staff	10	8	13	27	58
	17.2%	13.8%	22.4%	46.6%	100.0%
2-5 o staff	40	63	28	43	174
	23.0%	36.2%	16.1%	24.7%	100.0%
6-10 o staff	19	18	4	5	46
	41.3%	39.1%	8.7%	10.9%	100.0%
11-20 o staff	7	5	1	2	15
	46.7%	33.3%	6.7%	13.3%	100.0%
dros 21 o staff	6	1	1	2	10
	60.0%	10.0%	10.0%	20.0%	100.0%
Cyfanswm	82	95	47	79	303
	27.1%	31.4%	15.5%	26.1%	100.0%

Tabl 9: Y categori cyflogaeth – ardrethi fel canran o'r trosiant

Y categori cyflogaeth	Ardrethi fel canran o'r trosiant				Cyfanswm
	0-2%	3-5%	6-9%	10%+	
0-1 o staff	11	15	12	19	57
	19.3%	26.3%	21.1%	33.3%	100.0%
2-5 o staff	70	57	19	31	177
	39.5%	32.2%	10.7%	17.5%	100.0%
6-10 o staff	29	12	1	3	45
	64.4%	26.7%	2.2%	6.7%	100.0%
11-20 o staff	10	3	1	1	15
	66.7%	20.0%	6.7%	6.7%	100.0%
dros 21 o staff	7	1	2	0	10
	70.0%	10.0%	20.0%	.0%	100.0%
Cyfanswm	127	88	35	54	304
	41.8%	28.9%	11.5%	17.8%	100.0%

5.4 Effaith Rhyddhad Ardrethi ar Fusnesau yn y 12 mis diwethaf

5.4.1 Gofynnwyd i'r busnesau ddweud a oedd derbyn rhyddhad ardrethi wedi cael unrhyw effaith ar eu penderfyniadau busnes yn y 12 mis diwethaf. Yn gyffredinol, dywedodd hanner y rhai a ymatebodd eu bod wedi cael effaith. Yn ddiddorol, daeth yr ymatebion cadarnhaol i'r cwestiwn hwn nid yn unig gan fusnesau meicro lle mae ardrethi'n cyfrannu'n gymharol sylweddol at eu costau, ond hefyd gan fusnesau fymryn yn fwy sy'n cyflogi hyd at ddeg o bobl. Yn wir, dywedodd 28 o fusnesau gyda rhwng 6-10 o staff fod rhyddhad ardrethi wedi effeithio rhywfaint ar eu penderfyniadau diweddar (Tabl 10). Dengys Tabl 11 hefyd fod effaith rhyddhad ardrethi ar fusnes wedi bod fwyaf i swyddfeydd post a busnesau yn y sector 'llety ac arlwyo'.

Tabl 10 Y categori cyflogaeth A ydyw rhyddhad ardrethi wedi effeithio ar unrhyw un o'ch penderfyniadau busnes yn y 12 mis diwethaf?

Y categori cyflogaeth	A ydyw rhyddhad ardrethi wedi effeithio ar unrhyw un o'ch penderfyniadau busnes yn y 12 mis diwethaf?		Cyfanswm
	Naddo	Do	
0-1 o staff	38	34	72
	52.8%	47.2%	100.0%
2-5 o staff	95	112	207
	45.9%	54.1%	100.0%
6-10 o staff	27	28	55
	49.1%	50.9%	100.0%
11-20 o staff	10	4	14
	71.4%	28.6%	100.0%
dros 21 o staff	7	3	10
	70.0%	30.0%	100.0%
Cyfanswm	177	181	358
	49.4%	50.6%	100.0%

Tabl 11 Y categori diwydiant: A ydyw rhyddhad ardrethi wedi effeithio ar unrhyw un o'ch penderfyniadau busnes yn y 12 mis diwethaf?

Y categori diwydiant	A ydyw rhyddhad ardrethi wedi effeithio ar unrhyw un o'ch penderfyniadau busnes yn y 12 mis diwethaf?		Cyfanswm
	Naddo	Do	
Swyddfeydd Post	4	8	12
	33.3%	66.7%	100.0%
Gwasanaethau Personol	24	13	37
	64.9%	35.1%	100.0%
Adwerthu a chyfanwerthu	59	54	113
	52.2%	47.8%	100.0%
Llety ac arlwyio	31	54	85
	36.5%	63.5%	100.0%
Gweithgynhyrchu, storio a dosbarthu	20	21	41
	48.8%	51.2%	100.0%
Gwasanaethau proffesiynol ac ariannol	21	11	32
	65.6%	34.4%	100.0%
Eraill	19	20	39
	48.7%	51.3%	100.0%
Cyfanswm	178	181	359
	49.6%	50.4%	100.0%

5.4.2 Dengys Tabl 12 fod penderfyniadau busnes gan fusnesau iau yn fwy tebygol o gael eu dylanwadu gan y cynllun rhyddhad ardrethi (0-2 flynedd 65 y cant, 3-5 mlynedd 60 y cant). Gallai hyn fod oherwydd bod y penderfyniad i leoli yn fwy diweddar i'r busnesau hyn ac felly eu bod yn fwy ymwybodol o gost yr adeilad.

Tabl 12 Blynyddoedd mewn Busnes A ydyw rhyddhad ardrethi wedi effeithio ar unrhyw un o'ch penderfyniadau busnes yn y 12 mis diwethaf?

Blynyddoedd mewn Busnes	A ydyw rhyddhad ardrethi wedi effeithio ar unrhyw un o'ch penderfyniadau busnes yn y 12 mis diwethaf?		Cyfanswm
	Do	Naddo	
0-2 flynedd	8 34.8%	15 65.2%	23 100.0%
3-5 mlynedd	12 40.0%	18 60.0%	30 100.0%
6-10 mlynedd	22 53.7%	19 46.3%	41 100.0%
Dros 10 mlynedd	137 52.3%	125 47.7%	262 100.0%
Cyfanswm	179 50.3%	177 49.7%	356 100.0%

5.4.3 Cafodd yr ymatebwyr eu gwahodd i roi enghreifftiau o'r mathau o benderfyniadau a ddylanwadwyd arnynt gan ryddhad ardrethi. I rai, roedd y rhain yn agweddau go bwysig ar y busnes, gan gynnwys rhai sefyllfaoedd lle oedd rhyddhad ardrethi wedi dylanwadu ar gadw'r busnes ar agor. Yn gyffredinol, dywedodd fwy nag un o bob pump o'r ymatebwyr fod rhyddhad ardrethi wedi bod yn 'ffactor bwysig iawn o ran aros mewn busnes'. Roedd yr ymateb hwn yn arbennig o gyffredin ymhlith y busnesau yn y bandiau maint llai (llai na 5 o staff – gweler Tabl 13) ac i Swyddfeydd Post (er gyda niferoedd isel yn yr arolwg) ac i'r categori 'gwasanaethau amrywiol' sy'n cynnwys nifer o sefydliadau 'di-wneud-elw', gwasanaethau modurdy, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau hamdden (gweler Tabl 14).

Tabl 13 Y categori cyflogaeth A ydyw derbyn rhyddhad ardrethi wedi bod yn ffactor bwysig ichi aros mewn busnes dros y 12 mis diwethaf?

Y categori cyflogaeth	A ydyw derbyn rhyddhad ardrethi wedi bod yn ffactor bwysig ichi aros mewn busnes dros y 12 mis diwethaf?			Cyfanswm
	Ddim yn bwysig	Pwysig	Pwysig iawn	
0-1 o staff	30 40.0%	29 38.7%	16 21.3%	75 100.0%
2-5 o staff	70 33.3%	86 41.0%	54 25.7%	210 100.0%
6-10 o staff	24 43.6%	22 40.0%	9 16.4%	55 100.0%
11-20 o staff	10 62.5%	5 31.3%	1 6.3%	16 100.0%
dros 21 o staff	5 45.5%	5 45.5%	1 9.1%	11 100.0%
Cyfanswm	139 37.9%	147 40.1%	81 22.1%	367 100.0%

Tabl 14 Y categori diwydiant A ydyw derbyn rhyddhad ardrethi wedi bod yn ffactor bwysig ichi aros mewn busnes dros y 12 mis diwethaf?

Y categori diwydiant	A ydyw derbyn rhyddhad ardrethi wedi bod yn ffactor bwysig ichi aros mewn busnes dros y 12 mis diwethaf?			Cyfanswm
	Ddim yn bwysig	Pwysig	Pwysig iawn	
Swyddfeydd Post	6	2	4	12
	50.0%	16.7%	33.3%	100.0%
Gwasanaethau Personol	15	17	7	39
	38.5%	43.6%	17.9%	100.0%
Adwerthu a chyfanwerthu	41	46	25	112
	36.6%	41.1%	22.3%	100.0%
Llety ac arlwy	26	46	21	93
	28.0%	49.5%	22.6%	100.0%
Gweithgynhyrchu, storio a dosbarthu	16	21	4	41
	39.0%	51.2%	9.8%	100.0%
Gwasanaethau proffesiynol ac ariannol	18	7	7	32
	56.3%	21.9%	21.9%	100.0%
Eraill	16	8	14	38
	42.1%	21.1%	36.8%	100.0%
Cyfanswm	138	147	82	367
	37.6%	40.1%	22.3%	100.0%

5.4.4 Er bod yr ymatebion yn awgrymu bod rhyddhad ardrethi wedi cyfrannu at gadw llawer o fusnesau llai, yn enwedig, ar agor, rhoddwyd enghreifftiau o sut y mae rhyddhad ardrethi wedi effeithio ar agweddau eraill ar redeg busnes. Mae rhai yn ei weld fel budd ariannol gweithredol y gellir ei ddefnyddio i gyflogi staff achlysurol, gostwng prisiau i gwsmeriaid neu i wario mymryn yn fwy ar werthu a marchnata.

‘Mae’n golygu y gallwn fuddsoddi ychydig yn fwy mewn gwerthu a marchnata.’

‘Mae derbyn rhyddhad ardrethi wedi golygu bod y busnes wedi gallu cynnal lefel y stoc ac, felly, cynnal y lefelau staffio.’

'Mae hyn wedi golygu fy mod wedi gallu rhedeg y busnes yn broffidiol, fel y medrwn gyflogi gweithiwr achlysurol, a rhoi swydd ran amser i'r person hwnnw, tra'n rhoi busnes i fusnesau lleol.'

'Mae'n golygu y medraf gynnig prisiau a gwerth gwell i fy nghwsmeriaid.'

'Mae hyn yn oed ein canran fach ni yn help mawr i gynnal safonau da ac i dalu am gostau a gwariant di-baid - gan gynnwys treth incwm, y dreth gyngor ddomestig a'r dreth gyngor annomestig – hysbysebu - a chostau d• r, nwy a thrydan - costau hel gwastraff - costau diogelwch tân a chostau ymaelodi â chyrff twristiaeth, ayb ayb.'

5.4.5 Mae eraill yn ymddangos i fod yn defnyddio'r adnodd yn fwy strategol drwy fuddsoddi mewn Technoleg Gwybodaeth well a mathau eraill o gyfarpar, neu mewn gwella'r eiddo.

'Mae'n gadael inni fuddsoddi mewn adnoddau staff a gwella cyfathrebu a chyfarpar TG fel y gallwn ddarparu ein gwasanaethau'n brydlon ac effeithlon i'n cwsmeriaid.'

'Mae'n aruthrol bwysig i fusnes bach, ifanc sydd ar ei brifant. Yn barod wedi gadael inni ehangu i fwy o le, rhywbeth na fyddem wedi gallu fforddio ei wneud hebddo.'

'Gallwn wella edrychiad y busnes gyda pheintiadau, blodau, planhigion, cyfarpar newydd (cawodydd, peiriant sychu, uned dd• r poeth) ayb.'

'Gallwn gadw ein prisiau i lawr a diweddarau ein heiddo yn yr hinsawdd anodd sydd ohoni heddiw.'


'I ddechrau roeddem yn chwilio am swyddfeydd hybu, ond oherwydd bod ardrethi busnes yn gymharol isel roeddem yn gallu ystyried adeilad mwy.'

5.5 Barn am Ryddhad Ardrethi

5.5.1 Roedd busnesau a oedd yn derbyn rhyddhad ardrethi'n teimlo ei fod yn ddefnyddiol iddynt (gweler Ffigur 7). Y cytundeb cryfaf ymhlith yr ymatebwyr oedd bod rhyddhad ardrethi wedi eu helpu i oroesi mewn marchnad eithriadol gystadleuol. Roedd tua 300 o'r rhai a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod rhyddhad ardrethi'n bwysig i ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd gwledig, a hefyd yn credu ei fod yn dangos cefnogaeth y sector cyhoeddus i gwmnïau bach a chanolig (294 yn cytuno / cytuno'n gryf).

5.5.2 Roedd cytundeb eithaf cryf bod rhyddhad ardrethi yn annog busnesau bach i gefnogi eu cymunedau (263 yn cytuno / cytuno'n gryf) a bod rhyddhad ardrethi'n annog pobl i sefydlu busnes (260 yn cytuno / cytuno'n gryf).

Ffigur 7 Yr argraff sydd gan fusnesau o fanteision rhyddhad ardrethi



5.5.3 Yr unig ddatganiad ar yr holiadur lle oedd gwahaniaeth barn amlwg oedd 'Mae maint y rhyddhad ardrethi yn fach ac nid yw'n gwneud gwahaniaeth mawr i hyfywedd busnesau' gyda 120 yn cytuno / cytuno'n gryf a 196 yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf (Ffigur 8). Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu faint o ryddhad ardrethi oedd yn cael ei dderbyn o'i gymharu ag amgylchiadau unigol y busnes.


5.5.4 Roedd anghytundeb cryf gyda dau ddatganiad negyddol yn yr holiadur, gyda dim ond 30 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r datganiad 'Nid yw'r cynllun rhyddhad ardrethi'n ddefnydd da o arian cyhoeddus' a dim ond naw yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda 'Mae rhyddhad ardrethi'n rhoi mantais gystadleuol annheg i'r rhai sy'n ei dderbyn.'

5.5.5 Mae cysondeb yr ymatebion i'r datganiadau yn yr holiadur yn dangos gwerthfawrogiad busnesau bach a chanolog i'r cymorth y mae rhyddhad

ardrethi yn ei roi. Mae'r ymateb deublyg i'r datganiad 'Mae maint y rhyddhad ardrethi yn fach ac nid yw'n gwneud gwahaniaeth mawr i hyfywedd busnesau' yn unigryw yn yr ymatebion. Ystyriwyd y posibilrwydd bod yr ymatebion i'r cwestiwn hwn efallai wedi cael eu dylanwadu gan bwysigrwydd ariannol yr ardrethi i'r busnesau unigol a ymatebodd. Fodd bynnag, ni wnaeth croesdablu ddatgelu unrhyw wahaniaethau mawr yn yr ymatebion a oedd yn dibynnu ar yr ardrethi fel canran o'r trosiant; er enghraifft, roedd busnesau lle oedd yr ardrethi'n llai na 2 y cant o'r trosiant yr un mor debygol o gytuno gyda'r datganiad hwn â rhai lle oedd ardrethi'n cynrychioli mwy na 10 y cant o'r trosiant.

Mae patrwm yr ymatebion ar draws y datganiadau hyn ar y cyfan, felly, yn awgrymu bod yr ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd rhyddhad ardrethi mewn termau ariannol ond hefyd mewn termau llai gweladwy. Mae Rhyddhad Ardrethi'n cael ei weld nid yn unig fel cymorth ariannol i fusnesau bach, yn enwedig mewn cymunedau gwledig ac ardaloedd difreintiedig, ond hefyd fel symbol o ymrwymiad y llywodraeth i helpu busnesau bach a chefnogi cymunedau difreintiedig.

Ffigur 8 Mae maint y rhyddhad ardrethi yn fach ac nid yw'n gwneud gwahaniaeth mawr i hyfywedd busnesau




5.6 Faint o ryddhad ardrethi sy'n cael ei lyncu gan gynnydd mewn rhent

5.6.1 Roedd peth trafodaeth yn yr adolygiad o'r llenyddiaeth ynghylch faint o ryddhad ardrethi a dderbyniai gwmnïau bach a chanolig oedd yn cael ei lyncu gan landlordiaid oedd yn codi rhent uwch. Gofynnodd yr holiadur i berchnogion busnesau bach a chanolig gydag eiddo rhent faint o'u rhyddhad ardrethi oedd yn cael ei 'lyncu' gan landlordiaid wrth godi rhenti uwch (Ffigur 9).

5.6.2 Roedd yr ymateb gan y 132 o fusnesau yn awgrymu nad yw hyn yn effeithio ar y rhan fwyaf o gwmnïau bach a chanolig (teimlai 66.7% nad oedd dim o'r Rhyddhad Ardrethi'n cael ei lyncu gan godiadau rhent). Fodd bynnag, roedd 20 y cant o'r ymatebion yn meddwl bod peth o'r rhyddhad ardrethi'n cael ei lyncu gan renti uwch a theimlai 12.9 y cant fod y rhan fwyaf neu'r cyfan o'u rhyddhad yn diflannu drwy godiadau rhent.

Ffigur 9 Pa gyfran o'r rhyddhad ardrethi sy'n cael ei lyncu gan renti uwch sy'n cael eu codi ar eich busnes?



6 Cyfweiliadau gyda busnesau sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethi

6.1 Cyfweiliadau gyda Busnesau Bach

6.1.1 Dewiswyd y cyfweleion ar sail eu hatebion i gwestiynau 14,17, 18 a 19 yn yr holiadur. Darllenwyd sylwadau (cwestiynau 17-19) y rhai a atebodd fod derbyn rhyddhad ardrethi wedi cael effaith bwysig neu bwysig iawn ar aros mewn busnes dros y 12 mis diwethaf (cwestiwn 14). Os oeddem yn teimlo bod ganddynt efallai stori ddiddorol i'w hadrodd am effaith rhyddhad ardrethi ar eu busnes a roeddent hefyd wedi cytuno i gael eu cyfweld, yna roeddent yn ymgeisydd posibl am gyfweiliad. Y maen prawf olaf oedd ym mha sector oedd eu busnes oherwydd y nod oedd dewis o leiaf un o bob un o'r saith sector. Swyddfeydd Post; Gwasanaethau Personol; Adwerthu a Chyfanwerthu; Llety ac Arlwy; Gweithgynhyrchu, Storio a Dosbarthu; Gwasanaethau Proffesiynol ac Ariannol; ac Eraill. Mewn lleiafrif o'r achosion (2), atebodd y cyfweleion nad oedd y rhyddhad ardrethi a dderbyniwyd wedi cael effaith fawr ar eu penderfyniad i aros mewn busnes yn y 12 mis diwethaf ond, er hynny, ei fod yn bwysig iddynt. Roeddem am holi ymhellach i weld pam.

6.1.2 Roeddem yn teimlo bod y busnesau inni gysylltu â nhw yn astudiaethau achos da o ba mor bwysig yw rhyddhad ardrethi i rai, os nad i bob un busnes bach, gan obeithio bod y cameo canlynol yn cyfleu blas o fywyd ar y ddaear - darlun cliriach na'r hyn all dadansoddiad ystadegol ei roi. Adroddir ar 14 o'r 15 yma, mae'r llall yn ailadrodd y pwyntiau a wnaed yn barod.

6.2 Swyddfeydd Post sydd hefyd yn darparu gwasanaeth gofalu

6.2.1 Dewiswyd dwy swyddfa'r post i gael eu cyfweld, un gyda siop bob-dim ynddi, ond y ddwy yn derbyn 100% o ryddhad ardrethi.

6.2.2 Roedd y gyntaf mewn tref lan y môr fechan yng Ngogledd Cymru ac yn cyflogi dau staff llawn amser, pedwar rhan amser a dau staff achlysurol. Roedd yr is-bostfeistr wedi ymateb bod y rhyddhad ardrethi wedi ei helpu i gyflogi aelod ychwanegol o staff yn y 12 mis diwethaf. Yn benodol, roedd wedi

gallu neilltuo swm y rhyddhad gan wybod ei fod yn 'rhoi hyblygrwydd iddo gyda'i staff.'

6.2.3 Fodd bynnag, roedd nifer o bethau a oedd yn achosi i refeniw Swyddfeydd Post ostwng. Yn gyntaf, roedd talu biliau wedi newid yn ddramatig dros gyfnod, gyda chystadleuwyr eraill yn y farchnad. Roedd maint y post wedi lleihau'n ddramatig dros gyfnod ac roedd cludwyr sector preifat yn darparu'r gwasanaeth yn lle'r Post Brenhinol. Roedd gwasanaethau rhyngwyd yn cynnwys gallu prynu arian tramor ar-lein, a oedd yn rhatach na'i brynu gan Swyddfa'r Post. Roedd y lleihad hwn mewn refeniw yn golygu bod ei elw net hefyd yn lleihau ac felly, er bod ardrethi ond yn gyfran fach o'i gostau cyfan neu ei drosiant cyfan, fel canran o'i elw roeddent yn anferth.

'Y llynedd, gwnaethom elw net o £8,000 – pe bai bil ardrethi o £4,000 i'w dalu, byddai hynny'n golygu y byddem ond yn gwneud elw o £4,000, toriad o 50 y cant. Waeth imi roi'r gorau iddi'n llwyr am hynny!'

6.2.4 Felly, byddai dileu'r rhyddhad yn arwain at orfod ystyried hyfywedd ei fusnes ac, felly, gorfod torri'n ôl ar staff.

6.2.5 Teimlai fod y cymorth drwy'r rhyddhad ardrethi yn gwbl hanfodol ac yn arwydd bod Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod rôl hollbwysig Swyddfa'r Post yn y gymuned.'

6.2.6 Fel enghraifft o'r pwynt olaf, dywedodd fod yr hen swyddfa ddidoli yng nghefn yr adeilad wedi cael ei hailwampio gan yr eglwys i'w defnyddio gan y gymuned i gynnig te a choffi am ddim ac i roi cyfle i bobl gyfarfod, a bod tua 30 o bobl yr wythnos yn ei defnyddio. Pan ofynnwyd a oedd y rhyddhad ardrethi'n ei annog i ddefnyddio ei fusnes a'i adnoddau i gefnogi'r gymuned, ei ateb oedd 'Yn sicr!' Agweddd arall ar ei waith a oedd o werth i'r gymdeithas oedd y ffaith ei fod yn ymweld â chwsmeriaid a allai fod yn ddiymgeledd - pobl oedrannus os oeddent yn sâl ac yn gaeth i'w cartrefi – a lle bo angen, roedd yn trefnu eu bod yn derbyn eu pensiwn. Fodd bynnag, ni fyddai colli'r

rhyddhad ardrethi'n effeithio ar unrhyw un o'r gweithgareddau hyn oherwydd
'Nid er mantais ariannol ydych chi'n ei wneud, ond i gefnogi eich cymuned.'

6.2.7 Roedd perchennog yr ail swyddfa'r post a siop y gornel a oedd mewn
pentref gerllaw tref lan y môr arall yng Ngogledd Cymru hefyd wedi dweud fod
y rhyddhad ardrethi wedi effeithio ar ei benderfyniadau busnes yn ddiweddar
gan olygu y gallai ryddhau arian i dalu costau eraill. Dywedodd fod

'rhyddhad ardrethi yn swm cymharol fach o arian o'i ystyried ar ei ben
ei hun ond mae popeth y gallwch ei arbed yn gyfraniad ac mae pob
dim yn helpu.'

6.2.8 Pan glywodd i ddechrau rai blynyddoedd yn ôl, pan oedd swyddfeydd
post yn cau, y byddai Swyddfeydd Post yn derbyn 100% o ryddhad ardrethi,
meddylodd

'Gwych! Roedd yn newyddion arbennig o dda ar y pryd.'

6.2.9 Roedd hyn oherwydd

'mae busnes fel fy un i yn gweithredu ar sail elw isel iawn ac mae llif
arian yn hanfodol bwysig. Mae'n un gost fusnes yn llai i boeni yn ei
chylch ac yn rhoi ystyr go iawn i'r gair 'rhyddhad'.

Mae'n gweld ei siop fel rhywbeth pwysig i'r gymuned leol oherwydd ei bod yr
unig un am 1.25 milltir ac yn 'fan cyfarfod i bobl oedrannus.' Fodd bynnag, am
ei fod yn derbyn y rhyddhad llawn, nid oes raid iddo roi hyn a hyn i un ochr i
dalw ardrethi, yn wahanol i drethi ac, felly, nid yw'r rhyddhad yn cael ei neilltuo
ganddo at unrhyw ddiben penodol. Roedd hefyd yn glir na fyddai dileu'r
rhyddhad yn ei atal rhag cyflawni unrhyw un o'i weithgareddau presennol - ac
er eu bod yn gymdeithasol neu'n gymunedol eu natur ac yn ddi-dâl, eu bod yn
rhan o'i ethos bywyd. Roedd y rhain yn cynnwys gwneud danfon nwyddau i
bensïynwyr yn eu cartrefi a rhoi dwy wobr raffl i ddau gartref nyrsio lleol.

Roedd hefyd yn cyfrannu swm refeniw bychan at y clwb pêl-droed lleol drwy hysbysebu yn eu rhaglen.

6.3 Busnes sy'n darparu profiad gwaith gwerthfawr

6.3.1 O'r sector Gwasanaethau Personol, gwnaethom ddewis cyfweld perchennog Salon Trin Gwallt a Harddwch mewn tref fechan yn Ne Cymru. Ar hyn o bryd, mae'n cyflogi tri yn llawn amser, dau yn rhan amser ac un staff achlysurol. Teimlai fod y 'rhyddhad ardrethi wedi bod yn help aruthrol, yn enwedig yn y "wasgfa gredyd". Er bod yr arian yn mynd i'r potyn busnes cyffredinol, dywedodd ei fod wedi effeithio ar ei phenderfyniadau busnes yn y 12 mis diwethaf, pryd oedd wedi gwneud gwelliannau i'r salon, wedi creu swydd newydd ac wedi rhoi mwy o hyfforddiant i ddisgyblion ysgol. Mae'n gweld y rhyddhad yn ariannol bwysig ac mae'n gwerthfawrogi'r ffaith ei fod yn cael ei roi i fusnesau bach oherwydd, yn y deng mlynedd iddo fod mewn busnes, mae wedi mynd

'o fod yn hunan-gyflogedig i gyflogi pump o bobl.'

6.3.2 Pe bai'r rhyddhad yn mynd, dywedodd:

'Efallai y byddai'n rhaid imi dorri ar oriau'r staff, oherwydd rhaid imi rywsut dorri ar y biliau allan i gyd.' Dywedodd na fyddai'n gallu ariannu'r busnes mewn ffordd arall oherwydd ei bod 'i fyny at fy nghorn gwddw mewn gorddrafft, benthyciadau a morgais yn barod.'

6.3.3 Teimlai'r ferch fod ei busnes yn cynnig gwasanaeth i'r gymuned am ei fod:

'yn bwysig iawn iddynt ddod allan a chael gwneud eu gwallt. Nid oes llawer o fusnesau yma, felly rydym yn helpu eraill drwy fod yma – yr effaith ddomino o bobl yn mynd i siopau eraill yn y dref pan fyddant yn cael gwneud eu gwallt. Mae llawer iawn o siopau wedi cau oherwydd y dirwasgiad.'

6.3.4 Roedd wedi nodi bod llawer o bobl yn gwario llai, er enghraifft byddent o'r blaen wedi gofyn am gael torri a sychu eu gwalltiau, ond yn awr roeddent yn gofyn am ei dorri'n sych. Roedd wedi dweud ar ei holiadur y byddai'n 'hoffi gweld mwy o gymorth ac arian i fusnesau bach oherwydd credaf y gallai wneud y gwahaniaeth rhwng aros mewn busnes neu beidio yn y cyfnod anodd hwn.' Yn sicr, roedd y gwasanaeth cymdeithasol yr oedd ei busnes yn ei roi i'r gymuned yn sylweddol. Roedd hyn yn cynnwys myfyrwyr o'r coleg lleol yn dod yno unwaith yr wythnos i ennill profiad gwaith, a disgyblion ysgol yn yr un modd. Roedd disgyblion o ysgol arall wedi gallu ennill NVQ1 drwy ddod yno. Roedd y busnes hefyd yn cynnig yr holl de a choffi yn ddi-dâl ar gyfer bore coffi blynyddol Ymddiriedolaeth Ganser Macmillan.

6.3.5 Ei chwyn benodol yn erbyn y system rhyddhad ardrethi oedd

'Mae'n rhaid imi dalu ardrethi cyngor o 50 y cant ar gyfer y fflat wag uwchben fy salon. Nid wyf wedi gallu ei rhentu allan oherwydd bod yna hysbysiad gwella arni gan y Cyngor cyn imi brynu'r adeilad. Nid wyf wedi gallu gwneud y gwaith oherwydd nid oedd yr arian gennyf.'

6.4 Busnesau Stryd Fawr mewn Ardaloedd Gwledig

6.4.1 Dewiswyd tri busnes o'r sector Adwerthu, i gyd gyda siopau ar y stryd fawr.

6.4.2 Y cyntaf oedd siop yn gwerthu carpedi, gorchuddion llawr finyl, nwyddau ffansi, dillad gwelyau, llenni ayb, mewn pentref yng nghymoedd y De sydd wedi bod mewn busnes am bron i 30 mlynedd ac sy'n cyflogi un aelod o staff llawn amser ac un rhan amser. Roedd derbyn rhyddhad ardrethi yn hynod bwysig i'r busnes hwn a hebdo, byddent yn sicr yn gorfod cau.

'Mae mor ddrwg fel bod angen yr arian arnom, nid yw'n beth dibwys i ni.'

6.4.3 Pan aeth lefel y rhyddhad i lawr o 50 y cant i 25 y cant y llynedd dim ond ar sail maint yr eiddo, ac nid ar sail eu henillion archwiledig, bu bron iddynt orfod cau. O ystyried y dirwasgiad a'r ffaith nad yw'r busnes yn gallu aros yn y du, mae'r tad, sy'n pasio'r busnes ymlaen i'w fab, wedi awgrymu cau'r siop os 'nad yw'n gallu gwneud iddi dalu erbyn y Nadolig.'

6.4.4 Dywedodd:

'Mae'r refeniw is oherwydd y dirywiad cyffredinol yn yr ardal yma, dim byd arall - nid y gystadleuaeth oherwydd mae'r siopau carpedi mawr dros 5 milltir i ffwrdd, ac maen nhw bob amser yn ein curo ar brisiau. Mae'r ardal yma'n ddigalon iawn, mae pobl ar yr isafswm cyflog hyd yn oed os medrant ddod o hyd i waith ac yn debygol o fod ar y cyflog hwnnw am byth. Mae dau d• tafarn wedi cau, mae clwb y Lleng Brydeinig a siopau wedi mynd.'

Teimlai na allai ateb cwestiwn 10 ar yr holiadur a oedd yn holi ynghylch ardrethi fel canran o'r trosiant oherwydd bod ei refeniw wedi bod yn gostwng o un flwyddyn i'r llall.

6.4.5 Roedd yn gweld y rhyddhad ardrethi fel rhywbeth hanfodol i ddyfodol busnesau bach sydd o fudd i'r gymuned gan ddadlau y dylai'r rhyddhad fod yn seiliedig ar y budd hwnnw yn hytrach nag ar werth ardrethol yr eiddo. Mae ei ddadl yn un ddeublyg. Yn gyntaf, ganddo ef y mae'r eiddo busnes mwyaf yn y dref (pedair gwaith y maint cyfartalog) ac er bod ei enillion yn debyg i enillion busnesau eraill, mae'r lleill yn dal i dderbyn rhyddhad ardrethi o 50%. Yn ail, mae'n dadlau:

'Mae ein siop ni'n helpu pobl i dalu'n wythnosol am bethau hanfodol i'r cartref na fyddent fel arall yn gallu eu fforddio - mae llawer iawn o bensiynwyr a phobl ifanc sy'n priodi yn talu drwy gredyd - credyd sydd wedi'i greu ers 30 mlynedd gyda'r teulu. Rydym hefyd yn gwneud danfoniadau cartref i bensiynwyr, pobl anabl ayb, ond nid yw hyn yn cael ei ystyried o gwbl. Yn yr oes sydd ohoni, credwn fod ein siop ni'n

fwy hanfodol i'r gymuned na Swyddfa'r Post, sy'n derbyn 100% o ryddhad.'

Pan ofynnwyd a oedd y rhyddhad ardrethi'n ei annog i ddefnyddio ei fusnes a'i adnoddau i gefnogi'r gymuned, ei ateb oedd:

'Nid oes llawer yn digwydd yma ar y funud. Mae'r clybiau pysgota'n cau. Dim ond un gymdeithas bysgota sydd ar ôl yn yr ardal, lle oedd pump unwaith.'

Felly, mae eu busnes cyfarpar pysgota wedi mynd oherwydd bod llai o werthu, roeddent hefyd yn arfer â rhoi gwobrau ac yn arfer â rhoi darlithoedd ar bysgota yn yr ysgol. Meddai hefyd:

'Arferai fy ngwraig â galw heibio pensiynwyr i fesur ar gyfer llenni a charpedi, yn ddi-dâl, ond bu'n rhaid iddi roi'r gorau i hynny oherwydd y diffyg galw.'

6.4.6 Yr ail fusnes oedd fferyllfa / siop bapur newydd mewn pentref gwledig yng nghanolbarth Cymru. Mae'r siop yn cyflogi pum staff llawn amser ac un rhan amser ac wedi bod mewn busnes ers 1995. Er iddynt ddweud nad oedd derbyn y rhyddhad ardrethi wedi bod yn ffactor bwysig i aros mewn busnes dros y 12 mis diwethaf, teimlai'r perchennog y bydd efallai'n ffactor bwysicach yn y 12 mis nesaf oherwydd mai ond nawr y mae'r dirwasgiad yn eu taro. Cyflwynodd achos cyffredinol os nad penodol dros roi rhyddhad i fferyllfeydd, fel a ganlyn:

'Mae sawl darn ymchwil (gan gynnwys rhai a wnaed ar ran y llywodraeth) wedi adnabod 3 busnes craidd sy'n angenrheidiol i gynnal neu dyfu cymunedau busnes bach. Y rhain yw ffynhonnell arian (Swyddfa'r Post), meddygfa a fferyllfa. Mae swyddfeydd post wedi eu heithrio, ac mae ardrethi'n cael eu talu i feddygfeydd. Roedd y practis hwn yn derbyn rhyddhad ardrethi disgresiynol ar sail y senario honno, ond pan wnaed i ffwrdd â rhyddhad ardrethi disgresiynol a chodi

Ardrethi Busnesau Bach @ 25%, gwaethygodd y sefyllfa i fusnes gyda chostau uchel.'

Yn y cyfweiliad, ychwanegodd:

'Pan oedd mwy o sail ddisgresiynol i gynghorau roi rhyddhad ardrethi, roeddent yn gallu rhoi 100 y cant i'r fferyllfa hon. Cafodd ei ysgogi pan gollwyd olew oddi ar arfordir Sir Benfro a'u bod am helpu'r busnesau hynny a oedd yn cyfrannu at dwristiaeth.'

Erbyn hyn, roedd y rhyddhad ardrethi'n cael ei weld fel swm mor fach fel ei fod yn cael ei lyncu gan y busnes, ond

'pan oedd yn swm sylweddol, roedd ochr fferyllfa'r busnes yn gallu tyfu (yn lle ochr bapur newydd y busnes).'

6.4.7 Teimlai y byddai rhoi swm sylweddol o ryddhad ardrethi'n rhoi neges bod awdurdodau lleol yn cefnogi'r gwasanaeth gofal iechyd ac yn gweithio gyda'r GIG i weld pa ddarpariaeth oedd ei hangen. Teimlai hefyd fod y rhyddhad yn ei annog i ddefnyddio ei fusnes a'i adnoddau i gefnogi'r gymuned.

'Mae'r GIG yn talu am rai pethau, ond mae eraill lle nad oes galw mawr amdanynt ac mae angen llawer iawn o hyfforddi ar eu cyfer, e.e. gwasanaethau ailsefydlu cyffuriau a gwasanaethau atal cenhedlu brys yn y cartref.'

6.4.8 Ar y funud, mae'n parhau i adolygu'r gwasanaethau hyn oherwydd eu bod yn ymylol o ran refeniw o'i gymharu â chost eu darparu. Yn amlwg, byddai'n beth da pe gallent barhau i gynnig y gwasanaethau hyn oherwydd pe byddent yn dod i ben, mae'r fferyllfa agosaf y byddai'n rhaid i bobl fynd iddi ar gyfer gwasanaethau ailsefydlu cyffuriau tua 10 milltir i ffwrdd (ac efallai eu bod hwythau hefyd yn ystyried gwneud i ffwrdd â'r gwasanaeth). Mae

gweithgareddau eraill cymdeithasol eu natur a ddarperir ganddo, ond sydd dan fygythiad oherwydd y sefyllfa ariannol, yn cynnwys:

- a) mae wedi treulio llawer iawn o amser ar y GIG a chyrrff proffesiynol yn ceisio gwella gwasanaethau iechyd. Mae wedi gorfod torri'n ôl ar hyn, yn rhannol am resymau ariannol, ac
- b) mae'n cefnogi elusennau cenedlaethol a lleol drwy roi arian a rhoddion. Mae wedi llwyddo i adfachu'r rhain, a byddent yn cael eu hadolygu ymhellach pe bai'r rhyddhad yn cael ei dorri. Er enghraifft, mae'n dal i roi i'r elusennau canser a phlant ond, yn anffodus, bu'n rhaid iddo roi'r gorau i roi i'r Lleng Brydeinig.

6.4.9 Roedd y trydydd cyfweiliad gyda pherchennog siop sy'n gwerth syrplys y fyddin. Mae wedi'i lleoli mewn tref farchnad fechan yng Nghanolbarth Cymru ac yn cyflogi pedwar staff llawn amser a dau rhan amser. Mae derbyn y rhyddhad yn hynod bwysig iddo, mwy nag erioed heddiw yn y dirwasgiad. Mae'n ei ddefnyddio i gadw ei brisiau i lawr ac i sicrhau bod o leiaf rhywfaint o elw'n cael ei wneud. Eglurodd:

'Nid oes gan fusnesau gwledig y bobl sydd yn y dinasoedd ac oherwydd y gwyddoch fod yn rhaid ichi gael cwsmeriaid triw, rhaid ichi ddibynnu ar gymorth lleol felly, os gallwch droi unrhyw arbedion yn brisiau is, mae gennych fwy o siawns o'u cadw fel cwsmeriaid - mae'r cwbl yn fater o aros yn gystadleuol. Mae yna lawer iawn o bwysau o bob man ac mae'r rhyddhad ardrethi'n glustog yn eu herbyn. Pe bai'r rhyddhad yn mynd, byddai'n golygu prisiau uwch. O ystyried y duedd i incwm ostwng, bydd hyd yn oed y cynnydd mewn TAW yn golygu llai o incwm oherwydd mae'n rhaid ichi geisio cadw'r un prisiau ag o'r blaen i gystadlu gyda'r siopau mwy.'

Mae'n ddig bod y siopau mawr fel Tesco, sy'n gallu ehangu i feysydd ar wahân i fwyd, wedi cael caniatâd gan awdurdodau lleol i agor mewn trefi bach yng nghefn gwlad. Mae'n teimlo bod angen pob cymorth posibl ar fusnesau

gwledig a bod y rhyddhad yn gallu gwneud y gwahaniaeth rhwng cyflogi rhywun neu beidio.

6.4.10 Hefyd, yn yr holiadur, dywedodd fod y rhyddhad ardrethi

'yn golygu y medraf gynnig prisiau a gwerth gwell i fy nghwsmeriaid, gan obeithio felly y byddaf yn aros yn broffidiol a pharhau i gynnig gwaith hanfodol i bobl leol sydd heb fawr o obaith dod o hyd i gyflogaeth 'broffesiynol'.

Meddai 'fe hoffwn ehangu'r adeilad presennol ond rwyf yn poeni y byddai'r ardrethi ychwanegol ar le mwy yn golygu na fyddai'n hyfyw gwneud hynny.'

6.4.11 Mae'n teimlo bod y rhyddhad ardrethi'n swm pwysig iawn iddo ef yn ariannol ond fel arwydd o gymorth gan Lywodraeth y Cynulliad, ei feirniadaeth o hynny yw:

'mae'n ymdrech wan, h.y. i gynnal cymunedau lleol, mae angen iddynt ymrwymo am gyfnod o dair blynedd dyweder, fel bod busnesau'n gallu cynllunio i fuddsoddi mewn adeiladau ayb. Mae rhywun o hyd yn cael y teimlad nad yw'n gymorth go iawn oherwydd y gallai ddiflannu unrhyw funud.'

Mae hefyd yn meddwl bod rhyddhad ardrethi'n annog busnes i gefnogi'r gymuned – perthynas bartneriaeth. Mae'n cefnogi elusennau a digwyddiadau lleol naill ai drwy roi nwyddau am ddim ar gyfer gwobrau raffl, neu drwy noddi. Mae yna hefyd le yn ei siop i bobl osod hysbysebion yn ddi-dâl. Mae'r amseroedd agor hefyd o wasanaeth i'r gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi gan mai ond am bedwar diwrnod yn y flwyddyn y maent ar gau.

6.5 Mae costau busnes uchel yn ei gwneud yn anodd i fusnesau bach ehangu

6.5.1 O'r sector Gweithgynhyrchu ac Adeiladu, gwnaethom gyfweld dau gwmni, y ddau wedi eu lleoli ar stadau busnes dinas yn Ne Cymru.

6.5.2 Y cyntaf oedd cwmni adeiladu, ffitiwr siopau, yn cyflogi 23 o staff llawn amser ac un rhan amser. Roedd wedi bod mewn busnes ers 1984.

Dywedodd y perchennog fod derbyn y rhyddhad ardrethi wedi bod yn bwysig i'r cwmni aros mewn busnes dros y 12 mis diwethaf a'i fod wedi helpu i gynnal y lefelau staffio a lleihau'r colledion masnachu. Eglurodd ei bwysigrwydd ymhellach:

'Yn yr argyfwng economaidd yr ydym ynddo, mae rhyddhad ardrethi'n gwbl hanfodol i fusnes bach oherwydd lleia'n byd o staff a gyflogwch, mwya'n byd o wahanol waith sydd angen iddynt ei wneud yn hytrach nag arbenigo, fel mewn busnes mwy. Felly ni allwn ni brisio mor ymosodol yn erbyn cwmni mwy. Gyda'r rhyddhad ardrethi, mae'r gost gyfartalog/£ yn is, felly mae'r prisiau a ofynnwn yn fwy cystadleuol. Rydym mewn gwlad o ofynion cyflog uchel, ond mae angen gweithgynhyrchu ar y wlad yma ac, yn amgylcheddol, mae'n well na mewnfario. Maen nhw'n fusnes Draig Werdd ac felly'n malio am yr amgylchedd. Mae angen cymorth arnynt i wneud hyn.'

Mae'n teimlo

'fod y costau busnes yn gyffredinol sydd eu hangen ar bwrs y wlad, p'un ai drwy ardrethi, costau cyflogaeth, TAW, Yswiriant Gwladol, cynllunio, iechyd a diogelwch, ISO, treth, pensiynau ayb, erbyn hyn yn gost echrydus i'w gweinyddu yn nhermau arian neu bobl. NID YW'R costau hyn yn datblygu busnes, dim ond ei ATAL. Nid oes yr un busnes yn camddefnyddio'r arbedion (o ryddhad ardrethi), fe'i defnyddir i symud y busnes yn ei flaen oherwydd nid oes unrhyw

fusnes am symud yn ôl, ond mae hynny'n golygu buddsoddi mewn seilwaith, pobl, peirianwaith a marchnata.'

6.5.3 Dywedodd fod y busnes wedi bod yn rhedeg ar golled ers yr wyth mis diwethaf a phe bai'r rhyddhad ardrethi'n mynd, byddai'n golygu diswyddo rhywun. Roeddent yn ceisio cadw'r un nifer o weithwyr fel na fyddent, pan fyddai'r economi'n tyfu eto, wedi colli unrhyw arbenigedd a phrofiad er mwyn gallu mwynhau'r adferiad.

'Byddai pobl a hyfforddiant (ISO, IPP) yn dioddef – felly mae'n gwbl hanfodol ei gael (rhyddhad ardrethi) tra'n atal unrhyw effeithiau yn sgîl hynny i deuluoedd y gweithwyr hynny.'

Pan ofynnwyd iddo a oedd yn meddwl bod y rhyddhad yn ei annog i ddefnyddio ei fusnes a'i adnoddau i gefnogi'r gymuned, atebodd ei fod yn ei helpu i ddiogelu swyddi ac felly i gynnal y teuluoedd. O ran gwaith arall o natur gymdeithasol, nid oes ganddo'r amser. Roedd yn rhaid iddo ganolbwyntio ei ymdrechion i gyd ar ei fusnes. Ychwanegodd y byddai wrth ei fodd yn rhoi amser i waith elusennol ond y byddai'n gweld hyn fel gwaith tramor lle mae llawer mwy o angen.

6.5.4 Yr ail oedd gweithgynhyrchydd pasteiod a phastenni organig, mewn busnes ers 2007 ac yn cyflogi 2 staff llawn amser a 2 rhan amser. Dywedodd:

'mae'r rhyddhad ardrethi'n aruthrol bwysig i fusnes bach, ifanc sydd ar ei brifant. Mae'n barod wedi gadael inni ehangu i fwy o le, rhywbeth na fyddem wedi gallu fforddio ei wneud hebddo. Mae'n newid yr achos busnes dros ehangu i fwy o le – ac yn lleihau risg yr ehangu.'

Aeth ymlaen i ddweud yn y cyfweiliad:

'Mae'n ddrud iawn sefydlu busnes y dyddiau hyn, yn enwedig ym maes bwyd oherwydd iechyd a diogelwch, a rydym yn defnyddio llwyth o drydan a d• r. Oherwydd ein bod yn y sector bwyd organig, mae'n beth

da i'r busnes gael ehangu. Pan ddaeth uned arall ar y stâd ar gael ac wrth benderfynu p'un ai i ehangu neu beidio, mae rhywun yn edrych ar yr isafswm cost sefydlog a, chan fod yr ardrethi'n is oherwydd y rhyddhad, roedd yn golygu ein bod wedi gallu gwneud hynny.'

Pe na bai'r rhyddhad wedi bod ar gael, nid oedd yn si• r a fyddai wedi mynd am yr ail uned a byddai efallai wedi aros hyd nes oedd yr uned bresennol yn orlawn.

6.5.5 Ar bwnc rhyddhad ardrethi fel arwydd clir o gymorth i fusnesau bach gan Lywodraeth y Cynulliad, dywedodd:

'Rwyf wedi buddsoddi'n helaeth yn y busnes hwn ac, yn wahanol i bobl mewn swyddi corfforaethol ac yn y sector cyhoeddus, mae llawer iawn o bobl gyda busnesau bach yn crafu am ychydig gannoedd o bunnau pob mis. Dylem fod yn rhoi cymhellion ariannol i entrepreneuriaid os ydym am i Brydain gael ysbryd entrepreneuriaidd, h.y. pe byddai gennym 100,000 o gwmnïau yn cyflogi pedwar o bobl, byddai hynny'n golygu llawer llai o bobl ar y dôl.'

Mae'n teimlo:

'mae'r DU wedi'i sefydlu i bawb weithio yn Tesco neu i gwmnïau corfforaethol mawr neu'r sector cyhoeddus'

a hefyd, mae'n ddig bod yn rhaid iddo dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol pobl ddi-grefft pan ddylai **dderbyn cyfraniad** o 10% am gyflogi pobl o'r fath.

6.5.6 Nid oedd yn meddwl bod y rhyddhad yn ei gymell yn ymwybodol i ddefnyddio ei fusnes neu adnoddau i helpu'r gymuned. Ond meddai:

'yn anuniongyrchol, efallai, oherwydd rydym wedi cymryd yr uned arall ac wedi defnyddio bachgen lleol i'r ffitio ac, yn amlwg, mae yna effaith luosydd leol o ehangu. Rydym yn prynu cig eidion a deunydd pecynnu

lleol, felly os yw ein busnes ni'n tyfu, mae hynny hefyd yn effeithio arnyn nhw.'

Nid oes ganddo'r amser i wneud unrhyw beth o natur gymdeithasol yn y gymuned oherwydd:

'mae'n fwy na gwaith llawn amser cadw'r busnes i fynd – ni fyddai cyflogi mwy o bobl yn hyfyw – ond mae'n gweithio 70-90 awr yr wythnos felly mae'n waith hynod flinedig heb amser i wneud dim ond bwyta a chysgu. Fe hoffwn wneud rhywbeth sy'n gysylltiedig â'r busnes fel dysgu plant ysgol i fwyta'n iach – byddai ganddo ffocws busnes oni bai fod rhywun yn filiwnydd!'

6.6 Busnesau hamdden yn gweld rhyddhad ardrethi fel achubiaeth

6.6.1 O'r categori cwmnïau 'Eraill', rhai nad oedd wedi eu dyrannu i unrhyw un o'r sectorau amlwg eraill, gwnaethom ddewis cyfweld rheolwr ali bowllo deg. Mae ei fusnes wedi'i leol mewn tref yng Nghanolbarth Cymru ac mae'n cyflogi pedwar o staff llawn amser, chwech rhan amser ac un gweithiwr achlysurol. Mae'n teimlo bod y rhyddhad yn hanfodol i aros yn broffidiol a dywedodd ei fod wedi bod yn ffactor bwysig iawn i aros ar agor dros y 12 mis diwethaf. Mae'n teimlo'n gryf:

'bod angen y cymorth hwn ar gymunedau gwledig i ddenu busnesau fel un ni (ali bowllo deg) pryd oedd raid i bobl deithio 50+ o filltiroedd o'r blaen. Mae'r heddlu a'r gymuned leol yn gwerthfawrogi'r cyfleusterau fel rhywbeth i bobl ifanc ei wneud. Mewn dinas fawr, mae'r niferoedd yn uchel felly medrant fforddio cadw'r prisiau'n isel. I ni, mae angen y cymorth arnom i gadw'r pris yn ddigon isel fel bod pobl yn ein defnyddio.'

'Mae'n achubiaeth a dweud y gwir, mae'n lle braf i fyw ac mae angen rhywbeth i'w wneud gyda'r nos ar blentyn 14 oed. Mae'n rhywbeth y

bydd yn **rhaidd i'r Cynulliad ystyried** ei wneud. Pe na byddem yn ei dderbyn (y rhyddhad), byddai'n rhaid ichi feddwl beth arall i'w wneud.'

Pan ofynnwyd a oedd y rhyddhad ardrethi'n ei annog i ddefnyddio ei fusnes a'i adnoddau i gefnogi'r gymuned, ei ateb oedd:

'Ie, yn bendant, yn enwedig mewn cymuned anghysbell fel hon. Rydym yn trefnu cystadlaethau (yn ddi-dâl) yn yr ysgolion ambell i fore.'

Mae'r ysgolion hefyd yn defnyddio eu talebau bowllo deg (chwarae am ddim) i annog darllen llyfrau.

6.7 Pe bai'r rhyddhad yn cael ei leihau, ni fyddai'r gwaith gwirfoddol yn dioddef ond byddai'n rhaid torri'n ôl ar hyfforddiant

6.7.1 Er i'r rhan fwyaf o'r busnesau o'r sector Gwasanaethau Proffesiynol a ymatebodd i'n holiadur ddweud nad oedd y rhyddhad yn bwysig iawn iddynt, roedd Cyfarwyddwr asiantaeth gyflogaeth mewn tref lan y môr yng Ngogledd Cymru yn anghytuno. Dywedodd fod derbyn rhyddhad ardrethi yn golygu'r canlynol:

'Mae gallu cadw'r costau swyddfa i lawr, yn enwedig yn ystod dirwasgiad, wedi golygu gallu cadw ein staff mewn cyflogaeth lawn.'
'Mae'r rhyddhad yn gadael inni fuddsoddi mewn adnoddau staff a gwella cyfathrebu a chyfarpar TG fel y gallwn ddarparu ein gwasanaethau'n brydlon ac effeithlon i'n cwsmeriaid.'

Yn y cyfweiliad, ychwanegodd:

'Yn amlwg, mae angen inni gadw ein costau i lawr gymaint â phosibl ac mae'r asiantaethau cenedlaethol yn cystadlu yn ein herbyn. Rhaid inni geisio cynnal safon ein gwasanaeth. Mae gwasanaeth o safon yn golygu ymateb yn ddi-oed i geisiadau ein cwsmeriaid, gan ddarparu gwasanaeth personol wedi'i deilwrio, a gallu datrys problemau yn

gyflym iawn. Mae rhyddhad ardrethi'n ffactor yng nghost ein gorbenion swyddfa ac yn ffactor wrth brisio cyflogi staff dros dro, e.e. os yw cwmnïau'n ceisio cael disgownt ar gost cyflog rhywun, yna gallwn ni ei roi oherwydd ein bod yn derbyn peth rhyddhad.'

Pe bai'r rhyddhad ardrethi'n cael ei ddileu,

'Byddai angen inni edrych ar ein costau eraill er ein bod wedi torri ar y rhain gymaint â phosibl. 'Mae'n debyg y byddai angen inni dorri'n ôl ar hyfforddiant a chostau hysbysebu ond mae ein cyllideb yn isel yn barod. Rydym yn cyflenwi'r sector cyhoeddus gyda staff dros dro, felly byddwn yn wynebu toriadau i hyn hefyd yn y dyfodol.'

Dywedodd eu bod wedi rhewi cyflogau eu staff am eleni.

6.7.2 Ei chwyn yn erbyn y system rhyddhad ardrethi yw ei bod yn credu bod y gwerthusiad ardrethi ar gyfer ei busnes wedi'i osod yn ôl:

'y Gwerth Ardrethol cyffredinol ar gyfer y Stryd Fawr ond nid oes gennym fynedfa i'r Stryd Fawr a rydym ar y lloriau cyntaf ac ail yn yr adeilad felly nid ydym yn cael unrhyw bobl yn galw heibio. Nid yw hyn yn darparu tegwch cystadlu. Mae ardrethi uchel wedi ein rhwystro rhag symud o swyddfa ar y llawr cyntaf (gyda mynedfa stryd gefn) i swyddfa ar y llawr gwaelod gyda drws allan i'r Stryd Fawr.'

6.7.3 O ran y cymorth i fusnesau'n gyffredinol, teimlai fod y rhyddhad ardrethi'n gynllun da oherwydd o leiaf roedd gan y Cyngor restr gynhwysfawr o fusnesau oherwydd, pe bai cymorth yn cael ei ddarparu drwy gynllun arall, gallai rhai busnesau golli allan. Yn ei barn hi:

'Os rhoddwch ryw fath o gymhelliad ariannol i fusnes bach, bydd yr arbedion a wnânt yn bendant yn cael ei ddefnyddio ar bethau fel peiriant argraffydd neu lungopiwr newydd a fyddai'n cynyddu'r llif gwaith ac yn gwella ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid.'

O ran y gwaith gwirfoddol y mae'n ei wneud i'r gymuned, mae wedi bod yn gyfarwyddwr gwirfoddol gyda'r rhwydwaith busnes lleol dros y 5 mlynedd diwethaf ac yn ymddiriedolwr gyda chwmni sy'n darparu hyfforddiant i bobl gydag anableddau dysgu. Mae wedi bod yn gwneud hyn yn wirfoddol ers 19 o flynyddoedd. Ni allai ragweld y byddai'r gwaith hwn yn dioddef pe bai'r rhyddhad ardrethi'n cael ei dorri.

6.8 Pe bai'r busnes yn cau, byddai busnesau lleol eraill yn colli masnach

6.8.1 Dewiswyd perchnogion dau fusnes o'r sector Llety i gael eu cyfweld.

6.8.2 Y cyntaf oedd perchennog bwthyn gwyliau mewn ardal wledig yn ne Cymru. Maent yn cyflogi dau weithiwr rhan amser a dau achlysurol gan sefydlu'r busnes yn 2005. Roedd derbyn rhyddhad ardrethi wedi bod yn ffactor bwysig iddynt aros mewn busnes dros y 12 mis diwethaf a meddent:

'mae'n gwneud busnes twristiaeth sy'n ymylol broffidiol yn un hyfyw. Mae'r holl fusnesau yn fy sector i yn fach ac yn gymwys i dderbyn rhyddhad ardrethi, felly nid yw'n effeithio ar y tirlun cystadleuol sy'n lleol i Gymru. Fodd bynnag, mae'n sicr yn helpu wrth gystadlu gyda chyrchfannau tramor cost isel fel Groeg a Sbaen.'

Yn y cyfweiliad, ychwanegodd:

'Yn ariannol, mae'n amheus a ydyw'n fusnes proffidiol. Mae'r asiantaeth genedlaethol a weithredwn drwyddynt yn codi comisiwn sylweddol ac unwaith yr ystyrir y dreth incwm a'r gost amser, mae'n anodd cyfiawnhau'r achos busnes.'

6.8.3 Pe bai'r rhyddhad ardrethi'n cael ei leihau'n sylweddol, dywedodd y byddai'n ymgorffori'r bwthyn gwyliau unwaith eto o fewn gweddill eu t• oherwydd y byddai hynny ond yn cynyddu eu bil ardrethi domestig o un band, a fyddai'n gweithio allan yn rhatach na gorfod talu dau fil ardrethi. Pan gododd eu gwerth ardrethol yn ddiweddar o 30 y cant dros nos (am ddim rheswm i bob golwg) ac nid oedd unrhyw ryddhad dros dro, bu'n rhaid iddynt ystyried o ddifrif a fyddent yn parhau gyda'r busnes. Fel y mae pethau, mae derbyn y rhyddhad:

'yn gadael inni uwchraddio'r eiddo a'i gadw fel bwthyn 4*. e.e. rhoesom oer-rewgell yn y bwthyn eleni a chawod b• er y llynedd. Pe bai'r rhyddhad yn cael ei dorri, byddai economeg cadw'r bwthyn yn 4* yn lle 3* yn golygu na fyddai'r bwthyn yn cael ei osod llawer mwy, ond byddai'n costio llai i'w gadw felly. Pe bai ond yn 3*, byddem yn gwneud i ffwrdd â'r teledu plasma sgrîn lydan ac yn rhoi teledu cyffredin a chwaraewr DVD yn ei le.

Ychwanegodd fod effaith seicolegol derbyn y rhyddhad ardrethi wedi cael ei lladd i raddau gan effaith negyddol yr ailbrisio.

6.8.4 Pan ofynnwyd a oedd y rhyddhad ardrethi'n eu hannog i ddefnyddio eu busnes neu adnoddau i gefnogi'r gymuned, atebodd:

'Na, nid yw'r busnes yn gwneud digon o arian inni fedru gwneud hynny. Nid oes unrhyw beth a brynwn yn lleol – mae ein cynhyrchion i gyd ar gyfer y bwthyn yn cael eu prynu y tu allan i'r ardal. Ond mae'r bwthyn yn cael ei osod yn eithaf aml ar gyfer gwesteion priodasau pobl leol a byddai hynny'n diflannu pe bai'n rhaid inni gau. Mae'r bobl sy'n aros yma'n siopa yn y siop fwyd leol, yn defnyddio'r modurdy a'r dafarn ac yn mynychu digwyddiadau ac atyniadau lleol, felly byddai gorfod cau yn effeithio arnynt hwythau hefyd.'

6.8.5 Yr ail fusnes oedd Gwely a Brecwast mewn tref lan y môr yng Ngogledd Cymru. Maent yn cyflogi dau staff llawn amser a dau achlysurol gan sefydlu'r busnes yn 2005. Roedd rôl y rhyddhad ardrethi yn eu barn nhw fel a ganlyn:

'Ers inni brynu'r busnes yn 2005, nid ydym wedi gallu bod yn broffidiol, rydym yn awr wedi'i uwchraddio drwy fuddsoddi ac mae angen iddo bellach fod yn broffidiol i aros ar agor. Mae'r rhyddhad ardrethi'n rhan bwysig o helpu i wneud hyn. Er bod y rhyddhad efallai'n fach o'i gymharu â'r costau'n gyffredinol, mae pob dim yn cyfrif i fusnes bach ac, felly, mae'n hynod bwysig.'

Dywedodd nad ydynt yn neilltuo'r rhyddhad at ddefnydd arall. Pe bai'r rhyddhad yn cael ei dorri, byddai'n rhaid iddynt dorri'n ôl ar eu gwariant, a'r pethau cyntaf i fynd fyddai'r 'ecstras' a roddir i'r ymwelwyr, e.e. siocledi croeso, mwy o fefus i frecwast, sebon heb fod cystal. Pan ofynnwyd sut oedd Llywodraeth y Cynulliad yn helpu drwy roi'r rhyddhad ardrethi, atebodd: 'Mae'n ffordd o helpu busnesau bach a rhai sydd newydd sefydlu mewn cyfnod anodd.'

6.8.6 Pan ofynnwyd a oedd y rhyddhad ardrethi'n ei annog i ddefnyddio ei fusnes a'i adnoddau i gefnogi'r gymuned, ei ateb oedd:

'I raddau mae'n cefnogi'r gymuned oherwydd rydym yn ceisio prynu pethau'n lleol – cig a bacwn sy'n lleol i Ynys Môn, gallem brynu'n rhatach yn Tesco pe bai angen.'

Roedd pethau eraill yr oeddent yn ei wneud i gefnogi'r gymuned yn cynnwys noddi rhai o wobrau a rafflau'r ysgol. Maent yn talu am hysbyseb yn y rhaglenni digwyddiadau lleol, sy'n rhoi cymorth ariannol iddynt.

6.9 Busnesau a goroesi yng nghymoedd Cymru

6.9.1 Dewiswyd perchennog ystafell de / caffi rhynggrwyd i gael ei chyfweld o'r sector Arlwyo. Mae'n hunan-gyflogedig ac agorodd ei siop yn 2007. Mae wedi'i lleoli mewn cyn-bentref glo yn un o gymoedd y De. Dywedodd:

'Arferai llawer o siopau â bod yma – erbyn hyn dim ond llond llaw sydd ar ôl i'r bobl leol ddibynnu arnynt. Mae'r rhyddhad ardrethi'n hanfodol oherwydd mae'r boblogaeth yn dal i fod yma, ond mae'r incwm wedi mynd. Mae yma dai gwag yn barod – mae angen gwaith ar bobl. Nid yw incwm y siop yn llawer oherwydd nid yw'r bobl yn gefnog.'

6.9.2 Pwysleisiodd y ffaith fod y rhyddhad ardrethi

'yn helpu'r busnes i oroesi. Mae'r rhyddhad ardrethi wedi bod yn rhyddhad, yn enwedig dros y cyfnod ariannol y mae'r wlad ynddi. Pe bai raid imi dalu'r swm cyfan, mae'n debyg y byddwn wedi colli'r busnes.'

6.9.3 Aeth ymlaen i ychwanegu y byddai colli'r rhyddhad

'yn golygu na fyddai unrhyw fusnesau yma a byddai'r bobl heb gyfleusterau. Mae llawer o'r bobl heb geir a phan ddaeth yr eira y Gaeaf hwn, ni allent ddod i nôl eu nwyddau i fyw.'

6.9.4 Dywedodd nad oedd yn ennill llawer mwy na chymorth incwm ond ei bod yn cadw'r siop i fynd oherwydd bod ei hangen ar y gymuned. Rhoddodd enghreifftiau o bethau eraill oedd y busnes yn eu darparu a oedd o fudd i'r gymuned:

- roedd yn cynnig cyfleusterau rhyngwrwyd
- yn lle pasio drwy'r dref neu eistedd ar eu pen eu hunain yn eu ceir, roedd llawer o bobl fasnach yn galw heibio'r caffi
- roedd yn cynnig 'clust' yn ddyddiol i'r bobl a oedd yn galw heibio
- gallai pobl adael pethau gyda hi i eraill eu casglu
- gallai grwpiau ac elusennau adael eu taflenni ac arddangos posteri yn y caffi.

Byddai budd y pethau hyn yn cael ei golli pe na bai ei busnes yn goroesi.

6.10 Rhyddhad ardrethi'n cael ei neilltuo ar gyfer trwsio, cynnal a chadw a gwella

6.10.1 Cafodd berchennog tafarn ar gyrion ardal o harddwch eithriadol yng nghanolbarth-de Cymru ei gyfweld. Roedd hefyd wedi rhoi amser i ysgrifennu llythyr hir wrth ymateb i'n holiadur. Roedd y cwpl wedi prynu'r dafarn 18fed ganrif yn 2005 ac wedi cyflogi dau staff llawn amser a phump rhan amser.

6.10.2 Dywedodd y ddau fod derbyn y rhyddhad ardrethi wedi bod yn bwysig iddynt yn y 12 mis diwethaf oherwydd ei fod wedi golygu eu bod wedi gallu gwneud gwelliannau.

'mae'r rhyddhad wedi cael ei neilltuo ar gyfer trwsio'r to. Mae'r cwpl yn helpu oherwydd mae'n helpu'r busnes i wella, mae'n gwneud iddo edrych yn llawer taclusach, yn enwedig i dwristiaid sy'n dod yma. Mae £2,000 yn llawer iawn o arian os gallwch ei fuddsoddi'n ôl yn yr adeilad a gwneud y gwaith eich hun.'

6.10.3 Dywedodd pe na bai'r rhyddhad ar gael y byddai'r ochr cynnal a chadw a gwelliannau'n mynd yn syth ac y byddai'n rhaid iddo ystyried cau oherwydd y byddai'r lle'n anniogel heb y gwelliannau a wnaeth i'r dafarn fel peiriannydd trydanol ac adeiladwr. Ychwanegodd pe bai'r rhyddhad yn cael ei dorri y 'byddai'n effeithio ar nifer y staff a gyflogwn a'r hyn a gynigiwn o ran adloniant.' Ar ôl i'r TAW o 20% gael ei gyflwyno, nid yw'n si• r a fydd yn gallu aros mewn busnes.

6.10.4 O ran helpu'r gymuned, meddai:

'rydym wedi helpu'r ysbyty lleol, drwy godi arian raffl ar gyfer canser. Pob wythnos, mae gennym botyn ar gyfer rhoddion sydd yna'n cael ei wagu.'

Y llynedd, llwyddwyd i godi £1,000 ar gyfer yr ysbyty cymunedol lleol, i dalu am deledu sgrîn fawr a ffaniau trydan.

6.11 Crynodeb o'r cyfweiliadau busnes

6.11.1 Roedd y rhan fwyaf o'r busnesau a holwyd yn ei chael yn anodd aros yn y du o ystyried y dirwasgiad. Hyd yn oed os nad oedd yn swm mawr yn ariannol, roedd y rhyddhad ardrethi'n gyfraniad derbyniol iawn i leihau eu gwariant a oedd eisoes yn cael ei dorri'n ôl ar bethau eraill er mwyn cadw'r busnes i fynd.

6.11.2 Ar y cyfan, nid oedd rhyddhad ardrethi'n cael ei neilltuo at unrhyw ddefnydd penodol, naill ai am ei fod yn swm cymharol fach neu am fod busnesau'n cael trafferth aros mewn busnes ac, felly, roedd yn cael ei roi yn y 'potyn busnes cyffredinol'.

6.11.3 Roedd llawer o fusnesau bach yn meddwl bod y rhyddhad ardrethi'n achubiaeth i gymunedau bach gwledig er mwyn cynnal busnesau a'r bobl eu hunain.

6.11.4 Roedd gwahaniaeth barn ynghylch a oedd y rhyddhad yn annog busnesau i ddefnyddio eu hadnoddau i helpu'r gymuned. Teimlai rai fod eu presenoldeb fel busnes yn gymorth i'r gymuned drwy effeithiau fel cyflogi staff neu brynu nwyddau lleol neu drwy ddarparu cwsmeriaid ar y diwrnod hwnnw i siopau eraill yn y Stryd Fawr y byddent efallai yn mynd iddynt ar eu 'bore yn y dref'. Ond pwysleisiodd eraill, fodd bynnag, nad oedd ganddynt yr amser i wneud unrhyw beth o natur gymdeithasol neu elusennol o ystyried bod eu busnes yn mynd â'u hegni i gyd.

6.11.5 Cafwyd digon o enghreifftiau o berchnogion y busnesau hyn yn gwneud gwaith gwirfoddol, elusennol a chymdeithasol. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys pethau fel rhoi nwyddau at rafflau digwyddiadau ac ysgolion lleol, noddi gwobrau ysgol a digwyddiadau lleol, danfon nwyddau'n ddi-dâl i gartrefi pobl fregus, cynnig te a choffi am ddim fel bod pobl yn gallu cymdeithasu.

6.11.6 Pan holwyd a fyddai yna lai o weithgareddau cymdeithasol neu wirfoddol pe bai'r rhyddhad yn cael ei dorri, dywedodd y rhan fwyaf na fyddai - roeddent yn ormod rhan o'u hethos, ond dywedodd rai eu bod eisoes wedi gorfod torri'n ôl ar roddion oherwydd y cyfyngiadau ariannol arnynt.

7 Grŵp ffocws gyda rhanddeiliaid y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau

7.1 Y rhai a fynychodd y grŵp ffocws

7.1.1 Dywedodd deuddeg o'r tri-ar-ddeg o sefydliadau a ofynnwyd iddynt fynychu'r grwpiau ffocws fod ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan yn yr ymchwil, gan ddangos pwysigrwydd parhaus y cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yng Nghymru. Oherwydd ymrwymïadau blaenorol ac amgylchiadau annisgwyl, cafwyd grŵp ffocws o saith. Roedd y sefydliadau a fethodd fynychu wedi cyfrannu at yr ymchwil yng ngham cyfweld rhanddeiliaid y gwaith ymchwil hwn.

7.1.2 Mae llawer o'r grwpiau cymorth busnes hyn yn rhedeg ar adnoddau staff tynn iawn felly mae'r tîm ymchwil yn cydnabod eu hymrwymiad amser i'r ymchwil gyda diolch.

Y rhai a fynychodd

Jan Alexander: Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw (IRRV)

Nia Davies: Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB)

Adrian Grearson-Walker: Cynghrair Twristiaeth Cymru

Frank Hurley: Ffederasiwn Genedlaethol Newyddion Adwerthu (NFRN)

Keith Richards: Ffederasiwn Genedlaethol yr Is-Bostfeistri (NFSP)

John Rowlands: Ffederasiwn Genedlaethol Newyddion Adwerthu (NFRN)

Ed Woodall: Cymdeithas y Siopau Hwylus (ACS)

Keith Jackson: Prifysgol Cumbria

Dr. Simon Parry: Prifysgol Cumbria

Yn ymddiheuro oherwydd amgylchiadau annisgwyl

Martyn Evans: Siambr Fasnach De Cymru

Ymrwymïadau Eraill

Jim Cathcart: Cymdeithas Gwrw a Thafarndai Prydain (BBPA)

Ben Cottam: Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA)

Abbie Shelton: Association of British Credit Unions Ltd (ABCU)

Miles Vaughan: Sefydliad Tai Tafarn Prydain (BII)

Busnesau oedd wedi eu cynrychioli yn y grwpiau ffocws

7.1.3 Roedd y sefydliadau yn y grwpiau ffocws yn cynrychioli busnesau o bob maint o fusnesau meicro i rai bach a chanolig (Ffederasiwn y Busnesau Bach/NFRN/NFSP/ACS) a busnesau bach a chanolig i'r sefydliadau mwy (ACS a'r WTA).

7.1.4 Roedd y sectorau penodol yng nghyswllt y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yn cynnwys swyddfeydd post (NFSP), siopau adwerthu (ACS a NFRN); busnesau twristiaeth (WTA); sector busnesau bach yn gyffredinol (Ffederasiwn y Busnesau Bach) a rhai sy'n gyfrifol am brisiadau ardrethol.

7.1.5 Roedd gweithgareddau'r grwpiau yng nghyswllt rheoliadau a chyrrff rheoleiddio yn amrywio o:

- dehongli rheoliadau a chynnig cyngor i aelodau
- cynnig cyngor i aelodau a rhywfaint o lobio ar faterion penodol sy'n effeithio ar eu haelodau
- lobio ar faterion rheoleiddio sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu haelodau'n gyffredinol
- comisiynu a chyfrannu at ymchwil genedlaethol i anghenion rheoleiddio yr aelodau a chyfrannu at ymgynghori gan y llywodraeth cyn cyflwyno rhaglenni rheoleiddio newydd
- rhoi cymorth proffesiynol i swyddogion prisio.

7.1.6 Cyflwynwyd crynodeb cyffredinol o ddarganfyddiadau'r ymchwil hyd yma. Roedd hyn yn cynnwys darganfyddiadau:

- o'r llenyddiaeth, bod yn rhaid i bob cynllun cymorth i fusnesau fod yn deg, ymarferol a hygyrch.
- o drafodaethau gyda phedair gwlad y DU, bod gan pob un o'r cynlluniau rhyddhad ardrethi ddulliau fymryn yn wahanol oherwydd iddynt gael eu sefydlu ar wahanol adegau yn ateb i wahanol amodau busnes
- o gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid busnes, bod:
 - o cefnogaeth ar y cyfan i'r cynllun presennol yng Nghymru
 - o bod y wasgfa economaidd bresennol yn golygu bod rhyddhad ardrethi yn bwysicach fyth i fusnesau
 - o bod rhyddhad ardrethi yn ddull o roi cymorth i fusnesau ymylol neu i fusnesau mewn ardaloedd ymylol
 - o bod rhyddhad ardrethi'n gallu achosi canlyniadau anfwriadol oherwydd ei fod yn seiliedig ar eiddo ac nid y busnes
 - o bod angen gwneud mwy i wneud buddiolwyr y Cynllun yn ymwybodol o'r fantais a roddir iddynt drwy'r rhyddhad ardrethi.

7.1.7 Cynigiwyd hefyd grynodedd cyffredinol o'r cyfweiliadau dros y ffôn gyda sampl o fusnesau a ymatebodd i'r holiadur:

- mae masnachu'n anodd
- nid yw'r rhan fwyaf yn gwneud unrhyw elw neu maent yn y coch
- maent yn parhau i gyflogi staff lle medrant
- aros ar agor yw eu cyfraniad mwyaf i'r gymuned (maent bellach yn gweithio 70-90 awr yr wythnos)
- mae rhai wedi ystyried cau ar ddiwedd y flwyddyn.
- byddai torri'r rhyddhad yn cael ei ystyried i fod yn annheg
- mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn ac fe ddylai gefnogi busnesau bach a chanolig
- mae cefnogi cymunedau lleol yn rhan o'u hethos.

7.1.8 Derbyniodd y grŵp fod y crynodeb o'r darganfyddiadau yn rhoi darlun teg o'r materion cyffredinol sy'n effeithio ar fusnesau bach a chanolig, ac

effaith y Cynllun. Roedd peth trafodaeth o effaith gyfunol y dirywiad economaidd, yr ailbrisio ardrethi yn ddiweddar a thresmas parhaus y busnesau cadwyn mawr ar y sector busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Roedd hefyd yn amlwg bod y grŵp yn ystyried y Cynllun i fod yn rhan o becyn o gymorth yr oedd Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddarparu ar hyn o bryd i gwmnïau bach a chanolig yng Nghymru.

7.1.9 Hefyd, dangoswyd holiadur post i'r grŵp a threuliwyd gweddill y cyfarfod yn trafod y pum mater allweddol a godwyd gan yr holiadur hwn:

- pa ddefnydd oedd busnesau yn ei wneud o'r rhyddhad ardrethi
- ymwybyddiaeth o'r cynllun rhyddhad ardrethi
- a ddylai rhyddhad ardrethi gael ei dargedu at sectorau penodol
- a ddylai rhyddhad ardrethi gael ei dargedu at feintiau busnes penodol
- a ddylid rhoi rhyddhad ardrethi'n awtomatig.

7.2 Pa ddefnydd oedd busnesau yn ei wneud o'r rhyddhad ardrethi

7.2.1 Yr ymateb cychwynnol gan y grŵp oedd bod rhyddhad ardrethi, ar y cyfan, yn cael ei ddefnyddio i gynnal y lefelau staffio, ac oherwydd y wasgfa ar fusnes oherwydd yr hinsawdd economaidd a thresmas parhaus y cwmnïau cadwyn ar y farchnad yng Nghymru, roedd y rhyddhad yn awr yn rhan o'r ffactorau a oedd yn cadw busnesau bach a chanolig i fynd.

7.2.2 Yn gyffredinol, y teimlad oedd ei bod yn anodd pinbwyntio'n union pa ddefnydd oedd busnesau unigol yn ei wneud o'r rhyddhad. Roedd hyn oherwydd bod busnesau'n edrych ar y rhyddhad mewn dwy ffordd gwbl wahanol. Os yw'r derbynnydd yn gweld y rhyddhad fel lleihad misol yn ei fil ardrethi, yna dim ond 1/10 o'r lleihad wedi'i dalu'n gyfartal dros 10 mis y maent yn ei weld. Felly gallai hyn gael ei weld fel rhywbeth sy'n helpu'r llif arian a chyfraniad tuag at y costau rhedeg fel cyflogau. Os yw'r derbynnydd yn gweld y rhyddhad fel rhywbeth sy'n cynyddu'r 'elw net' ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gallent weld y swm cyfan fel rhywbeth i'w fuddsoddi yn y

dyfodol, felly gallai gael ei ddefnyddio i helpu i brynu gosodion a ffitiadau newydd neu i drwsio ac uwchraddio cyfarpar fel TG neu asedau busnes eraill.

7.2.3 Derbyniodd y grŵp fod y darganfyddiadau o'r holiadur post, ar y cyfan, yn adlewyrchu pa ddefnydd fyddai busnesau bach a chanolig yn ei wneud o'r rhyddhad ardrethi.

7.3 Ymwybyddiaeth o'r lefelau rhyddhad a dderbynnir

7.3.1 Dangoswyd nifer o siartiau a dyfyniadau i'r grŵp yn dilyn dadansoddi'r holiadur, a ddangosodd na wyddai tua 30 y cant o fusnesau bach a chanolig a oedd yn y Cynllun faint o ryddhad yr oeddent yn ei dderbyn. Yn y drafodaeth yn dilyn, cytunodd y grŵp fod yna ymwybyddiaeth wael ymhlith busnesau o dderbyn y rhyddhad ardrethi; o ganran y rhyddhad oedd yn cael ei derbyn; bod Llywodraeth y Cynulliad yn gwario arian yn ei ddarparu a bod y rhyddhad yn cyrraedd ar ôl i grwpiau busnes gyflwyno sylwadau ar ran y buddiolwyr.

7.3.2 Penderfynwyd fod y broblem hon wedi'i chreu oherwydd nad oedd busnesau'n darllen eu biliau ardrethi a ddylai, yn gyfreithlon, egluro popeth y gall y busnes ei hawlio. Derbyniwyd fod rhai o'r biliau ardrethi hyn wedi eu dylunio'n wael (nid yng Nghymru) ond, yn yr un modd, bod gan fusnesau ddiddordeb ond yn y swm y mae'n rhaid iddynt ei dalu ac nad ydynt bob amser yn darllen y print mân uwchben y ffigur hwn.

7.3.3 Cytunodd y grŵp yn gryf bod angen i filiau ardrethi fod yn fwy eglur, yn enwedig o gofio bod £20 miliwn yn cael ei wario gan Lywodraeth y Cynulliad yn darparu'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach.

7.3.4 Gellid egluro apathi'r busnesau 'oherwydd bod rhyddhad ardrethi'n cael ei roi'n awtomatig ac nid yn cael ei werthfawrogi gymaint.' Cytunodd y grŵp cyfan fod angen cyfleu manteision y Cynllun yn fwy effeithiol i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, ac mai'r atebion posibl oedd:

- llythyr safonol yn cynnwys y neges... 'Oherwydd Llywodraeth y Cynulliad, bydd gennych swm o...'
- dylai'r llythyr gael ei gyhoeddi'n rhannol gyda'r amrywiol gyrff masnach
- Byddai'r llythyr yn rhan o'r broses gyfathrebu a allai dynnu sylw at y ffaith bod rhyddhad ardrethi yn rhan o 'broses negodi gyda diwydiant'
- dylai'r broses gyfathrebu gynnwys y neges 'er budd i'r cyhoedd i gefnogi busnesau bach yn yr ardal'

7.3.5 Roedd y grwpiau cymorth busnes yn y grŵp ffocws yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i gyfleu'r neges hon:

'credaf fod yn rhaid cael rhyw fath o gydnabyddiaeth o'r ffaith bod y grwpiau busnes wedi bod yn rhan o'r broses negodi, oherwydd nid yw pawb yn gwybod o lle daw'r [rhyddhad] ardrethi i fusnesau ac maen nhw'n meddwl ei fod yn awtomatig, yn dod yn uniongyrchol o Lywodraeth y Cynulliad.'

7.3.6 Teimlai'r grŵp pe bai'r neges yma'n cael ei chyfleu gan gyrff masnach / proffesiynol a'i geirio'n iawn, y byddai:

- yn gwneud busnesau bach yn fwy ymwybodol o ryddhad ardrethi
- yn rhoi gwybodaeth glir
- yn dangos fod cyrff sy'n cynrychioli busnesau yn chwarae rhan bwysig yn y broses negodi
- yn dangos fod awdurdodau lleol yn cael deialog gyda busnesau
- yn rhoi neges glir a fyddai'n golygu y gallai Llywodraeth y Cynulliad roi gwybod i fusnesau yr hyn nad ydynt yn ei gael (rhyddhad ardrethi parhaol yn lle mesur dros dro i gefnogi busnesau bach mewn cyfnod o angen) tra'n diweddarau busnesau'n gyson ynghylch beth allai ddigwydd.

7.4 Targeddu yn ôl math

7.4.1 Bu'r grŵp yn trafod pa mor dderbyniol fyddai targeddu sectorau penodol i dderbyn rhyddhad ychwanegol. Nodwyd fod sectorau eraill ar wahân i swyddfeydd post yn derbyn cymorth drwy ddulliau gan Lywodraeth y Cynulliad. Cytunodd y grŵp fod hyn yn adlewyrchu polisiâu cynllunio Llywodraeth y Cynulliad ac awgrymwyd bod angen i Lywodraeth y Cynulliad barhau i wneud ei 'harchwiliadau iechyd' o ddiwydiant mewn ardaloedd daearyddol penodol er mwyn datblygu strategaeth cymorth busnes graidd; ni awgrymodd y grŵp y dylid dychwelyd at gynlluniau rhyddhad ardrethi wedi eu targeddu'n ddaearyddol.

7.4.2 Wrth gynnal y drafodaeth estynedig hon ar sut y gwelir rhyddhad ardrethi fel rhan o raglen ehangach o roi cymorth sector cyhoeddus i fusnesau bach a chanolig, soniwyd am fesur aelodau preifat a oedd yn ystyried cadw eiddo busnes lleol i ddarparu gwasanaethau penodol, a Strategaeth Adwerthu Cymru sy'n ystyried nodi pa fusnesau sydd angen iddynt oroesi.

7.4.3 Cytunwyd fod swyddfeydd post yn hanfodol a bod angen i'r cymorth ar eu cyfer barhau.

'Mae swyddfa'r post yn denu pobl oedrannus sydd yna'n defnyddio'r siop hwylus, yna'r cigydd, yna'r pentref cyfan. Heb swyddfa'r post, bydd y pentref yn marw.'

Teimlwyd ein bod wedi dod at ddiwedd y broses gan y llywodraeth o gau swyddfeydd post a bod angen inni gadw'r hyn sydd ar ôl a bod rhyddhad ardrethi'n rhan o'r cymorth hwnnw.

7.4.4 Ar ddiwedd y drafodaeth, derbyniwyd fod pob cymdeithas fasnach yn tueddu i gwffio dros ei haelodau ei hun. Mae'n bur anodd cytuno ar ddiffiniad ar gyfer 'gwasanaeth hanfodol' a dylid cydnabod os nad oes gan ardal y gwasanaethau eraill, nad yw'n gallu cefnogi'r 'gwasanaethau hanfodol' (mae'r clwstwr o fusnesau eraill yn cefnogi'r busnesau gwasanaethau hanfodol

mewn cylch o gyd-gefnogi). Fodd bynnag, roedd yna gytundeb yn gyffredinol bod Swyddfeydd Post yn achos arbennig.

7.5 Targeddu busnesau yn ôl maint

7.5.1 Yna aeth y grŵp ymlaen i drafod a ddylid targedu rhyddhad ychwanegol at fusnesau o faint neilltuol. I helpu gyda'r drafodaeth, dangoswyd canlyniadau'r holiadur post iddynt a oedd yn awgrymu bod ardrethi yn cyfrif am ganran uwch o'r costau i fusnesau bach iawn (0-1 a 2-5 o staff).

7.5.2 O ganlyniad, gofynnwyd y cwestiwn a oedd busnesau bach yn fusnesau llai llwyddiannus:

'Drwy dargeddu'r busnes bach a ydych yn targedu'r busnesau llai llwyddiannus oherwydd y ffordd y maent yn gweithredu?'

Neu fusnesau bach sydd newydd sefydlu:

'Ai busnesau bach sydd newydd sefydlu yr ydym eisiau eu hannog?'

7.5.3 Cafwyd trafodaeth faith ar ba mor deg oedd cefnogi busnesau wrth iddynt sefydlu o'r newydd. Roedd y grŵp yn cydnabod ei bod yn anodd dod o hyd i ateb ymarferol a fyddai, mae'n debyg, yn gorfod bod yn seiliedig ar gyfuniad o drosiant, elw ac oed y busnes ac, eto, daeth y grŵp i'r casgliad cyffredinol mai'r system bresennol yng Nghymru oedd yr ateb mwyaf ymarferol i system rhyddhad ardrethi deg ar gyfer busnesau bach.

7.5.4 Cafodd y syniad o wneud rhyddhad ardrethi'n fwy hygyrch i rai a oedd fymryn dros y trothwy, drwy gyflwyno band rhyddhad o 10% ar drothwy uwch, ei ddiystyru:

'Rydym wedi trafod hyn (band 10%) gyda'n haelodau. Er y byddai'n braf cael band o 10 y cant, ni fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth i redeg y cwmni. Mae'n rhy fach i gael unrhyw effaith.'

7.5.5 Eto, i geisio lliniaru effaith ailbrisio ardrethi, trafodwyd hefyd y syniad o fandiau rhyddhad graddol ond teimlwyd y gallai cost y system fwy cymhleth hon olygu bod llai o arian ar gael i dalu'r rhyddhad.

'Mwya'n byd y mae'n costio i'w redeg, lleia'n byd sydd ar ôl i'w roi i fusnesau. Felly rydym yn chwilio am yr opsiwn rhataf a mwyaf addas.' Roedd rhai hefyd yn credu y byddai system raddol yn cael ei gweld i fod yn rhy gymhleth:

'Mae gan Loegr system raddol ac mae'n gwneud popeth yn fwy cymhleth. Rydych yn gwneud pethau'n galetach a chaletach bob tro.'

7.5.6 Cytunodd y grŵp yn gyffredinol fod Llywodraeth y Cynulliad, gyda'r bandiau presennol, yn dosbarthu'r rhyddhad ardrethi ar draws y gwahanol feintiau busnes mor deg ag oedd yn ymarferol bosibl.

7.6 Hawl Awtomatig

7.6.1 Roedd y grŵp yn cydnabod mantais 'system awtomatig' ac yn gant y cant o blaid 'cadw'r system yn syml'.

7.6.2 Roeddent yn cydnabod y byddai system gwbl awtomatig yn faich gweinyddol oherwydd mai ond un eiddo fyddai'n rhaid i dderbynwyr y rhyddhad ei gael, sy'n arwain at y broblem o sut i erlyn pobl sy'n hawlio rhyddhad yn anghywir.

7.6.3 Teimlwyd y gallai dychwelyd at gynllun nad oedd yn awtomatig olygu bod llai o fusnesau bach a chanolig a oedd â hawl i'r rhyddhad yn ei hawlio:

'Pe bai'n rhaid iddynt ymgeisio, byddai llawer iawn ohonynt ddim yn gwneud. Nid ydynt hyd yn oed yn ei ddeall os ydynt yn ei ddarllen.'

7.6.4 Un o'r prif broblemau gyda system 'awtomatig' oedd y diffyg gwerth y byddai pobl yn ei roi ar y rhyddhad fel a ddangoswyd gan yr ymwybyddiaeth

gyffredinol o'r cynllun gan fusnesau. Arweiniodd hyn at drafodaeth unwaith eto ynghylch sut i gyfleu manteision a manylion y cynllun i'r gymuned fusnes.

7.7 Materion Eraill a Godwyd

7.7.1 Beth y mae busnesau yn ei gael am eu hardrethi?

7.7.1.1 Mae trafod rhyddhad ardrethi gyda busnesau yn anochel yn arwain at y cwestiwn o beth y maent yn ei gael am dalu ardrethi:

'Nid oes ots gan fusnesau dalu ardrethi, cyn belled ag y medrant eu fforddio. Y broblem yw nad ydynt yn gwybod yn iawn beth y maent yn ei gael am yr ardrethi. Os byddwch yn cael bil treth gyngor, er enghraifft, fe wyddoch fod hyn a hyn yn mynd i'r heddlu, i dalu am wasanaethau lleol. Gyda'r system bresennol, mae'r cwbl yn mynd i Gaerdydd cyn cael ei ailddosbarthu ledled Cymru. Yn y bôn, nid yw busnesau'n gweld beth y maent yn ei gael am eu harian. Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng yr arian y maent yn ei dalu a gwasanaethau gweladwy.'

7.7.2 Yr economi a thresmas busnesau cadwyn mawr ar y Farchnad yng Nghymru

7.7.2.1 Wrth bwysu a mesur y dylanwadau economaidd a marchnad ar agweddau busnesau bach a chanolig at y Cynllun Rhyddhad Ardrethi yng Nghymru, lleisiwyd pryder gan y grŵp eu bod nid yn unig yn dioddef o ddirywiad yr economi ond hefyd yn gweld mewnlifiad di-baid y cwmnïau cadwyn mawr i'r farchnad yma. Yn benodol o ystyried TESCO yn y sector adwerthu a gwestai cadwyn disgownt yn y sector twristiaeth, teimlai nifer o'r rhanddeiliaid fod y cwmnïau cadwyn yn cael mantais annheg gan y system ardrethi bresennol. Roedd yna argraff yn y grŵp nad oedd y busnesau cadwyn adwerthu yn talu ardrethi teg ar eu meysydd parcio di-dâl tra bod yn rhaid i gwsmeriaid busnesau bach a chanolig mewn trefi a phentrefi dalu am barcio. Mae'r sylwadau hyn y tu allan i sgôp yr ymchwil bresennol ond yn dangos pa mor emosiynol yw ardrethi a'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Fel y trafodwyd yn

flaenorol, roedd busnesau gyda safleoedd lluosog yn cael eu heffeithio lai gan ailbrisio adeiladau unigol tra na allai busnesau bach a chanolig gydag un eiddo ac ailbrisio uchel wasgaru'r cynnydd hwnnw ar draws eu busnes.

7.7.3 Sylwadau eraill ar ryddhad ardrethi

7.7.3.1 Roedd cytundeb yn gyffredinol y dylai ardrethi a rhyddhad ardrethi gael eu rheoli'n ganolog:

'Ni fyddem am weld ardrethi busnes yn cael eu rheoli'n lleol.'

7.7.3.2 Holodd un o'r grŵp a allai Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio'r rhyddhad ardrethi i gefnogi'r agenda busnesau gwyrdd neu'r agenda cymunedau diogelach.

'Mae un rhan o'r Cynulliad yn ceisio gwthio busnesau i fod yn fwy gwyrdd ac ati. Felly, yn y bôn, dylai'r Cynulliad fod yn edrych ar beth y maen nhw am i fusnes ei wneud. Dylai'r system ardrethi ddilyn y strategaethau eraill sydd gan y Cynulliad.'

7.8 Crynodeb o'r grŵp ffocws

7.8.1 Derbyniodd y drafodaeth gan y grŵp fod busnesau bach a chanolig yn gweld rhyddhad ardrethi fel rhan werthfawr o ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i'r sector hwn.

7.8.2 Cafodd y drafferth oedd rhai busnesau bach a chanolig yn ei chael i weld manteision y Cynllun ei briodoli i'r ffordd y mae perchnogion busnes yn ystyried derbyn y rhyddhad (naill ai fel lleihad misol mewn costau neu grant blynyddol fel y gellir buddsoddi mwy y flwyddyn ganlynol).

7.8.3 Roedd ymwybyddiaeth isel o faint o arian yr oeddent yn ei dderbyn a sut oedd y Cynllun yn gweithio yn broblemau sydd angen eu datrys. Mae cyrff masnach a phroffesiynol yn ymddangos i fod yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i gyfleu'r neges hon i'r sector; byddai hyn yn helpu

delwedd y cyrff hyn ac efallai'n helpu Llywodraeth y Cynulliad i egluro sut a pham allai'r system newid yn y dyfodol.

7.8.4 Roedd y grŵp yn cydnabod bod swyddfeydd post yn achos arbennig mae'n debyg a bod y Cynllun presennol yng Nghymru hefyd yn helpu sectorau busnesau bach a chanolig eraill sydd fwyaf mewn angen.

7.8.5 Roedd y grŵp hefyd yn cydnabod bod y system bresennol yn rhoi cymorth teg i fusnesau bach a chanolig o wahanol faint yng Nghymru drwy ddefnyddio'r dull mwyaf ymarferol a hygyrch sydd ar gael. Mae'n debyg bod y bandiau presennol ar gyfer rhyddhad ardrethi yn o lew o gywir, cyn yr ailbrisio.

7.8.6 Ar y cyfan, dywedodd y grŵp fod busnesau bach a chanolig yn ddiolchgar am gymorth parhaus Llywodraeth y Cynulliad a bod y grwpiau cymorth busnes am weithio ochr yn ochr â Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu a chyfathrebu'r cymorth hwn yn y dyfodol.

8 Casgliad

8.1 Rydym wedi cyflwyno dadansoddiad o'r arolygon, y llenyddiaeth a'r grŵp ffocws. Gellir dod i rai casgliadau allweddol o driongli'r ffynonellau hyn. Mae busnesau bach a chanolig sy'n derbyn y budd hwn yn amlwg yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddaw gan y Cynllun ond yn ei weld fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i'r sector busnesau bach a chanolig, cymorth sy'n hanfodol i economi Cymru'n gyffredinol.

8.2 Mae rhai agweddau ar y Cynllun yng Nghymru'n cael eu hefelychu gan wledydd eraill yn y DU a byddai hyn yn awgrymu, ar hyn o bryd, bod y system yma yng Nghymru wedi taro'r cydbwysedd gorau rhwng tegwch, ymarferoldeb a hygyrchedd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad oes unrhyw bwysau mawr i newid trefniadau'r Cynllun yng Nghymru yn helaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni ddylid diystyru newidiadau yn y tymor canolig os bydd yr economi yng Nghymru yn newid.

8.3 Yn groes i ddarganfyddiadau'r adolygiad o'r llenyddiaeth, mae'r arolwg yn dangos fod ardrethi'n gallu cyfrif am gyfran helaeth iawn o'r trosiant i lawer o fusnesau bach (dros 10 y cant i lawer). Mae'n debygol iawn bod hyn yn digwydd mwy yn yr amgylchedd masnachu presennol.

8.4 Ar y cyfan, nid yw busnesau bach a chanolig yn ymwybodol o sut y mae'r Cynllun yn gweithio a'r union fudd y maent yn ei gael ohono.

8.5 Mae'n anodd i fusnesau bach a chanolig ddeall yn union sut ddefnyddir budd ariannol y Cynllun i helpu eu busnes. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod rhai busnesau bach a chanolig yn ei weld fel lleihad bychan misol yn eu costau tra bod eraill yn ei weld fel grant blynyddol mwy i'w fuddsoddi yn y busnes.

8.6 Mae'r wasgfa economaidd bresennol a nifer y busnesau lluosog sy'n sefydlu yng Nghymru wedi gwneud masnach i fusnesau bach a chanolig yn

anodd yn y flwyddyn ddiwethaf a byddai effaith unrhyw leihad mewn cymorth gan y sector cyhoeddus yn sylweddol waeth o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

8.7 Mae'r cymhwyso 'awtomatig' ar gyfer y Cynllun a ddefnyddir gan Lywodraeth y Cynulliad yn ymddangos i fod yn dderbyniol i fusnesau bach a chanolig.

8.8 Ar y cyfan, mae dyluniad presennol y cynllun yng Nghymru yn dderbyniol ac yn cael ei weld i fod yn briodol i anghenion busnesau.

8.9 Byddai cynyddu ecwiti'r cynllun drwy gyflwyno trothwy aml-haen yn ychwanegu at gymhlethdod a chost y cynllun, gan leihau'r fantais gyffredinol i fusnesau bach a chanolig ac arwain efallai at golli cefnogaeth mwyafrif y sector hwn.

8.10 Mae pob sector busnes eisiau llai o dreth a mwy o gymorth a bydd eu cyrff masnach yn dadlau dros eu hachosion unigol, ond ymddengys bod yna gonsensws cyffredinol (er nid cytundeb 100 y cant) bod swyddfeydd post ar y funud yn achos arbennig clir.

8.11 Byddai'r ymatebion o'r holiadur yn awgrymu nad yw'r mwyafrif (66 y cant) o gwmnïau bach a chanolig sy'n derbyn y rhyddhad yn gweld unrhyw gynnydd yn eu rhent oherwydd y rhyddhad. Ond mewn lleiafrif o achosion (12 y cant), mae'n ymddangos bod landlordiaid yn cymryd y rhan fwyaf os nad y cwbl o'r rhyddhad drwy godi mwy o rent.

9 Argymhellion

9.1 Derbyn bod y cymorth ariannol a roddir i fusnesau bach a chanolig drwy'r Cynllun yn eu helpu i fod yn economaidd gynaliadwy yn yr hinsawdd economaidd bresennol yng Nghymru. Mae hyn yn gyfiawnhad dros barhau i gefnogi busnesau bach a chanolig drwy'r Cynllun.

9.2 Cynyddu ymwybyddiaeth o ddulliau a manteision y Cynllun, efallai drwy gydweithredu gyda'r cyrff / cymdeithasau masnach perthnasol

9.3 Cadw dull 'awtomatig' y Cynllun presennol yng Nghymru.

9.4 Bod Llywodraeth y Cynulliad yn diweddarau'r sector yn gyson ac yn ei gynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau ar unrhyw Gynllun newydd.

9.5 Dylai Llywodraeth y Cynulliad wirio unrhyw newidiadau i'r Cynllun presennol yn ofalus i sicrhau na fyddent yn creu unrhyw amgylchiadau annisgwyl neu ganlyniadau anfwriadol sy'n andwyol i fusnesau trydydd parti.

Dogfennau cyfeiriol

- Adams, C. a Webley, P. (2001) "Small business owners' attitudes on VAT compliance in the UK". *Journal of Economic Psychology*, 22(2), tud.195-217.
- Baghana, R. a Mohnen, P. (2009) "Effectiveness of our R and D tax incentives in small and large enterprises in Quebec," *Small Business Economics*, 33(1), tud. 91-107.
- Baldock, R. (1998) "10 years of the urban programme 1981-91: the impact and implications of its assistance to small businesses," *Urban Studies*, 35(11), tud. 2063-83.
- BBC (2010) "Business rates break for small firms in Wales" 30 Mawrth 2010. Ar gael yn: http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/wales_politics/8595291.stm
- Bond, S., Denny, K., Hall, J. a McCluskey, W. (1996) "Measuring the Burden of Non-domestic Rates on Business: The Relationship between Rents and Rates," *Journal of Property Valuation and Investment*, Cyfrol 14 Rhif 4, tud. 18-30.
- Siambur Fasnach Prydain (2009) "British Chambers of Commerce Proposition Paper: Local Business Taxation," Mawrth 2009.
- Business Link / Cyswllt Busnes (2010) "Practical Advice for Business: Business rates: Business Rate Relief." Ar gael yn: <http://www.businesslink.gov.uk/bdotg/action/detail?type=RESOURCES&itmld=1073792393>
- (Yr Adran) Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR) (2008) SME statistics 2007. Ar gael yn: <http://stats.berr.gov.uk/ed/sme/smestats2007-ukspr.pdf>
- (Yr Adran) Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) (Rhagfyr 2009) "A consultation on developing the banking and financial services available at the Post Office" Ar gael yn: <http://www.bis.gov.uk/assets/biscore/corporate/docs/migrated-consultations/post%20office%20banking%20a%20consultation%20on%20developing%20the%20banking%20and%20financial%20services%20available%20at%20the%20post%20office.pdf>
- (Yr Adran) Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) (2010) "Small Firms Loan Guarantee Scheme Recipient and Comparison Group Survey Results," BIS, Ionawr 2010. URN 10/511.
- CBI (2008) "London Business Survey" Noddwyd gan KPMG [http://www.cbi.org.uk/ndbs/press.nsf/0363c1f07c6ca12a8025671c00381cc7/a570c9a8ba5415ae802574670048f775/\\$FILE/CBI%20London%20Business%20Survey%202008.pdf](http://www.cbi.org.uk/ndbs/press.nsf/0363c1f07c6ca12a8025671c00381cc7/a570c9a8ba5415ae802574670048f775/$FILE/CBI%20London%20Business%20Survey%202008.pdf)
- Chittenden, F., Krauser, S. a Poutziouris, P. (2003) "Tax regulation and small business in the USA, UK, Australia and New Zealand," *International Small business Journal*, 21(1), tud. 93.

- Chittenden, F., Krauser, S. a Poutziouris, P. (2005) "PAYE-NIC compliance costs: empirical evidence from the UK SME economy," *International Small Business Journal*, 23. tud. 635-56.
- Chittenden, F. a Poutziouris, P. (2000) "Taxation and the performance of technology-based small firms in the UK," *Small Business Economics*, 14(1), tud.11-37.
- Cook, I. R. (2008) "Mobilising urban policies: the policy transfer of US business improvement districts in England and Wales," *Urban Studies*, 45(4), tud. 773-95.
- Countryside Agency (2000) "The economic Significance of Rural Post Offices."
- Craig, D. Jackson, W. a Thompson, J. (2007) "Small firms finance, credit rationing, and the impact of SBA-guaranteed lending on local economic growth," *Journal of Small Business Management*, 45(1), tud.116-32.
- Crosby, N. a Keogh, G. (1990) "The relationship between shop values and rates," Prifysgol Reading., mimeo.
- Crosby, N., Hughes, C. a Murdoch, S. (2006) "Flexible property leasing and the small business tenant," *Journal of Property Research*, 23(2). tud.163-88.
- Cunningham, R. (2009) "Companies get help with business rates," *International Tax Review*, Mai, 20(4).
- Damania, D. (1986) "The impact of nondomestic property taxes on employment: a comment," *Urban Studies*, 23, tud. 413-18.
- DCLG (2010) "Making small business rate relief automatic (SBRRS)." Llythyr ymgynghori wedi'i ddosbarthu gan y DCLG, Gorffennaf 2010.
- Doern, R. (2009) "Investigating barriers to SME growth and development in transition environments: a critique and suggestions are developing a methodology," *International Small Business Journal*, 27(3). tud. 275-305.
- Donald, B. a Mohsin, M. (2006) "Tax policy and entrepreneurship: new timeseries evidence," *Small Business Economics*, 26(5), tud. 409-25.
- Duanjie, C., Lee, F. a Mintz, J. (2002) "Taxation, SMEs and entrepreneurship," OECD papers, 2(11), tud.1-48.
- Eliza, A. a Braithwaite, V. (2005) "Understanding small business taxpayers: issues of deterrence, tax morale, fairness and work practice," *International Small Business Journal*. 23(5), tud. 539-68.
- Eve, G. (1993) "Measuring the Burden of Non-domestic Rates on Different Types of Business," Prifysgol y Ddinas.
- Ffederasiwn y Busnesau Bach (2006) "Small Businesses and the UK Postal Market."
- Ffederasiwn y Busnesau Bach (2008) "Business Rates, Policies for Sustainable Communities," October 2008. Ar gael yn: <http://www.fsb.org.uk/keeptradelocal/images/fsbbusrateslores.pdf>

- Ffederasiwn y Busnesau Bach (2009) "FSB in Scotland: Small Firms Welcome Full Introduction of Business Rates Cut – April 2009." Ar gael yn: <http://www.fsb.org.uk/News.aspx?loc=scotland&rec=5174>
- Fogel, G. (2001) "An analysis of entrepreneurial environment and enterprise development in Hungary," *Journal of Small Business Management*, 39(1). tud. 103-09.
- Foreman-Peck, J., Makepeace, G. a Morgan, B. (2006) "Growth and profitability of small and medium-sized enterprises: some Welsh evidence," *Regional Studies*, 40(4). tud.307-19.
- Freedman, J. a Ward, J. (2000) "Taxation of small and medium-sized enterprises," *European Taxation*, 40(5). tud. 158-175.
- Hudson, D. (2005) "Issues in business rates and revaluation 2005," *Journal of Retail and Leisure Property*, Gorffennaf, 4(3), tud. 207-18.
- Llywodraeth EM (2010) Thinking Business in Policy: Developing Our Industrial Capacity. Ar gael yn: <http://www.bis.gov.uk/thinkingbusiness>
- Trysorlys EM (2010) "Budget 2010 Securing the recovery Economic and Fiscal Strategy Report and Financial Statement and Budget Report – March 2010," Pennod 4, tud. 53. Ar gael yn: <http://media.ft.com/cms/edb5d37c-3749-11df-b542-00144feabdc0.pdf>
- Labour Matters (2009) "Ann Jones welcomes more relief for Welsh firms" Tachwedd 2009. Ar gael yn: <http://www.labourmatters.com/welsh-labour/ann-jones-welcomes-more-relief-for-welsh-firms>
- Laramie, A.J. a Mair, D. (1993) "The incidence of business rates: a post-Keynesian approach," *Review of Political Economy*, 5(1), tud. 55-72.
- LGFDR (Local Government Finance Division Research) (2005a) "An Evaluation of the effectiveness of the existing system of NDRR in Wales and consideration of the need for a small business rate relief scheme," Gorffennaf, Adran 1.38.
- LGFDR (Local Government Finance Division Research) (2005b) "An Evaluation of the effectiveness of the existing system of NDRR in Wales and consideration of the need for a small business rate relief scheme," Gorffennaf, Adran 1.19.
- LPSNI (2010) "Small Business Rate Relief Fact Sheet- from the Land and Property Services Northern Ireland." Ar gael yn: http://www.lpsni.gov.uk/lps_fact_sheet_-_small_business.14jan2010-2.pdf
- McGreal, S., Berry, J., Lloyd, G. a McCarthy, J. (2002) "Tax-based mechanisms in urban regeneration: Dublin and Chicago models," *Urban Studies*, 39(10). tud. 1819-31.
- Morning Advertiser (2009) "Rates help for Welsh pubs-23 Dec 2009." Ar gael yn: <http://www.morningadvertiser.co.uk/news.ma/article/85433>
- Mowlah, A. (2008) Forum of Private Business. Wedi'i adrodd yn Cabinet Maker, 4 Awst 2006.

- Narberth (2009) "[Plaid Welcomes Rates Relief](http://www.narberth.co.uk/narberth-news/rateslatest/359-plaid-welcomes-rates-relief)," 23 Rhagfyr 2009. Ar gael yn: <http://www.narberth.co.uk/narberth-news/rateslatest/359-plaid-welcomes-rates-relief>
- Ffederasiwn Genedlaethol y Busnesau Annibynnol (2008) "Small business problems and priorities survey." Ar gael yn: <http://www.nfsb.com>
- NFSP (Ffederasiwn Genedlaethol yr Is-bostfeistri) (2007) "Economic Research institute of Northern Ireland-Review of the Case for a Small Business Rate relief Scheme in Northern Ireland." Cyflwyniad ysgrifenedig gan Ffederasiwn Genedlaethol yr Is-bostfeistri, Rhagfyr 2007.
- NFSP (Ffederasiwn Genedlaethol yr Is-bostfeistri) (2009) "Subpostmaster Income Survey, 2009," Mehefin 2009.
- New Economics Foundation (2006) "Small Businesses and the UK Postal Market."
- ODPM (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog) (1995) "The impact of Rates on Businesses," Chwefror 1995.
- ODPM (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog) (2004) "Survey of Small Businesses and Rate Relief," 04LGF02763
- Onji, K. (2009) "The response of firms to eligibility thresholds: evidence from the Japanese value added tax," *Journal of Public Economics*, 93(5/6) tud. 766-75.
- Parry, S.N. (2006) "How the social construction of accounting shapes micro-firm strategic development," *Institute of Small Business and Enterprise conference*, Hydref 2006.
- Parry, S.N. (2007) "Accounting research in the micro-firm: agendas, perspectives and methodologies," *Cyprus International Journal of Management*, Cyfrol 12(1), Hydref, tud. 5-21.
- Parry, S.N. (2007) "South Wales artisans and their discourses of growth: lessons for small business advisors and policy makers," NDR Cymru.
- Parry, S.N. (2010) "Smalltalk: Rhetoric of control as a barrier to growth in artisan micro-firms," *International Small Business Journal* – ar fin cael ei gyhoeddi.
- Peck, F., Parry, S., Jackson, K. a Jackson, J. (2009) *Review And Assessment Of The Methodology Of The Retail Enforcement Pilot (Rep) In A Business Environment*. Y Ganolfan dros Ddatblygu Economaidd Rhanbarthol (CRED) a'r Swyddfa Rheoleiddio Gwell yn Lleol (LBRO).
- Potter, J. a Moore, B. (2000) "UK enterprise zones and the attraction of inward investment," *Urban studies*, 37(8), tud.1279-1311.
- Robertson, M. a Jones, C. (1999) "A cross-sectional model of rents in urban retail centres". *Journal of Property Research*, 16(1), tud.51-66
- Rodrigo, C. A. a Felipe, L. (2010) "Corporate taxes and the demand for labour and capital in developing countries," *Small Business Economics*, 34(2), tud.187-201.

- SBS (2001) Papur Briffio gan yr Uned Perfformiad ac Arloesi (PIU) a'r Gwasanaeth Busnesau Bach (SBS). Ar gael yn:
<http://www.cabinetoffice.gov.uk/media/cabinetoffice/strategy/assets/briefing.pdf>
- Llywodraeth yr Alban (2004) "Evaluation of the Impact and Effectiveness of the Small Business Rates Relief Scheme" Rhagfyr 08, 2004. Ar gael yn:
<http://www.scotland.gov.uk/Publications/2004/12/20357/47854>
- Llywodraeth yr Alban (2009) "Small Business Rate Relief Scheme... Making it work together." Ar gael yn:
<http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/47032/0024921.pdf>
- Sibley, I. (1989) "The effect of business rates on rental values", *Journal of Valuation*, Cyfrol 7 Rhif 4, tud.325-41.
- Snee, H. (2000) "The case for an enterprise development fund for Wales," *Venture Capital*, 2(4). tud. 343-55.
- Asiantaeth y Swyddfa Brisio (2010) "Business Rates an Introduction" Ar gael yn:
http://www.voa.gov.uk/publications/public_fact_sheets/business_rates_an_intro.html
- Wadlow B (2010) "Petrol filling station business rates- VOA valuation framework issues" wedi'i gyflenwi gan ACS
- Llywodraeth y Cynulliad (2010) "Rhyddhad Ardrethi Llywodraeth Cynulliad Cymru." Ar gael yn:
<http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/finandfunding/nondomesticrates/ratesrelief/?jsessionid=178LJnyGjB1wKsK3nMmtjpyVJlvhlLxKHDVLY0tkKVpBpGcln7dv!1614610361?lang=en>
- Walesonline (2009a) "Tory AM David Melding warns Corus could be hit by business rates increase." Ar gael yn:
<http://www.walesonline.co.uk/business-in-wales/business-news/2009/10/31/tory-am-david-melding-warns-corus-could-be-hit-by-business-rate-increase-91466-25056028>
- Walesonline (2009b) "Many firms to benefit from cut in business rates." Ar gael yn:
<http://www.walesonline.co.uk/business-in-wales/business-news/2009/10/28/many-firms-to-benefit-from-cut-in-business-rates-91466-25029766>
- Western Mail (2009) "Tory AM David Melding warns Corus could be hit by business rate increase," 31 Hydref 2009. Ar gael yn:
<http://www.walesonline.co.uk/news/welsh-politics/welsh-politics-news/2009/10/31/tory-am-david-melding-warns-corus-could-be-hit-by-business-rate-increase-91466-25056028>

Atodiad 1: Y Rhaglen Cyfweld Rhanddeiliaid

Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol o'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Y Sector Cyhoeddus (cysylltiadau wedi eu cyflenwi gan Lywodraeth y Cynulliad)

Bore / prynhawn da, rwyf i'n dod o'r Ganolfan dros Ddatblygu Economaidd Rhanbarthol ym Mhrifysgol Cumbria. Rydym wedi cael ein comisiynu gan Gynulliad Cymru i werthuso eu Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau. Rhan o'r broses hon yw casglu profiadau o gynlluniau tebyg ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'n bwysig iawn, er mwyn inni ddeall y materion sy'n eu hwynebu, ein bod yn casglu eich barn am sut y mae eich cynllun chi'n gweithio ac mae eich cyfraniad yn bwysig iawn i'n hymchwil.

Fel corff ymchwil annibynnol, byddwn yn sicrhau bod unrhyw sylw a rowch inni'n aros yn gyfrinachol.

1 MANYLION Y CYNLLUN

1.1 Amlinelliad o'r cynllun.... (*cynnig ateb*) rydym yn deall bod y cynllun yn berthnasol i (rhowch fanylion Cymru, GI neu'r Alban), allwch chi gadarnhau bod y manylion hyn yn gywir.

1.2 Am ba hyd y mae'r cynllun hwn wedi bod yn rhedeg?

1.3 Pwy yw'r prif fuddiolwyr?

1.4 Sut y mae'r cynllun yn cael ei ariannu?

1.5 (os yw'r cynllun yn un ymgeisio)... A ydyw'r ffaith bod eich cynllun yn un ymgeisio yn achosi unrhyw broblemau ichi?

Faint o fusnesau sy'n defnyddio'r cynllun (allwch chi ddadansoddi'r nifer yma yn ôl meintiau'r busnes, a sector)?

2 GWERTHUSIAD O'R CYNLLUN

2.1 Beth yw prif amcanion y cynllun? Pam ei fod yn bwysig ichi?

- *(Cynnig ateb)* Ai er mwyn sicrhau bod busnesau'n goroesi?
- *(Cynnig ateb)* Ai er mwyn helpu busnesau i sefydlu o'r newydd?
- *(Cynnig ateb)* Ai er mwyn cefnogi / adfywio'r gymuned?
- *(Cynnig ateb)* Ai er mwyn 'annog' busnesau bach a chanolig?

2.2 Sut ydych chi'n gwerthuso'r cynllun?

(Cynnig ateb) I weld a ydyw'n cyflawni ei amcanion?

2.3 A ydych yn meddwl bod y cynllun rhyddhad ardrethi'n rhoi gwerth da am yr arian?

2.4 A oes unrhyw broblemau gyda'r cynllun?

- *(Cynnig ateb)* Yn ei ffurf bresennol?
- *(Cynnig ateb)* Yn y dyfodol agos?

2.5 Sut fath o adborth gafwyd gan fusnesau?

- *(Cynnig ateb)* da? rhowch enghreifftiau / drwg? rhowch enghreifftiau

2.6 A ydych yn meddwl bod y cynllun wedi cael effaith ar economïau lleol?

2.7 A oes gennych unrhyw gynlluniau ar gyfer y cynllun yn y dyfodol?

3 SYLWADAU ERAILL

Gan ein bod yn cyflawni'r gwaith ymchwil hwn ar ran Llywodraeth y Cynulliad. O'ch profiad chi o'r cynllun, a oes unrhyw beth y teimlwch fyddai o ddiddordeb neu'n ddefnyddiol i'r Cynulliad?

Y Sector Preifat (Grwpiau adwerthu ar draws y DU, y SGF, NIRTA a'r ACS)

Bore / prynhawn da, rwyf fi o'r Ganolfan dros Ddatblygu Economaidd Rhanbarthol ym Mhrifysgol Cumbria. Rydym wedi cael ein comisiynu gan Gynulliad Cymru i werthuso eu Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau. Rhan o'r broses hon yw casglu profiadau o gynlluniau tebyg ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'n bwysig iawn, er mwyn inni ddeall y materion sy'n eu hwynebu, ein bod yn casglu eich barn am sut y mae eich cynllun chi'n gweithio ac mae eich cyfraniad yn bwysig iawn i'n hymchwil.

Fel corff ymchwil annibynnol, byddwn yn sicrhau bod unrhyw sylw a rowch inni'n aros yn gyfrinachol.

1 GWYBODAETH WEITHIO O'R CYNLLUN

1.1 Amlinelliad o'r cynllun... (*Cynnig ateb*) Allwch chi ddisgrifio'n fyr beth yw dealltwriaeth eich sefydliadau o'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau (yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon)?

1.2 Pwy yn eich barn chi sy'n elwa o'r cynllun yn bennaf?

1.3 Pwy sy'n ariannu'r cynllun?

2 GWERTHUSIAD O'R CYNLLUN

2.1 Beth yw prif amcanion y cynllun yn eich barn chi?

- (*Cynnig ateb*) Ai er mwyn sicrhau bod busnesau'n goroesi?
- (*Cynnig ateb*) Ai er mwyn helpu busnesau i sefydlu o'r newydd?
- (*Cynnig ateb*) Ai er mwyn cefnogi / adfywio'r gymuned?
- (*Cynnig ateb*) Ai er mwyn 'annog' busnesau bach a chanolig?

2.2 Beth yw'r prif fanteision i'ch busnesau chi yn Lloegr / yr Alban / Gogledd Iwerddon?

2.3 A ydyw wedi cael unrhyw effeithiau eraill?

- (*Cynnig ateb*) Ar yr economi leol?

2.4 A oes unrhyw broblemau gyda'r cynllun?

2.5 Fyddech chi'n hoffi gweld y cynllun yn cael ei newid o gwbl?

- *(Cynnig ateb)* Os ie, eglurwch sut.

3. SYLWADAU ERAILL

Gan ein bod yn cyflawni'r gwaith ymchwil hwn ar ran Llywodraeth y Cynulliad, sy'n gweithredu cynllun rhyddhad ardrethi gwahanol i (Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon). O'ch profiad chi o'r cynllun, a oes unrhyw beth y teimlwch fyddai o ddiddordeb neu'n ddefnyddiol i'r Cynulliad?

Atodiad 2: Holiadur Post (fersiwn Saesneg)

Y CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI I FUSNESAU BACH

Mae'r Ganolfan dros Ddatblygu Economaidd Rhanbarthol (CRED) wedi cael ei chomisiynu gan Lywodraeth y Cynulliad i gyflawni adolygiad o effaith y rhyddhad ardrethi i fusnesau bach ar fusnesau yng Nghymru. Fel rhan o'r astudiaeth yma, rydym yn cysylltu gyda busnesau i gasglu gwybodaeth am effaith y cynllun. Mae'r holiadur yn gyfle i fusnesau bach leisio eu barn am y cynllun a sut efallai y gellid ei wella yn y dyfodol. Bydd pob ateb a roddwch yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol gan yr ymchwilyr yn CRED a bydd yr holl ddata ond yn cael ei gyflwyno mewn ffordd gyfunol. Ni fydd ymatebion unigol yn cael eu hadrodd i Lywodraeth y Cynulliad.

Dylech lenwi'r holiadur drwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar gyfer pob cwestiwn a'i ddychwelyd atom yn yr amlen barod at y pwrpas.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr holiadur, gallwch ffonio Dr Gail Mulvey ar 01228 616316 / 616254.

Adran A: Gwybodaeth am eich busnes

1. Enw Cyswllt:.....
2. Rôl/ Teitl eich Swydd:.....
3. Enw'r Cwmni:.....
4. Cyfeiriad y Cwmni:.....
..... Cod post:
5. Cyfeiriad E-bost:.....
6. Pa un o'r categorïau canlynol sy'n disgrifio eich busnes?

Swyddfa'r Post	•	Siop o fewn Swyddfa'r Post	•	Siop arall	•
Gorsaf Betrol	•	Bwyty / Caffi	•	Siop Cludfwyd	•
Tafarn	•	Uned Gofal Plant	•	Cyfanwerthu	•
Gweithgynhyrchu	•	Gwasanaethau Personol	•	Adeiladu	•
Trafnidiaeth / Storïo	•	Gwesty / T• Llety / Gwely a Brecwast	•	Bancio, Cyllid ac Yswiriant	•

Arall • Rhowch fanylion:
7. Beth yw cyfanswm y staff yn eich busnes? (cofiwch gynnwys y perchennog / rheolwr yn ogystal â staff rhan amser ac achlysurol fel a nodir isod):
Nifer o staff llawn amser ____ Nifer o staff rhan amser ____ Nifer o staff achlysurol ____
8. Ym mha flwyddyn y sefydlwyd eich busnes?

Adran B: Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach a Chostau Busnes

9.	Pa ganran o ryddhad ardrethi ydych chi'n ei dderbyn?	25% •	50% •	100% •	Ddim yn si• r •
10.	Rhowch amcan o ba ganran o'ch trosiant yw eich ardrethi.	0-2% •	3-5% •	6-9% •	10%+ •
11.	Rhowch amcan o ba ganran o'ch costau busnes yw eich ardrethi.	0-2% •	3-5% •	6-9% •	10%+ •
12.	A ydych yn gweld y rhyddhad ardrethi: • Fel cyfraniad at dorri costau a bod yn fwy proffidiol • Fel cyfle i ddefnyddio adnoddau at bwrpas arall (e.e. i gyflogi staff achlysurol)				

Adran C: Effaith y rhyddhad ardrethi ar eich busnes

13. A ydyw rhyddhad ardrethi wedi effeithio ar unrhyw un o'ch penderfyniadau busnes yn y 12 mis diwethaf? - (er enghraifft, ar lle i leoli, pa adeilad i'w gymryd, a ddylech ehangu drwy gymryd adeilad arall neu beidio, a ddylech symud i adeilad newydd, a ddylech gyflogi mwy neu lai o bobl).

Do • Eglurwch ym mha ffordd.....
.....
.....

Naddo • Eglurwch pam ddim
.....
.....

14. A ydyw derbyn rhyddhad ardrethi wedi bod yn ffactor bwysig ichi aros mewn busnes dros y 12 mis diwethaf?

Ddim yn bwysig • Pwysig • Pwysig iawn •

15. A ydych yn rhentu neu'n berchen ar eich adeilad yn y cyfeiriad hwn?

Rhentu • (atebwch gwestiynau 16 ac 17) Yn berchen • (ewch i gwestiwn 17)

16. Pa gyfran o'r rhyddhad ardrethi sy'n cael ei lyncu gan renti uwch sy'n cael eu codi ar eich busnes?

Dim ohono • Peth ohono • Y rhan fwyaf ohono • Y cwbl •

17. Beth y mae rhyddhad ardrethi'n ei olygu i'ch busnes? Ehangwch ar hyn

.....
.....
.....
.....
.....

Adran Ch: Eich Barn am Ryddhad Ardrethi

- 1** Mae'r datganiadau isod yn awgrymu rhai o'r ffyrdd y gallai'r rhyddhad ardrethi fod yn effeithio
8 ar fusnesau bach yng Nghymru'n gyffredinol. Ticiwch y blwch sy'n adlewyrchu orau faint
ydych yn cytuno gyda phob datganiad.

a) mae'n helpu busnesau bach i oroesi mewn marchnadoedd eithriadol gystadleuol

Anghytuno'n Gryf • Anghytuno • Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno • Cytuno • Cytuno'n Gryf • Ddim yn gwybod •

b) mae'n annog pobl i sefydlu busnesau newydd

Anghytuno'n Gryf • Anghytuno • Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno • Cytuno • Cytuno'n Gryf • Ddim yn gwybod •

c) mae'n dangos bod y sector cyhoeddus yn awyddus i gefnogi busnesau bach

Anghytuno'n Gryf • Anghytuno • Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno • Cytuno • Cytuno'n Gryf • Ddim yn gwybod •

ch) mae maint y rhyddhad ardrethi yn fach ac nid yw'n gwneud gwahaniaeth mawr i hyfywedd busnesau

Anghytuno'n Gryf • Anghytuno • Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno • Cytuno • Cytuno'n Gryf • Ddim yn gwybod •

d) mae'n rhoi cymorth i fusnesau bach mewn cymunedau difreintiedig

Anghytuno'n Gryf • Anghytuno • Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno • Cytuno • Cytuno'n Gryf • Ddim yn gwybod •

dd) nd yw'r cynllun rhyddhad ardrethi yn ddefnydd da o arian cyhoeddus

Anghytuno'n Gryf • Anghytuno • Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno • Cytuno • Cytuno'n Gryf • Ddim yn gwybod •

e) mae'n helpu busnesau bach i oroesi mewn cymunedau gwledig anghysbell

Anghytuno'n Gryf • Anghytuno • Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno • Cytuno • Cytuno'n Gryf • Ddim yn gwybod •

f) mae'n annog busnesau bach i wneud rhywbeth i helpu cymunedau lleol

Anghytuno'n Gryf • Anghytuno • Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno • Cytuno • Cytuno'n Gryf • Ddim yn gwybod •

ff) mae'r cynllun yn rhoi mantais gystadleuol annheg i'r rhai sy'n ei dderbyn

Anghytuno'n Gryf • Anghytuno • Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno • Cytuno • Cytuno'n Gryf • Ddim yn gwybod •

Os dymunwch ehangu ar unrhyw un o'ch atebion uchod, gwnewch hynny yma os gwelwch yn dda.

.....
.....
.....

19. Defnyddiwch y lle hwn i ychwanegu unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu rhannu am gostau neu anghenion eich busnes.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Er mwyn ein helpu i werthuso'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi yng Nghymru, efallai y byddwn yn holi nifer fach o berchnogion busnes ymhellach i ganfod eu barn am effaith y Cynllun. Llenwch y manylion isod os ydych yn fodlon i rywun o'r tîm ymchwil gysylltu gyda chi dros y ffôn.

Enw:.....Rhif ffôn:

Diolch am roi amser i lenwi ein holiadur.

Y Ganolfan dros Ddatblygu Economaidd Rhanbarthol, Prifysgol Cumbria
ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru



Atodiad 3: Y Rhaglen Gyfweld Rhanddeiliaid

Cam 2: Y Rhaglen Gyfweld Lled-Ffurfiol ar gyfer sefydliadau rhanddeiliaid.

(Wedi'i hanelu at sefydliadau busnes, a hefyd wedi'i defnyddio yn sail ar gyfer Cyfweld Cyfrifwyr a'r sector Adwerthu)

Atgoffa o'r rheswm am y cyfweiliad fel y gwyddoch, rydym wrthi'n asesu effaith y rhyddhad ardrethi i fusnesau bach ar fusnesau, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y cyfweiliad heddiw'n cael ei ddefnyddio i ategu canlyniadau arolwg post yr ydym yn ei wneud gyda busnesau ar draws Cymru.

Bydd yr atebion a roddwch yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol yn unol ag ymarfer arferol pob ymchwil a wneir ym Mhrifysgol Cumbria. Mae hyn yn golygu **na fydd** y wybodaeth a roddwch fel unigolyn yn yr holiadur yn cael ei rhannu gydag unrhyw asiantaeth arall na chorff allanol a bydd y data ond yn cael ei gyhoeddi mewn ffordd gyfunol.

Bydd canlyniadau'r cyfweiliadau a'r arolwg post yna'n cael eu cyflwyno mewn gr• p ffocws.

Fel sefydliad busnes o bwys, mae'n bwysig ein bod yn casglu eich barn am y cwestiynau canlynol:

1 Ymwybyddiaeth o'r gwahanol gynlluniau

1.1 A wyddoch chi am y ffyrdd gwahanol y mae rhyddhad ardrethi i fusnesau'n cael ei weithredu yng Nghymru, Lloegr, yr Alban ac Iwerddon?

1.2 Sut y mae gweithrediad canlynol y rhyddhad ardrethi'n effeithio ar eich aelodau?

- Y busnes yn gorfod ymgeisio am ryddhad ardrethi (Lloegr a'r Alban).
- Rhyddhad ychwanegol yn cael ei dargedu at sectorau penodol

(Cynnig ateb: a oes cyfiawnhad dros wneud hyn? Pam / Pam ddim?)

- **Y gwahanol drothwyon ar gyfer Gwerth Ardrethol pryd y cymhwysir disgownt.**

(Cynnig ateb: lle ddylai'r trothwy fod a pham?)

- **Busnesau mawr yn gorfod talu mwy o ardrethi busnes fel cyfraniad at y rhyddhad i fusnesau bach a chanolig**

2 Y Prif Fuddiolwyr

2.1 Pa fath o fusnes yn eich barn chi sy'n elwa'n bennaf (y buddiolwr) o ryddhad ardrethi?

(Cynnig ateb: yn ôl maint, diwydiant, lleoliad (gwledig, trefol))

2.2 A ydych yn meddwl bod rhyddhad ardrethi'n bwysig i'ch sector chi yn gyffredinol? (Cynnig ateb: Pam / Pam ddim? Ym mha ffordd y mae'n bwysig?)

(Cynnig ateb: ai dim ond busnesau bach a chanolig y mae'n eu helpu neu a ydyw'n gymorth pwysig i fusnesau sydd newydd sefydlu yn eich sector chi, neu a ydyw'n helpu i gynnal eich sector mewn ardaloedd ymylol?)

3 Effaith y Cynllun

3.1 Allwch chi esbonio pa effaith y mae'r rhyddhad ardrethi wedi'i gael ar eich sector chi?

(Cynnig ateb: cymorth ariannol i fusnesau meicro / bach a chanolig; cymorth ariannol / moesol i fusnesau meicro / newydd sefydlu; fel cyfran deg o'r baich ardrethi busnes)

3.2 A ydych yn meddwl bod y cynlluniau rhyddhad ardrethi'n cael effaith ar yr economi leol?

(Cynnig ateb: Os ydynt, ym mha ffordd? Os nad ydynt, pam ddim?)

4 Problemau gyda'r Cynllun

4.1 A ydyw eich sector chi wedi cael unrhyw broblemau gydag unrhyw un o'r cynlluniau rhyddhad ardrethi yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Iwerddon?

(Cynnig ateb: Trafodwch unrhyw broblemau y sonnir amdanynt.)

5 Newidiadau posibl i'r Cynlluniau

5.1 O ystyried eich profiadau gyda'r cynlluniau rhyddhad ardrethi, a oes unrhyw agwedd arnynt y gellid ei newid i'w gwneud yn fwy effeithiol?

5.2 A ydych yn credu bod cynllun rhyddhad ardrethi yn syniad da?

(Cynnig ateb: pam?)

6 Sut y mae'r cynllun yng Nghymru'n cymharu gyda chynlluniau eraill yn y DU?

(Cynnig ateb: Os yn well, pam? Os yn waeth, pam?)

6.1 Beth sy'n gweithio'n dda yng Nghymru?

(Cynnig ateb: pam?)

6.2 Beth sy'n dda / ddrwg am y cynllun yng Nghymru?

(Cynnig ateb: pam?)

6.3 Pa wersi allai Cymru eu dysgu o'r cynlluniau eraill?

7 Sylwadau eraill